While 88% of respondents stated that they felt confident being able to support a child with additional or behavioural needs, 12% did not feel confident. Where respondents stated they did not feel confident they were asked what support or training do they require that would increase their confidence:

- As each child's needs are different we would like input from the children's case workers. In addition to more extensive staff training in Behavioural Needs and how to meet these challenges.
- Additional appropriately trained staff
- Appropriate training for additional needs and behaviour
- Funding

From the feedback that we have received through the survey and the consultation there are 3 main challenges faced by Out of School Childcare Clubs contributing to the barriers to accessing Out of School Childcare Clubs.

### Funding

As stated previously only 14 respondents to our survey had accessed funding to support children with additional needs and/or neurodiversity accessing their service. Access to this funding enables children to play and provides socialisation opportunities with their peers while parents have the ability to work.

We are currently refreshing the information we have on 1:1 support / funding available across Wales that would enable children with additional needs / neurodiversity to access the same opportunities as their peers within Out of School Childcare Clubs, however early indications show that funding seems to be limited. This limited funding impacts a child's ability to access play and socialisation opportunities, whilst also a parents ability to work, some examples of this are

- A local authority who does not fund school aged children, this lack of continuation funding and support, (past the early years) **has caused a parent, who is a newly qualified teacher with a post starting in September 23, to**



cynnar) wedi achosi i riant, sy'n athrawes newydd gymhwyso, a swydd sy'n dechrau ym Medi 23, ystyried rhoi'r gorau i'w chyflogaeth, gan na all y plentyn gael mynediad at gymorth Help Llaw i ofal plant.

- Bydd yr awdurdod lleol ond yn ariannu cymorth 1:1 naill ai yn ystod addysg neu ofal plant i blentyn
- Mae cyllid ar gyfer cymorth 1:1 mewn llawer o siroedd yn aml yn dod i ben yn unol â'r Cynnig Gofal Plant pan fydd plant yn cyrraedd oed ysgol (5) gan effeithio felly ar eu gallu i gael mynediad i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol.

Dyma'r sylwadau rydym wedi'u derbyn ynglŷn â chyllid:

- *Mae'r Awdurdod Lleol yn ariannu'r lleoedd ond mae llawer o waith yn mynd i mewn i gefnogi chwarae plant sydd ag ADY.*
- *Mae angen cefnogaeth ar gyfer gwaith paratoi / myfyrio ac adnoddau. Mae nifer yr oriau ychwanegol o hyfforddi staff, uwchsgilio staff unigol ar fanylion pob plentyn ADY yn feichus iawn. Yn ogystal, mae'r rhieni yn feichus iawn ynghyd ag ymdrin â materion plant ag ADY mewn lleoliad prif ffrwd.*
- *Mae angen mwy o gymorth ar y plant hyn ac i wneud hynny mae angen buddsoddiad arnom. Buddsoddi mewn staffio a staff Cymraeg i ddiwallu anghenion plant Cymru a rhoi cyfle i bob plentyn chwarae yn unol â'u hawliau.*
- *Gan nad yw plant fel arfer ar ddatganiad cyn 5 oed rydym yn teimlo y dylai mwy o gymorth ariannol fel cyllid fod ar gael. Mae hyn yn angenrheidiol i gefnogi anghenion 1:1 ac adnoddau y mae angen eu hadnewyddu am nad yw'r plentyn yn deall sut i ofalu am bethau neu am ei fod yn sgriblo dros waliau ac ati.*
- *Fel ysgol sydd ag SNRB (Sylfaen Adnoddau Anghenion Arbennig) fel rhan o'n hysgol mae hyn yn dod yn broblem fawr. Mae cyllid yn bryder mawr gan na allwn gael arian ychwanegol ar gyfer y*

**consider giving up her employment as the child cannot access Extra Hands support for childcare.**

- A local authority will only fund 1:1 support either during education or childcare for a child
- Funding for 1:1 support in many counties often ends in line with The Childcare Offer when children reach the school age (5) thereby impacting their ability to access Out of School Childcare Clubs.

Comments that we have received regarding funding are:

- *The LA fund the spaces however there is a mass amount of work that goes into supporting children's play who have ALN. There needs to be support for prep work / reflection and resource. The amount of extra hours training staff, up skilling individual staff on the specifics of each ALN child is very demanding. In addition the parents are very demanding along with dealing with issues of children with ALN's in a mainstream-setting. These children are in need of more support and to do that we need investment. Investment in staffing and Welsh language staff to meet the needs of children in Wales and allow all children the opportunity to play as per their rights.*
- *As children are not normally stated before the age of 5 we feel more funding support such as funding should be available. This is necessary to support 1:1 needs and resources that need replacing due to the child not understanding how to look after things or scribbling all over walls etc*
- *As a school that has a SNRB (Special Needs Resource Base) as part of our school this is becoming a big issue. Funding is a big concern as we cannot get extra funding for these placements so they all run at a loss which we have to support.*

*lleoliadau hyn. Maent oll yn rhedeg ar gollod y mae'n rhaid i ni eu cefnogi.*

- *Mae gennym ddigon o sgil a llawer o gymhelliant. Nid oes gennym y cyllid i allu cynnal y gofynion cymorth ychwanegol i wneud y gwaith yn dda ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol, yn aml.*
- *Mae amgylchedd chwarae anstrwythuredig a hamddenol ein clwb yn ymddangos fel y cyfle perffaith i blant ag anghenion ychwanegol ffynnu ar ôl diwrnod o addysg ffurfiol strwythuredig - gyda chyllid nad yw'n bodoli ar gyfer y plant hyn yn ein clwb, mae bron yn amhosibl cynnig y cyfleoedd hyn i'r plant a'u teuluoedd.*

### Hyfforddiant a Staffio

Rydym yn ymwybodol bod y sector gofal plant a chwarae cyfan, fel llawer o sectorau eraill, yn wynebu heriau recriwtio a chadw, ac mae hyn yn cael mwy o effaith ar y gallu i gefnogi plant ag anableddau / niwroamrywiaeth / anghenion ymddygiadol. Mae gan lawer o leoliadau y staff i fodloni Safonau Gofynnol Cenedlaethol AGC o ranr cymarebau ond nid oes ganddynt y staff ychwanegol i gefnogi plant unigol.

- *Yn perthyn i glwb mewn pentref bychan, mae'n anodd iawn dod o hyd i staff sy'n gymwys ac yn barod i weithio tuag at gymhwyster, sydd eisiau gweithio mewn clwb ôl-ysgol am ychydig oriau. Pe bai cyllid ar gael i gynyddu'r cyflogau a fyddai'n denu staff i fod ag awydd i weithio yn y sector am yr ychydig oriau hyn, rwy'n teimlo y byddai o fudd i glybiau bach.*
- *Byddai hyfforddiant o fudd i'r holl staff.*
- *Dylid cael cyrsiau hyfforddi ar sut i ddelio ag ymddygiadau penodo megis stimio, hunan-niweidio, gorlethiad a.y.b. Sut y gall staff ddelio ag ef, sut i gadw plant yn ddiogel rhag eu hunain a chyfyngu ar fygythiad i eraill. Er enghraifft, merch awtistig, 8 oed wedi cynhyrfu ac yn taro ei hun. Os bydd staff yn dod atyn nhw mae'n eu taro fel bod staff, yn monitro ac yn caniatáu gofod yn barhaus gan gynnig*

- *We have plenty of skill and much motivation. We just don't have the finances to be able to sustain the additional support requirements to do the job well for children with additional needs, often.*
- *The non-structured and relaxed play environment of our club seems like the perfect opportunity for children with additional needs to thrive after a day of structured formal education - with non-existent funding for these children at our club, it's almost impossible to offer these opportunities to the children and their families.*

### Training and Staffing

We are aware that the whole childcare and play sector, like many other sectors, are facing recruitment and retention challenges, and this is having a greater impact on the ability to support children with disabilities / neurodiversity / behavioural needs. Many settings have staff to meet CIW National Minimum Standards for ratios but do not have additional staff to support individual children.

- *Being in a club in a small village it is extremely hard to find staff qualified and willing to work towards a qualification, that want to work in after school club for a few hours. If funding were available to increase the wages so that it entices staff to want to work in the sector for the few hours I feel it would benefit small clubs.*
- *Training would benefit all staff.*
- *There should be training courses on how to deal with specific behaviours, stimming, self-harm, meltdowns etc. How staff can deal with it, how to keep children safe from themselves and limit threat to others. Eg Autistic girl, aged 8 is upset and hitting herself. If staff approach she hits them so staff, monitor and allow for space continually offering resources and comforts to de-escalate the situation. As she grows*

*adnoddau a chysur i leddfu'r sefyllfa. Wrth iddi heneiddio bydd yr ymddygiad hwn yn fwy difrifol a bydd yn achosi niwed gwirioneddol iddi hi ei hun. Beth ellir ei wneud i atal hyn neu gyfyngu ar yr effaith a gaiff arni ei hun? Rydym wedi edrych ond nid ydym wedi dod o hyd i unrhyw rai sy'n delio'n benodol ag ymddygiad negyddol. Mae yna ddigonedd o adnoddau sy'n hyrwyddo cynhwysiant a gweithgareddau ond dim un sy'n ymdrin â hyn i bob golwg.*

*older this behaviour will be more severe and she will cause actual harm to herself. What can be done to stop this or limit the impact she has on herself? We have looked but haven't found any that specifically deals with negative behaviours. There are plenty of resources promoting inclusion and activities but none that seem to deal with this.*

## **Cyfathrebu**

Mae lleoliadau wedi dweud mai un o'r heriau sydd ganddyn nhw yw diffyg cyfathrebu, a gall hyn fod gan y rhiant a/neu'r ysgol:

- Mae'r berthynas rhwng rhiant a'r ysgol/clwb yn allweddol, ond ychydig o help sydd i gyfyngu pan fo anawsterau, nac i amddiffyn staff rhag ymddygiad treisgar ac ymosodol gan blant a rhieni.
- Mae rhieni yn aml yn gyndyn o ddatgan anghenion ychwanegol eu plentyn wrth gofrestru, rhag ofn y gwrthodir lle iddynt. Mae hyn yn ein gadael yn ei chael yn anodd ymdopi, heb i ni gael y cyfle i ofyn am gyllid ar gyfer staffio ychwanegol.
- Ein problem fwyaf yw nad yw rhieni yn onest am lefel anghenion ychwanegol/problemau ymddygiad/problemau toiled a.y.b. wrth archebu eu plant i mewn. Dros yr haf roedd gennym ddau o blant gwahanol yr oedd yn rhaid i ni eu gwrthod ar ôl eu diwrnod cyntaf. Daeth yn amlwg bron ar unwaith fod gan y ddau blentyn anghenion cymhleth, er bod gan bron bob un o'n staff flynyddoedd lawer o brofiad o anghenion ychwanegol mewn ysgolion, nid oeddem yn teimlo ei bod yn briodol iddynt allu dychwelyd. Yn y ddau achos roedd y rhieni wedi esgeuluso dweud y stori wir wrthym.
- Nid oedd un o'r rhieni - y mae ei blentyn i bob pwrpas â 1:1 yn yr ysgol ac ag anghenion cymhleth (heb ei rannu â ni!) - yn ymwybodol bod cyllid ar gael dros y gwyliau ar gyfer plant ag anghenion

## **Communication**

Settings have communicated that one of the challenges they have is a lack of communication, this may be from the parent and/or the school:

- *The relationship between parent and school/clwb is key, but there is little help to mediate when there are difficulties, or to protect staff from violent and aggressive behaviour from children and parents.*
- *Parents are often reluctant to declare their child's additional needs upon registration, for fear that they will be refused a place. This leaves us struggling to manage, without having had the opportunity to request funding for extra staffing.*
- *Our biggest problem is that parents are not honest about the level of additional needs/behaviour problems/toileting problems etc when booking their children in. Over the summer we had two different children who we had to refuse after their first day. It became clear almost immediately that both children had complex needs that despite almost all of our staff having many years experience of additional needs in schools, we didn't feel it appropriate that they could return. In both cases the parents had neglected to tell us the true story.*
- *One of the parents - whose child effectively has a 1:1 in school and has complex needs (not shared with us!) - wasn't aware that there was funding*

ychwanegol a bod lleoliadau ar gael ar gael a fyddai'n gallu helpu.

- Yn meddwl bod angen i'r awdurdodau fod yn fwy agored a gonest gyda rhieni y byddai angen lleoliadau o'r fath ar eu plant.

Bydd Clybiau Gofal Plant All-Ysgol bob amser yn ymdrechu i ddiwallu anghenion y plentyn unigol tra hefyd yn diogelu pob plentyn yn eu gofal. Lle nad yw plentyn yn gallu cael mynediad i Glybiau Gofal Plant All-Ysgol nid yw hyn oherwydd gwahaniaethu ond yn hytrach oherwydd rhwystrau cymdeithasol na allant eu goresgyn.

Mae lleoliad sy'n arbenigo mewn darparu gofal i blant ag anableddau, niwroamrywiaeth a heriau ymddygiad yn nodi:

*“Mae'n hynod o anodd rhedeg gwasanaeth gofal plant i blant ag anghenion ychwanegol oherwydd y lefel uchel o staffio, hyfforddiant, cymwysterau a chyfleusterau sydd eu hangen. Mae angen llawer mwy o baratoi ar gyfer pob plentyn/person ifanc megis ymweld â nhw yn yr ysgol, gartref ac mewn lleoliadau eraill er mwyn cael darlun llawn o anghenion, ymddygiadau, a hoff a chas bethau'r unigolyn. Os oes gennym ni 10 o blant / pobl ifanc mewn sesiwn mae angen 2 weithiwr craidd a 10 un i un o leiaf. Efallai bod hynny'n swnio'n ormodol ond dyna sydd ei angen i gadw'r unigolion hyn yn ddiogel, yn ymgysylltu ac yn hapus. Mae llawer o'r plant angen cymorth yn yr ystafell ymolchi (llawer gyda chlytiau) sydd angen cefnogaeth 2:1 a dyna un enghraifft yn unig o pan fydd angen yswiriant ychwanegol drwy'r dydd. Mae'r gost o redeg ein lleoliad ymhell y tu hwnt i'r hyn sy'n rhesymol i'w godi fel ffioedd ar rieni, felly rydym yn codi arian yn gyson i agor y lleoliad.”*

*available over the holidays for children with additional needs and that there were settings available that would be able to help. Think the authorities need to be more open and honest with parents whose children would need such settings.*

Out of School Childcare Clubs will always strive to meet the needs of the individual child while also safeguarding all children in their care. Where a child is unable to access Out of School Childcare Clubs this is not due to discrimination but rather due to social barriers which they are unable to overcome.

A setting who specialises in providing care for children with disabilities, neurodiversity and behaviour challenges states:

*“It is incredibly difficult to run a childcare service for children with additional needs due to the high level of staffing, training, qualification and facilities needed. It requires substantially more preparation for each child/young person such as visiting them in school, at home and in other settings in order to have the full picture of the individuals needs, behaviours, likes and dislikes. If we have 10 children / young people in a session we need 2 core workers and 10 one to ones as a minimum. That may sound excessive but that is what is needed to keep these individuals safe, engaged and happy. Many of the children need assistance in the bathroom (many with nappies) which requires 2:1 support and that is just one example of when through the day we need additional cover. The expense of running our setting is way beyond what it is reasonable to charge parents in fees, so we are constantly fundraising to open the setting.”*



Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar gyfer yr ymchwiliad: [A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) for the inquiry: [Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?](#)

AEC 51

**Ymateb gan: Mudiad Meithrin**

**Response from: Mudiad Meithrin**

---

Mae Mudiad Meithrin yn gymdeithas wirfoddol genedlaethol o Gylchoedd Meithrin, cylchoedd Ti a Fi, gofal cofleidiol a meithrinfeydd dydd Cymraeg. Ein nod yw creu siaradwyr Cymraeg newydd, ymgyrchu dros ofal ac addysg Cymraeg i bob plentyn, cefnogi ein haelodau a chynllunio'n strategol i ddatblygu gwasanaethau newydd.

Ers 1971 rydym wedi tyfu'n aruthrol. Erbyn heddiw mae tua 1000 o Gylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi, grwpiau 'Cymraeg i Blant', sesiynau 'Clwb Cwtsh' a Meithrinfeydd dan faner y Mudiad Meithrin sydd yn darparu profiadau blynyddoedd cynnar i tua 22,000 o blant bob wythnos.

Rydyn ni wedi cymhwyso dros 3500 o unigolion yn uniongyrchol i'n gweithlu cyfrwng Cymraeg gyda chymwysterau Gofal Plant, a hynny drwy ein Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol a'r Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam. Mae'r Mudiad yn ganolfan wedi ei hachredu a'i hadnabod gan WJEC a City and Guilds yn ogystal â CACHE ar gyfer darparu yr ystod lawn o gymwysterau ôl-14 ac ôl-16.

Hefyd, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda rhieni er mwyn darparu cymorth a chynghor i'w galluogi i ddatblygu a chefnogi gwaith y cylchoedd yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant neu ddechrau dysgu Cymraeg. Rydym yn elusen gofrestrdig sy'n cyflogi dros 200 o bobl yn genedlaethol, gyda 2000 ychwanegol yn gweithio yn y Cylchoedd a'r meithrinfeydd. Cefnogir y cylchoedd gan rwydwaith cenedlaethol o staff proffesiynol sy'n eu cynghori ar amrediad o faterion er enghraifft cefnogaeth fusnes, cymwysterau a recriwtio staff, hybu arfer da, hyfforddiant staff a chyd-weithio ag Awdurdodau Lleol.

## **Cyflwyniad**

Mae Mudiad Meithrin yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgyngoriad amserol hwn gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru. Bu dwy flynedd ers i'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ddod i rym sy'n gosod dyletswydd ar leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir (fel Cylchoedd Meithrin) i gefnogi

Awdurdodau Lleol yn eu dyletswydd i adnabod plant ag ADY a chynnal Cynllun Datblygu Unigol ar gyfer y plentyn hwnnw.<sup>1</sup> Digwyddodd hyn mewn cyfnod o gyni ariannol sy'n parhau, ac yn debygol o waethygu, ac mae cwtogi ariannol wedi cael effaith uniongyrchol ar hawliau plant anabl a niwrowahanol ledled Cymru, ac yn benodol eu mynediad i ofal plant ac addysg. Gwyddom hefyd fod oedolion a phlant ag anghenion ychwanegol yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi, felly rhaid i hynny fod yn ystyriaeth ganolog wrth edrych ar ffactorau a all rwystro neu amharu ar fynediad teg i ofal plant ac addysg: Mae teuluoedd gyda phlant anabl yn llawer mwy tebygol o fyw mewn tlodi.<sup>2</sup>

Mae Mudiad Meithrin wedi ymrwymo'n llwyr i'r egwyddor o roi mynediad teg i bob plentyn i ofal plant ac addysg, a'r egwyddor o gynllunio gan roi'r plentyn yn y canol, ac adlewyrchir hynny ym Mholisi Derbyn, Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Pholisi Cynhwysiant a Chyfle Cyfartal Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd dydd sy'n aelodau Mudiad Meithrin. Mae 'Cylch i Bawb' yn adnodd hyfforddiant a rhestr adnoddau sy'n helpu cylchoedd i ystyried cynhwysiant ym mhob agwedd o'r lleoliad, a chyflwyno amrywiaeth Cymru i blant bach. Darpara AcadeMi, adran hyfforddiant Mudiad Meithrin, sesiynau hyfforddi amrywiol ym maes ADY ac anabledau, ac mae rhwydwaith Cymru gyfan o Gydlynnyddion i gefnogi'r Cylchoedd gyda chynghor ac arweiniad ar holl agweddau o fywyd y lleoliad.

Er mwyn cael darlun o'r sefyllfa gyfredol o ran cynnig mynediad teg i addysg, fe rannodd Mudiad Meithrin holiadur wedi ei deilwra ar gyfer tair cynulleidfa wahanol:

- Rhieni a gofalwyr plant anabl a niwrowahanol
- Lleoliadau – Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Dydd
- Staff cefnogi Mudiad Meithrin wedi eu lleoli ar draws Cymru

Cafodd yr ymateb i'r ymgynghoriad hwn ei seilio'n bennaf ar eu hymatebion hwy.

Hefyd, edrychwyd ar dri set o ddata i graffu pa wybodaeth berthnasol i'r ymgynghoriad a allent eu cynnig:

- Casgliad data blynyddol Mudiad Meithrin o'r niferoedd o blant ag anghenion ychwanegol mewn Cylchoedd Meithrin
- Data ADY o gasgliad SASS Arolygaeth Gofal Cymru a ddarparwyd i Cwlwm gan Lywodraeth Cymru

Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

---

<sup>1</sup> Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (2021) <https://www.llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol>

<sup>2</sup> Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022: [Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 | LLYW.CYMRU](#)

Rydym wedi rhannu ein hymateb i'r adrannau isod:

1. Mynediad at bob rhan o ddarpariaeth gofal plant ac addysg
2. Heriau sy'n wynebu lleoliadau fel Cylchoedd a meithrinfeydd
3. Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
4. Cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
5. Prif alwadau

Bydd is-benawdau yn cyflwyno'r prif ystyriaethau yn y prif adrannau hyn.

### **Adran 1: Mynediad at bob rhan o ddarpariaeth gofal plant ac addysg**

Bydd yr adran hon yn canolbwyntio'n bennaf ar ein dealltwriaeth o brofiad plant a'u rhieni/gofalwyr o ofal plant ac addysg nas cynhelir. Fel a nodwyd uchod, mae gan bob Cylch Meithrin a meithrinfa bolisiau sy'n ymrwymo'r lleoliadau i groesawu pob plentyn a'i bod yn ofynnol iddynt wneud addasiadau rhesymol yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth dderbyn plant anabl neu blant ag unrhyw fath o anhawster.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'n holiadur i rieni a gofalwyr yn fodlon fod eu plentyn anabl neu niwrowahanol yn cael mynediad at bob rhan o'r ddarpariaeth. Dyma rai dyfyniadau o'r holiadur:

**'Staff gwych a profiadau arbennig'**

***'All indoor and areas are accessible, activities are planned and suitable, quiet areas available'***

**'Mi gafwyd cyfarfod cynllunio i sicrhau nad oedd fy merch yn cael ei thrin yn wahanol ac i sicrhau fod pob math o gefnogaeth yn ei le ar ei chyfer.'**

***'My son was included in all activities, trips, games, etc.'***

O'r atebion a dderbyniwyd gan rieni neu ofalwyr i blant anabl neu niwrowahanol, roedd 50% o'r ymatebwyr wedi rhoi'r sgôr uchaf i'r profiad a gawsant, sef eu bod yn credu i'w plentyn gael mynediad at bob rhan o'r ddarpariaeth. Roedd 31.81% o'r ymatebwyr wedi rhoi'r sgôr isel sy'n golygu nad oeddent yn credu eu bod wedi derbyn mynediad at bob rhan o'r ddarpariaeth (roedd y gweddill wedi sgorio rhywle yn y canol.

Isod, amlinellir y prif resymau pam nad oedd rhieni a gofalwyr yn credu bod eu plentyn wedi cael mynediad llawn Cylch Meithrin.

## **Diffyg staff**

Y prif reswm a nodwyd gan rieni oedd diffyg staff, ac ategir hyn gan yr ymateb i holiadur ymysg staff sy'n nodi prinder staff fel y prif ffactor os yw plentyn yn cael ei eithrio.

Adroddodd un rhiant bod ei phlentyn anabl wedi derbyn gofal plant gynhwysol o'r radd flaenaf mewn un Cylch Meithrin, ond bu i'r teulu symud i ardal arall ac i Gylch Meithrin gwahanol ar safle ysgol yn yr ardal newydd. Llwyddodd y Cylch i recriwtio aelod o staff ar ôl derbyn nawdd ar gyfer dwylo ychwanegol, ond os nad oedd yr aelod o staff ar gael, nid oedd modd i'r plentyn fynychu:

'Due to lack of staff at Cylch Meithrin \*\*\*, my son was excluded for one whole cylch week and 1 day between April 2023 and the end of summer term.'

Cytunai sawl ymateb arall mai niferoedd staff oedd y rheswm pam nad oedd modd i'w plentyn fynychu'r lleoliad yr un mor rheolaidd â phlant eraill:

'Not enough staff, staff calling in sick, unable to open all day for them. Not consistent for their routine.'

Gall yr anghysondeb yma gael effaith ar y plentyn a'u datblygiad. Nododd y rhiant cyntaf a ddyfynnwyd bod ei mab 4 oed eisoes yn sylwi ei fod yn cael ei drin yn wahanol. Bydd yr anghysondeb yn achosi problemau i rieni/gofalwyr sy'n gweithio hefyd.

## **Aros am gyllid**

Un o'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd am y diffyg staff oedd nad oedd cyllid ar gael gan yr Awdurdod Lleol, neu bod rhaid aros i weld a oedd cyllid ar gael. Yn ôl egwyddorion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae angen rhoi'r plentyn yn y canol a chynllunio yn ôl ei anghenion, ac felly ni fydd angen cyllid ar gyfer dwylo ychwanegol ym mhob achos gan fod pawb yn wahanol. Serch hynny, mae'n ymddangos o'r ymatebion fod aros am sicrwydd o gyllid yn eithrio'r plant sydd ei angen ar hyn o bryd:

'Waiting to find out after the CDT meeting also waiting on outreach funding.'

'We are awaiting funding to be allocated for a 1:1 support, so that there is an adult to support our daughter by carrying her portable oxygen cylinder.'



'Waiting on a CDT meeting; my child was 2 in July but we don't have a start date for cylch because they want to check the support will be in place for him.'

Mae aros i glywed a oes cyllid ar gael yn effeithio ar hawl plant anabl neu niwrowahanol i gael gofal plant ac addysg. Bydd yr ansicrwydd hefyd yn effeithio ar allu'r rhieni/gofalwyr i gynllunio eu bywydau ac i sicrhau fod eu plant yn elwa ar gyfleon chwarae ac addysg blynyddoedd cynnar.

Byddwn yn trafod materion staffio a chyllid o safbwynt y lleoliad ymhellach yn yr adran nesaf.

## **Gwyliau ysgol**

Yn yr ymateb i'r holiadur ar gyfer rhieni a gofalwyr, cododd mater o gyllid yn ystod gwyliau fel un peth penodol a oedd yn rhwystro plant anabl a niwrowahanol rhag cael mynediad teg i ofal plant ac addysg. Dywedodd un rhiant mewn cyfweiliad ffôn fod amser gwyliau yn 'amser anodd iawn' a bod cyllid am ofal plant ar gyfer ei merch ag anghenion dwys wedi ei dorri yn gynharach yn 2023. Golygai hyn ei bod fel mam sengl yn wynebu wythnosau heb doriad o ofalu am ei merch, a'i bod wedi cael effaith andwyol ar ei iechyd meddwl.

Yn ôl un rhiant, help i gael mynediad i *respite* fyddai un o'r pethau mwyaf y gellir ei wneud i'w cefnogi fel teulu yn ystod y gwyliau, ond rhaid iddyn nhw ariannu a threfnu hyn eu hunain:

'Dydyn ni ddim yn gymwys am [*respite*] chwaith ac yn gorfod talu ffrind i'r teulu i wneud hyn i ni. Mae'r gwyliau yn hunllef. Mae angen mwy o help a chefnogaeth. Mae e'n costio'n ddrud i ni. Mae ein mab gymaint drutach na phlant eraill felly rhaid i ni barhau i weithio ar ychydig iawn o gwsg ac ychydig iawn o hoe er mwyn ariannu yr anghenion ychwanegol. Mae'n unig ac rydym wedi ymlâdd.'

Mae pryder gwirioneddol ymhlith rhieni a gofalwyr y bydd cwtogi pellach ar y gwasanaethau a'r gefnogaeth fydd ar gael yn ystod gwyliau ysgol.

## **Addasrwydd lleoliad a gweithgareddau**

Mae Cylchoedd Meithrin wedi eu lleoli mewn amrywiaeth o lefydd – o adeiladau pwrpasol lle mae cartref parhaol gan y cylch i neuaddau lle mae'n rhaid clirio adnoddau'r Cylch ar ddiwedd bob sesiwn. O'r ymatebion a ddaeth i law, nid oedd sylwadau penodol am amgylchedd ffisegol, ac roedd sawl sylw yn canmol hygyrchedd a mynediad hawdd i adnoddau i bob plentyn.

Teimlai rhieni a gofalwyr bod plant anabl neu niwrowahanol yn fwy tebygol o gael eu heithrio o dripiâu nag unrhyw weithgaredd arall:

'Every trip they've had, my daughter didn't get a chance to go on because of her disabilities. There were never enough staff to take her even though she has a 1:1'

'Excluded from walks. All activities that he struggles with are planned for the day he is off.'

Nid yw'r enghreifftiau hyn yn amlygu arfer dda o addasu gweithgareddau i fod yn addas i bob plentyn. Gwyddom fod pob plentyn mewn lleoliad yn elwa pan fod cynhwysiant go iawn ar waith, ac mae'n bryder pa negeseuon sy'n cael eu gyfleu i blant eraill y lleoliad os nad yw eu ffrindiau anabl neu niwrowahanol yn cael cymryd rhan yn yr un gweithgareddau â nhw.

### **Hyfforddiant:**

Roedd diffyg hyfforddiant ac arbenigedd yn ffactor fawr a oedd wedi cyfrannu at brofiad negyddol rhai rhieni a gofalwyr. Yn ymatebion ymarferwyr i'r holiadur a anfonwyd atyn nhw, nodâ nifer ohonynt nad oes hyfforddiant addas neu'r hyfforddiant maent yn chwilio amdano ar gael yn aml iawn. Galwant hefyd am fwy o gyngor ac arweiniad gan arbenigwyr wrth geisio cynnig cefnogaeth i blentyn unigol (ceir trafodaeth lawn ynglŷn â hyn yn Adran 2).

Ymhlith enghreifftiau gwaethaf rhieni a gofalwyr y mae:

- Diffyg dealltwriaeth sut i gefnogi plentyn er bod cyllid wedi ei gynnig
- Diffyg dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng cyflyrau gwahanol
- Gwell deialog â rhieni a gofalwyr – angen cryfhau pontio rhwng y cartref a'r lleoliad
- Yr angen am barodrwydd i roi cynlluniau a chynghor arbenigwyr ar waith yn y lleoliad
- Diffyg darpariaeth anghenion dwys

Pwysleisiwn mai lleiafrif yr ymatebion a gododd y pwyntiau uchod, ond bydd Mudiad Meithrin yn awyddus i ddeall mwy am y canfyddiadau hyn a sut gallwn gefnogi ymarferwyr i uwch-sgilio am chynyddu eu dealltwriaeth ynghylch darparu gwasanaeth gyflawn i blant anabl a niwrowahanol.

Dywedodd un rhiant eu bod wedi cael croeso mewn Cylch Meithrin, ond nid oedd parodrwydd y cylch i dderbyn y plentyn yn golygu mai'r lleoliad hwnnw oedd y gofal a oedd fwyaf addas i'r plentyn – bu'n amhosib i'r plentyn dan sylw gael y gofal arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg:

'Aeth fy mab i Gylch Meithrin brif ffrwd lle roedd ganddo un i un. Dwi ddim yn meddwl ei fod yn gwneud braidd dim gweithgareddau gyda'r plant eraill. Doedd dim PECS yno na digon o ofod iddo nac arbenigedd. Arferem deithio o \*\*\* i \*\*\* ddwywaith yr wythnos i fynychu meithrinfa Saesneg gydag arbenigedd ASD.'

Mae profiad y rhiant yn pwyntio at ddiffyg gofal arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg yn benodol, felly mae angen gwell cynllunio er mwyn ymateb i anghenion plant trwy gyfrwng iaith y teulu. Meddai'r un rhiant:

'Does dim darpariaeth blynyddoedd Cynnar digonol yn \*\*\*. Mae angen meithrinfa arbennig i blant gydag ASD, a hynny yn Gymraeg. Gwellodd pethe yn sylweddol pan aeth i ysgol gydag uned arbenigol. Does dim cyfleon chwarae na grwpiau Gymraeg eu hiaith yn \*\*\* na chyfle i gymdeithasu gyda theuluoedd Gymraeg. Mae'r gwasanaeth iaith a lleferydd yn ofnadwy o wael.'

Ychwanegodd y rhiant bod ei phlentyn bellach 'wedi ei ryddhau o'r gwasanaeth iaith a lleferydd er nad yw fy mab yn siarad gair'.

### **Gwahaniaethu yn seiliedig ar anabledd a'i effaith**

Dywedodd 39.13% o'r rhieni neu ofalwyr a atebodd holiadur Mudiad eu bod yn credu eu bod wedi profi gwahaniaethu ar sail anabledd.

Mae'r lefel o ddewis o leoliadau yn is i blant anabl neu niwrowahanol, ac mae rhieni yn teimlo eu bod yn gorfod gweithio'n galed i gael y wybodaeth sydd angen arnynt, yn ogystal â dod o hyd i le addas sy'n bodloni anghenion y plentyn. Adroddodd un rhiant am y trafferth a gafodd i ddod o hyd i leoliad a fyddai'n derbyn ei phlentyn:

'Before my son started at Cylch Meithrin... I tried to get him into 3 other nurseries. All of them had spaces available until they discovered that my son had a disability and they would need an extra member of staff / support staff for some of the week. I was told on one occasion that 'it wasn't worth their setting hiring another member of staff for my son for less than an academic year'. Most nurseries I've approached seem to be unaware of disability rights and have no problem making myself and my son feel like a burden.'

Yn amlwg, nid yw'n dderbyniol fod y rhiant a'r plentyn yn teimlo fel bwrddwr wrth geisio cael lle mewn meithrinfa. Roedd y plentyn penodol hwn angen aelod penodol o staff i'w oruchwylio oherwydd anabledd corfforol. O gofio'r cyd-destun presennol pan mae hi'n anodd dod o hyd i gyllid i gefnogi plant unigol, ac os yw'r

feithrinfa yn barod yn cynnig gofal i blant ag anghenion o'u poced eu hunain, gall fod yn heriol iawn i leoliadau gallu derbyn a chefnogi pob plentyn.

Dywedodd rhiant arall ei bod wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith oherwydd nad oedd cyllid ar gael i'w phlentyn ag anghenion dwys i fynychu gofal cofleidol ar safle'r ysgol erbyn hyn:

'As a single mum I am unable to work due to lack of suitable child care..I have found the younger my daughter was the easier her needs were met (up to 3 years) now I cannot work because there isn't suitable childcare or anywhere that offers wrap around care for her school.'

Er bod ei merch yn cael y gefnogaeth angenrheidiol yn ystod oriau'r ysgol, roedd y rhiant yn chwilio am ofal am ddwy awr cyn neu ar ôl ysgol. Adroddodd y rhiant bod gorfod rhoi gorau i'w swydd am nad oedd gofal ar gael i'w merch yn y boreau (heblaw ei bod yn talu am y gofal ei hun) wedi bod yn ergyd ddwbl – yn ariannol ond hefyd ar ei iechyd meddwl.

O'r ymatebion a gafwyd i'r holiadur, gellir dweud fod y wybodaeth sydd ar gael i deuluoedd yn amrywio drwy Gymru gyfan. Dyma'r gofynion a ddaeth i'r amlwg o'r holiadur:

- Dylai ysgolion gynnig mwy o wybodaeth i leoliadau nas cynhelir a rhieni pan fo rhieni yn ystyried dewisiadau a'r cam nesaf i'r plentyn
- Dylai ysgolion gryfhau'r pontio rhwng y feithrinfa a'r ysgol
- Bod gwybodaeth ar gael yn hawdd heb orfod chwilio'n galed amdano
- Mwy o ymweliadau gan ymwelwyr iechyd i deuluoedd â phlant anabl.

Mae'n amlwg fod tipyn i'w wneud i wella profiad plant anabl a niwrowahanol a'u rhieni/gofalwyr o ofal plant ac addysg gynnar, ac mae Mudiad Meithrin yn awyddus i fynd i'r afael â'r rhain ar y cyd ag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Dengys yr adran nesaf fod gwraidd llawer o'r profiadau mewn ffactorau sydd tu hwnt i reolaeth arweinwyr lleoliadau meithrin.

## **Adran 2: Rhwystrau sy'n atal darparwyr gofal plant rhag cynnig darpariaeth hygyrch**

Mae Mudiad Meithrin yn casglu data am y niferoedd o blant ag ADY mewn Cylchoedd Meithrin yn flynyddol, ynghyd â'r trosglwyddiad o blant ag ADY i addysg Gymraeg. Mae'r ganran genedlaethol o blant ag ADY yn cymharu'n dda a'r ganran o blant ag ADY mewn ysgolion yn yr un flwyddyn yn ôl data a gymerwyd o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).<sup>3</sup>

---

<sup>3</sup> [Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion \(CYBLD\) \(llyw.cymru\)](#)

Blwyddyn	Anghenion ADY yn mynychu Cylchoedd Meithrin	Anghenion ADY gyda Datganiad (% o'r holl ddisgyblion Cymru)	Anghenion ADY gyda Datganiad (% o'r sector cyfrwng Cymraeg)	Anghenion ADY gyda Datganiad (% o'r sector cyfrwng Saesneg)
2021-22	1.75	1.96	1.15	2.20

Er bod y gymhariaeth yma'n newyddion da o ran cynrychiolaeth plant ag ADY mewn Cylchoedd Meithrin, gwyddom fod amrywiaeth mawr o ran lefel dwyster anghenion y plant o fewn y data a gasglwyd gan Gylchoedd Meithrin, lle bo'r data o'r ysgolion yn cofnodi os oes gan blentyn ddatganiad sy'n ffon fesur llawer mwy pendant.

Mae canlyniadau holiadur Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS) gan Arolygaeth Gofal Cymru<sup>4</sup> yn cynnwys ymatebion gan amrywiaeth o leoliadau gofal plant: gofal dydd, gofal sesiynol, (rhain yn debygol o fod dan 5 oed) gwarchodwyr plant a chlybiau (amrywiaeth o oedrannau). Mae Cylchoedd Meithrin ac aelodau Mudiad Meithrin yn debygol o fod wedi eu cyfrif dan gategori gofal dydd neu ofal sesiynol. Yn 2023, roedd llai o leoliadau wedi ymateb ond roedd nifer y plant ag ADY wedi cynyddu yn ôl yr ymatebion, er na wyddom sut roedd y lleoliad yn mesur hynny (e.e. a oedd y plentyn wedi ei adnabod ag ADY gan yr awdurdod lleol).

Blwyddyn	Cyfanswm yr ymatebion i SASS gan leoliadau unigol	Cyfanswm y plant (o bob oed) a gafodd eu hadnabod yn ffurfiol fel plentyn ag ADY neu anabledd
2020	3113	4062
2021	3010	3921
2023	2787	4312

Er bod angen mwy o wybodaeth i ddeall y data yma'n llawn (a'i dorri i lawr fesul awdurdod lleol), ymddengys ar yr wyneb bod cynnydd sylweddol yn y nifer o blant ag ADY mewn lleoliadau gofal plant pob oed, sy'n cyd-fynd â chanfyddiad ymarferwyr eu bod yn teimlo bod cynnydd yn y nifer o blant ag anghenion amrywiol sy'n mynychu cylchoedd. Mae'n aneglur a yw'r cynnydd sydyn hwn yn ganlyniad i gyflwyno'r Cod ADY newydd ym Medi 2021.

<sup>4</sup> [Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth \(SASS\) | Arolygiaeth Gofal Cymru](#)

Stori wahanol a geir yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), sef cwmp sydyn yn y nifer a'r ganran o blant sydd wedi eu hadnabod ag ADY mewn ysgolion (heb gynnwys oed meithrin a derbyn).

	Cymru	Cymru	Cymraeg	Cymraeg	Saesneg	Saesneg
Blwyddyn	Holl Ddisgyblion Anghenion ADY (nifer)	Holl Ddisgyblion Anghenion ADY (% o'r cyfan)	Holl Ddisgyblion Anghenion ADY (nifer)	Holl Ddisgyblion Anghenion ADY (% o'r cyfan)	Holl Ddisgyblion Anghenion ADY (nifer)	Holl Ddisgyblion Anghenion ADY (% o'r cyfan)
2021-22	69,100	14.86	15,670	14.33	53,430	15.02
2020-21	87,360	18.64	19,155	17.39	68,205	19.02
2019-20	92,305	19.92	19,935	18.35	72,370	20.40
2018-19	98,875	21.37	21,465	19.93	77,410	21.80

Noder fod y ganran o blant sydd â Datganiad ADY wedi aros yr un fath, er bod y niferoedd a'r ganran o blant a ystyrir fod ganddynt ADY wedi gostwng. Mae'n debygol fod y gostyngiad yn ymwneud â throsglwyddo i'r system ADY newydd a ddaeth i rym ym Medi 2021. Gan fod y ffigyrau wedi bod yn gyson dros y blynyddoedd er y nodir gostyngiad graddol, cwestiynir felly beth sydd i gyfrif am y gostyngiad sydyn. Nid yw'n ymddangos fod y swm gostyngiad yn ymddangos fel nifer sydd wedi derbyn Cynllun Datblygu Unigol dan y drefn newydd yn 2021-22 chwaith. Byddwn yn parhau i graffu ar y ffigyrau hyn ac unrhyw newidiadau arwyddocaol. Pwysleisiwn fod cofnodi plant sy'n cael eu monitro neu eu targedu, ac am beth, yn holl bwysig er mwyn gallu cynllunio gwasanaeth i'r dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir yn y blynyddoedd cynnar pan nifer o blant yn cael darpariaeth wedi ei dargedu ac efallai na fyddant yn derbyn CDU tan eu bod mewn lleoliad a gynhelir (neu bydd ymyrraeth gynnar mewn lleoliad nas cynhelir wedi cefnogi'r plentyn i ddatblygu a rhwystro unrhyw anghenion rhag gwaethygu). Heb y data yma, bydd gwybodaeth am batrymau a niferoedd o flwyddyn i flwyddyn ddim ar gael er mwyn cael gwell dealltwriaeth sut i gefnogi plant, eu teuluoedd a'r lleoliad maent yn ei fynychu. Mae angen gwell dealltwriaeth o'r data er mwyn i awdurdodau lleol a'r sector allu gwella eu cynllunio a'u cefnogaeth ar gyfer lleoliadau. Nid yw'r data hwn yn cyd-fynd a'r niferoedd sydd ar gynnydd yn nychweliad SASS yn 2023, sef yr unig set data Cymru gyfan sydd ar gael ar gyfer y sector gofal plant, chwarae a dysgu sylfaen, a byddai gwell gwybodaeth am y sefyllfa yn ystod 0-5 oed yn cyd-fynd â'r dyhead yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol i weld ymyrraeth buan yn cael ei normaleiddio.

Bydd gwell gwybodaeth yn helpu i fynd i'r afael â'r prif ffactorau sy'n effeithio gallu lleoliadau meithrin nas cynhelir i gynnig mynediad teg i ofal plant ac addysg i blant anabl a niwrowahanol – trafodir y prif ffactorau dan is-benawdau isod sy'n seiliedig ar ymatebion ymarferwyr Cylchoedd Meithrin a staff cefnogi Mudiad Meithrin i holiadur a anfonwyd atynt am eu barn.

## **Ateb anghenion y plentyn**

Noda Safon 4 o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir: 'Y cynllunnir ac y darperir ar gyfer anghenion unigol pob plentyn, gan gynnwys plant ag anabledau neu anghenion ychwanegol (gan gynnwys anghenion dysgu ychwanegol).'<sup>5</sup>

Un o'r pryderon mawr a gyfathrebwyd gan ymarferwyr a staff Mudiad Meithrin oedd nad oedd modd i'r lleoliad gyfarfod ag anghenion y plentyn anabl neu niwrowahanol yn eu gofal ym mhob achos. Deallant fod cyfrifoldeb arnynt i dderbyn plentyn a pheidio gwahaniaethu ar sail anabled neu anghenion eraill, ond o bryd i'w gilydd bydd cylchoedd yn teimlo na allant gyfarfod anghenion y plentyn am amryw o resymau. Er enghraifft, os oes materion ymddygiad gan blentyn bydd angen i un ymarferydd gadw llygad a diogelu'r plentyn ond effaith hyn yw bod ymyrraeth i gymarebau staff sydd i oruchwylio gweddill y plant yn y lleoliad. Nid yn unig mae hyn yn fater o ddiogelu i bob un yn y lleoliad, ond gall y lleoliad fod yn torri safonau gofynnol AGC ynghylch cymarebau gofal. Gall fod yn sefyllfa rwystredig iawn i ymarferwyr heb gefnogaeth ac arweiniad ynghyd â phryder ynghylch torri rheolau a pheryglu diogelwch plant eraill.

Wrth gwrs, mae pob plentyn yn wahanol a bydd ateb anghenion bob plentyn yn unigryw. Cytunwn fod angen edrych ar ba gefnogaeth sydd angen ar y lleoliad ac edrych ar weithredu cynhwysiant drwy gynnig cyllid Dwylo Ychwanegol yn hytrach na 1-1, yn enwedig pan mae mwy nag un plentyn yn cael cymorth mewn lleoliad; gall y strategaeth hon helpu i baratoi'r plentyn ar gyfer mynychu addysg heb ddwylo ychwanegol. Gall fod tuedd hanesyddol gan ymarferwyr i droi yn syth i ddweud bod angen cyllid Dwylo Ychwanegol cyn ystyried beth yw anghenion y plentyn a sut bydd modd ei gynnwys a'i gefnogi orau yn y lleoliad. Fodd bynnag, deallwn hefyd fod profiad o beidio â derbyn help neu arweiniad ynghylch sut i gefnogi plentyn anabl neu niwrowahanol, diffyg cyllid ar gael neu fethiant i recriwtio yn arwain at bryder ac ymateb sy'n ymddangos yn negyddol i rieni/gofalwyr.

Dywedodd un ymarferydd:

---

<sup>5</sup> [Y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir \(llyw.cymru\)](#)

'Mae angen cefnogaeth yn sydyn i plentyn sydd wedi ei dargedu (o fewn y ddarpariaeth gyffredinol) gan fod un aelod o staff yn colli rhan o'r cymarebau yn gorfod edrych ar ôl y plentyn.'

Mae gorfod aros am geisiadau am gyllid yn rhwystr i leoliadau meithrin i roi mynediad teg, ac yn un o'r ffactorau oedd yn rwystredig i'r rhieni hefyd wrth iddynt aros am le i'w plentyn.

## **Cyllid**

Adroddodd ymarferwyr a staff cefnogol nad oes cefnogaeth ariannol ar gael i blant anabl neu niwrowahanol o dan 2 oed sydd am fynychu gofal plant.

Mae cyllid ar gyfer dwylo ychwanegol yn fwy tebygol o fod ar gael ar gyfer plant sy'n gymwys dan y Cynnig Gofal Plant. Y broblem yma yw bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei gynnig ar sail cymhwysedd y rhieni/gofalwyr, nid y plentyn. Bydd hyn yn eithrio plant anabl a niwrowahanol rhag cael mynediad teg i ofal plant ac addysg, pan o bosib mai cyfleon chwarae a rhyngweithio â phobl a phlant yw un o'r ymyraethau fyddai'n gwahaniaeth go iawn i'r plentyn hwnnw.

Mae'r bwlch ariannu yn gwahaniaethu yn erbyn plant ag ADY ar hyn o bryd. Derbyniom dystiolaeth gan therapydd iaith a lleferydd yn ddiweddar a oedd yn ymweld â phlentyn a oedd ag oedi o ran datblygiad iaith. Yn ei barn hi, ni fyddai'n cael ei adnabod fel plentyn ag ADY gan yr awdurdod lleol, ond credai ei fod angen ymyrraeth gynnar i gefnogi ei ddatblygiad ieithyddol. Nid oedd y plentyn yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg, ac nid oedd ei deulu mewn sefyllfa i dalu am le mewn lleoliad gofal plant na'r drafnidiaeth i gyrraedd y Cylch Meithrin agosaf. Ym marn broffesiynol y therapydd, byddai help ariannol i'r plentyn allu mynychu Cylch Meithrin neu feithrinfa (dan oed cymwys i'r Cynnig Gofal Plant) yn ymyrraeth effeithiol er mwyn ei annog i ddefnyddio iaith a datblygu ei sgiliau cyfathrebu wrth chwarae. Mae hyn yn enghraifft o'r angen i ailystyried cymhwysedd ar sail angen y plentyn, yn hytrach na chymhwysedd y rhieni i dderbyn y Cynnig Gofal Plant, ac eto'n tanlinellu mor allweddol yw ymyrraeth gynnar a'r rôl greiddiol mae lleoliadau gofal plant ac addysg yn ei wneud i atal anawsterau i waethygu neu ddatblygu'n anabledd. Credwn fod gwaith i'w wneud i hyrwyddo a rhoi statws i'r gwaith mae ymarferwyr gofal plant ac addysg yn ei wneud i hwyluso ymyraethau i gefnogi plant yn gynnar.

Disgrifiodd un ymarferydd y tensiwn o eisiau derbyn plentyn anabl neu niwrowahanol, ond nad oedd y gefnogaeth ar gael i'r lleoliad oherwydd nad oedd y plentyn yn gymwys i dderbyn y Cynllun Gofal Plant:



'Os oes plentyn ddim yn derbyn y cynnig gofal plant yn anffodus does dim cymorth i'r plant yma. Dwi'n deall efallai nad oes rhaid i nhw fynychu ond os ydi gwasanaethau cymdeithasol yn cysylltu a gofyn i ni gymryd y plant yma, neu os ydi rhieni yn gofyn i ni gymryd nhw er mwyn i nhw gael ychydig bach o seibiant mae o'n gyfrifoldeb arna ni i sicrhau bod pob plentyn yn cael ei drin yn gynhwysol'.

Ychwanegodd yr Arweinydd Cylch yma ei bod wedi talu am staff ychwanegol o goffrau'r cylch pan wrthodwyd eu cais am gyllid, a bod y Cylch Meithrin wedi prynu adnoddau arbennig i ateb anghenion y plentyn.

Fe wnaeth sawl ymarferydd ddweud bod gallu'r lleoliad i gefnogi plentyn unigol yn dibynnu'n rhy aml ar sefyllfa ariannol y feithrinfa neu'r cylch:

'In our case we do have money but if some nurseries dont then some children with ALN could be excluded due to lack of funding and not being a part of the 20 hours free childcare'.

Nododd rhai nad oes help cyllidol ar gael er mwyn galluogi plentyn anabl neu niwrowahanol sydd angen cefnogaeth i fynychu darpariaeth cofleidiol.

Roedd recriwtio staff yn fater a adnabuwyd gan bron bob un o staff cefnogi Mudiad Meithrin fel ffactor oedd yn rhwystro lleoliadau rhag cynnig mynediad teg i blant anabl a niwrowahanol. Bu'n gyfnod heriol o ran recriwtio staff i weithio mewn lleoliadau gofal plant ac addysg, mae hynny'n hyd yn oed yn fwy o her os yw'r unig gyllid ar gael dim ond ar gyfer dwylo ychwanegol am ychydig oriau'r dydd:

'We struggled to fulfill 1;1 position as it was only 2 hours per day.'

Hyd yn oed os llwyddir i recriwtio, roedd teimlad ymhlith yr ymatebwyr fod prinder staff addas ag arbenigedd:

'Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ofalu fod pob plentyn yn cael yr un gofal, weithiau byddwn yn gweld hyn yn heriol am fod cael cymorth un i un i blentyn ag anghenion yn gallu bod yn anodd, dim arbenigedd gan staff llanw a hefyd adnoddau yn brin'.

Cynigiodd un ymarferydd ddatrysiad er mwyn ymateb i'r diffyg arbenigedd a'r her recriwtio yn lleol:

'Efallai byddai banc o staff a chymhwyster a phrofiad i gynnig y gofal gorau i blant ADY yn fuddiol, dim pawb sydd a'r sgiliau i ymdopi gyda'r heriau.'

Er y dylid cydnabod mai'r rheswm pam fod cyflenwad staff banc yn aml yn broblemus yw oherwydd fod yr union staff yn cael cynnig swyddi sydd i bob pwrpas yn barhaol (cymaint yw'r galw).

## Cyngor Proffesiynol

Dywed ymarferwyr nad oes digon o gyngor arbenigol ar gael er mwyn eu harfogi i wybod sut orau i gefnogi plentyn anabl neu niwrowahanol. Dywedant fod angen arbenigwyr i ymweld â'r lleoliadau a rhoi cyngor, arweiniad, a syniadau am weithgareddau ac adnoddau addas.

Adroddodd un Cylch Meithrin bod plentyn â diffyg datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu wedi ei adnabod fel plentyn ag ADY gan yr Awdurdod Lleol. Er bod ganddo CDU sy'n rhestru'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, roedd arweinydd y Cylch Meithrin yn dweud nad oedd neb wedi ymweld â'r Cylch i gynnig arweiniad ac awgrymiadau ynghylch ymyraethau i'w treialu yn y cylch. Mae'r ymarferwyr wedi dod i adnabod y plentyn a magu perthynas ag ef, ond teimlant nad ydynt wedi cael arweiniad mwy arbenigol i allu ei gefnogi yn y ffordd fwyaf addas.

Nid oes disgwyl bod yr arbenigedd hwn yn y Cylch, ac mae'r ymarferwyr yn ymwybodol iawn bod unigolion proffesiynol, fel therapyddion lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn brysur ac yn ei chael hi'n anodd i weld pob plentyn. O ystyried bod ymyrraeth gynnar yn cael ei bwysleisio fel strategaeth bwysig i rwystro unrhyw anghenion neu anawsterau rhag datblygu, rhaid felly sicrhau fod y cyngor a'r arweiniad cywir yn cael ei roi i'r ymarferwyr sy'n ymdrin â'r plentyn o ddydd i ddydd.

Rydym yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i roi pwyslais traws bolisiol ar leferydd, iaith a chyfathrebu a'r bwriad i uwchsgilio'r gweithlu drwy'r *Llwybr hyfforddi ymarferwyr Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan 0 i 4 blwydd 11 mis*<sup>6</sup>; fe wnaeth Mudiad Meithrin gynnal cwrs sy'n cyfateb i lefel craidd o sgiliau a ddisgwylir i bob ymarferydd blynyddoedd cynnar ei gael. O'r ymatebion a gasglwyd gan ymarferwyr, a'r pwyslais penodol ar arweiniad am faterion yn ymwneud â'r maes hwn, nid yw'n eglur a yw'r hyfforddiant ar gael i ymarferwyr yn lleol ac os yw ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n hanfodol ar gyfer gweithlu Cylchoedd Meithrin a meithrinfeydd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

## Hyfforddiant ac Adnoddau

Roedd cytundeb ymysg ymatebion bod angen amrywiaeth o hyfforddiant ar wahanol agweddau a lefelau o anghenion dysgu ychwanegol. O'r ymatebion, mae'n amlwg fod cylchoedd yn addasu'r ddarpariaeth gyffredinol er mwyn ymateb i anghenion plant unigol; e.e. roedd llawer o sôn am greu ardaloedd

---

<sup>6</sup> [Siarad gyda fi: adnodd llwybr hyfforddiant Lleferydd, iaith a Chyfathrebu Cymru Gyfan | LLYW.CYMRU](#)

ymdawelu/synhwyraidd, addasu amseroedd fel bod i greu amseroedd tawelach yn y lleoliad. Roedd parodrwydd i fuddsoddi mewn adnoddau a threialu adnoddau newydd:

'Last year I had four children with IDPs but I had to buy new resources like a sensory tent, etc., so I think it would be useful for some funding towards resources. Also staff training - we have all been on a Makaton course...I think courses on behaviour, autism and ADHD would be useful as well.'

Er bod parodrwydd i wneud addasiadau gofynnol i ateb anghenion pob plentyn unigol, gall costau sydd ynghlwm â hyn fod yn anodd i gylchoedd sydd dan bwysau ariannol yn barod:

'We had to replace everything that had magnets in it, which is hard in our setting without much funds'.

Nododd rhai ymarferwyr fod angen mwy o ganllawiau ynghylch darparu ar gyfer plant ag ADY yng nghyd-destun disgwyliadau 'Trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir'. Adroddodd un ymarferydd nad oedd modd gosod yr adnoddau i gyd i fod ar gael i blant a chymell chwarae rhydd a chwarae wedi ei arwain gan y plentyn, gan fod risg uchel i rai plant ag anghenion penodol os ydynt yn gafael mewn siswrn neu fwyta clai neu baent.

Dylid cynnig canllawiau i ymarferwyr ynghylch trefniadau asesu ar gyfer plentyn ag anghenion neu anawsterau, er mwyn eu sicrhau eu bod yn asesu mewn ffordd sy'n addas i'r plentyn.

### **Lleoliadau na chânt eu hariannu i ddarparu addysg**

Dywedodd rhai lleoliadau meithrin nas ariennir nas cynhelir eu bod yn teimlo nad yw'r un cyfle iddyn nhw dderbyn hyfforddiant gan yr awdurdod lleol gan bod y cynnig yn agored ar gyfer lleoliadau sy'n cael eu hariannu i ddarparu addysg yn unig:

'Er ein bod ni yn cynnig gofal cofleidiol, nid ydym yn cael cynnig mynd ar gyrsiau ADY gan yr awdurdod lleol gan nad ydym yn darparu Dechrau'n Deg nac addysg. Dylai bod cefnogaeth ar gyfer PAWB sydd yn gweithio a gwyllo ar ôl plant ac hefyd bod ein clwb ni yn cael gwytodaeth os gan blentyn ADY neu CDU / proffiliau un dudalen ac ati.'

Adrodd yr un ymarferydd bod diffyg rhannu gwytodaeth am blentyn unigol wedi arwain at ddryswch ac anghysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer y plentyn hwnnw, gan ei fod yn mynychu ysgol yn ogystal; er bod y plentyn yn derbyn cefnogaeth gwasanaethau cymdeithasol oherwydd ei anghenion dwys ac yn

mynychu lleoliad meithrin arall yn ogystal, teimlai'r ymarferydd nad oedd cydweithio digonol rhwng pawb er lles y plentyn.

Mae'r adran hon wedi craffu ar y prif faterion sy'n achosi pryder i leoliadau wrth geisio cynnig mynediad teg i blant anabl a niwrowahanol. Bydd y prif alwadau o'r adran hon yn cael eu rhestru yn Adran 5.

### **Adran 3: Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**

'Mae rôl gan ddarparwr addysg feithrin nas cynhelir a gyllidir gan awdurdodau lleol, o ran cefnogi awdurdodau lleol i adnabod ADY ac o ran helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol. (1.85 Cod ADY 2021).'<sup>7</sup>

Dyma'r ddyletswydd sydd wedi ei roi i ddarparwyr lleoliadau meithrin dan yn Cod ADY cyfredol. O'r ymatebion a ddaeth i law drwy'r holiadur, gellir casglu bod lefel dealltwriaeth ymarferwyr yn anghyson ar draws Cymru. Pan gyhoeddwyd y Cod, gofynnodd Cwllwm i Lywodraeth Cymru am ganllawiau neu negeseuon cliriach ynghylch sut disgwylir i ddarparwyr gefnogi'r awdurdodau lleol – sut fyddai hynny'n edrych? Y pryder oedd y byddai pob awdurdod lleol yn cynnig ffyrdd gwahanol, yn hytrach na bod na gysondeb ar draws Cymru. Clywyd am nifer o awdurdodau lleol yn camarwain lleoliadau meithrin gyda negeseuon sy'n groes i'r Cod; e.e. bod disgwyl i ymarferwyr greu Cynllun Datblygu Unigol, i drefnu cyfarfodydd aml-asantiaeth, neu fynychu cyrsiau manwl sydd tu hwnt i'r dyletswydd a osodir arnynt yn y Cod.

Bu ymgais i fynd i'r afael â'r negeseuon cymysg drwy lunio blog ar wefan Cwllwm<sup>8</sup> - testun a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Nid ydym yn credu fod hyn yn ddigonol bellach, ac felly dylai'r Llywodraeth rhoi enghreifftiau pendant o'r hyn a ddisgwylir i ddarparwyr ei wneud o dan y ddyletswydd a osodir yn y Cod ADY. Byddai canllawiau mwy pendant yn gymorth i ddarparwyr ddeall beth a ddisgwylir ganddynt, ynghyd â chysondeb ar draws Cymru, ac yn gymorth i ddeall beth a ystyrir yn arfer dda i ddarparwyr.

Un o brif amcanion y Cod ADY presennol yw hwyluso ymyrraeth gynnar, ond er mwyn gwneud hynny'n llwyddiannus mae angen gwneud yn sicr bod y gefnogaeth gywir ar gael i'r plentyn yn y lleoliad meithrin. Mae'n glir o'r ymatebion a gawsom wrth ymarferwyr nad ydynt yn credu fod ganddynt yr arfau priodol i ateb anghenion y plentyn, boed hynny'n gyllid er mwyn cynnig

---

<sup>7</sup> [Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | LLYW.CYMRU](#)

<sup>8</sup> [Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol \(ADY\) a'r Cod ADY | Cwllwm](#)

mwy o gefnogaeth yn y ddarpariaeth a sicrhau fod y cymarebau'n gywir neu'n gyngor arbenigol ac hyfforddiant er mwyn deall sut i gefnogi'r plentyn unigol. Digwydd hyn mewn cyd-destun o bwysau ariannol mawr ar leoliadau meithrin ac argyfwng o ran recriwtio staff – yn enwedig staff â phrofiad o gefnogi plant ag ADY – ac felly gellir deall y pwysau sydd ar ymarferwyr i geisio ateb anghenion plentyn dan amodau heriol iawn.

#### **Adran 4: Cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg**

Mae data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn rhoi darlun o'r niferoedd o ddisgyblion ysgol sydd ag ADY.<sup>9</sup>

Fe ddefnyddiom ddata am y niferoedd o ddisgyblion mewn categorïau iaith ysgolion (gan rannu'r niferoedd o ddisgyblion mewn ysgolion dwyieithog neu dwy ffrwd yn ddwy) er mwyn cael amcangyfrif o nifer y disgyblion yn sector Gymraeg a nifer y disgyblion yn y sector Saesneg. Drwy wneud hyn, roedd modd cyfrifo'r canran o blant yn y sector Gymraeg a Saesneg a'r holl ddisgyblion sydd ag ADY yn 2021-22:

Holl ddisgyblion ADY % o'r holl ddisgyblion	Holl ddisgyblion ADY % o'r sector cyfrwng Cymraeg	Holl ddisgyblion ADY % o'r sector cyfrwng Saesneg
14.85	15.90	14.59

Er mai amcangyfrif yw'r rhif hwn, mae dda gweld bod y ganran o blant ag ADY mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn derbyn mwyafrif eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn agos i'r ganran o ddisgyblion ADY sy'n derbyn addysg cyfrwng Saesneg, a'r ganran o holl disgyblion Cymru sydd ag ADY. Felly yn ôl yr amcangyfrif hwn, fe ymddengys bod mynediad teg i blant ag ADY mewn addysg Gymraeg.

Wrth graffu ar y canrannau ar gyfer rhai awdurdodau lleol, sylwir ar mwy o fwch rhwng y ganran o ddisgyblion ag ADY mewn addysg cyfrwng Cymraeg a'r rheini sydd mewn addysg cyfrwng Saesneg:

<sup>9</sup> [Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion \(CYBLD\) \(llyw.cymru\)](#)

	Holl ddisgyblion ADY % o'r holl ddisgyblion	Holl ddisgyblion ADY % o'r sector cyfrwng Cymraeg	Holl ddisgyblion ADY % o'r sector cyfrwng Saesneg
Castell Nedd Port Talbot	19.19	11.86	20.66
Penybont ar Ogwr	8.25	3.46	8.65
Bro Morgannwg	10.44	5.66	11.19

O'r hyn y gallwn ei weld o'r data cyhoeddus, mae'n edrych fel pe bai bwlch yn y siroedd hyn ac o bosib bod angen ymchwil pellach i weld a yw'r bwlch yn bodoli a pam.

Mae Mudiad Meithrin yn croesawu papur diweddar Comisiynydd y Gymraeg a Chomisiynydd Plant Cymru sy'n pwysleisio'r angen i adolygu a mynd i'r afael a'r diffyg darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg.<sup>10</sup> Cytunwn fod angen adolygiad llawn o'r ddarpariaeth ADY bresennol a bod y wybodaeth hynny yn cael ei ddefnyddio i ddiweddarau cynlluniau strategol y Gymraeg yr awdurdodau lleol. Croesawn y Gweithgor newydd a fydd yn craffu ar y sefyllfa bresennol ac yn blaenoriaethu gwaith sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau tegwch i blant sydd angen y ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cefnogwn hefyd yr alwad am ddatblygu cynigion ar drefniadau cydweithio rhwng awdurdodau lleol. Un o'r heriau o ran darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar yw nad oes digon o arbenigwyr iechyd sy'n siarad Cymraeg, sef un o wendidau darpariaeth Gymraeg ym maes anabledau a niwrowahaniaeth yn gyffredinol. Caiff hyn effaith uniongyrchol ar ddewisiadau rhieni a gofalwyr:

'Maen nhw'n cael ei denu i ofal plant Saesneg gan fod mwy o arbenigaeth ar gael (gan fod mwy o ddarparwyr). Dydy llefydd sydd yn arbenigo ddim fel arfer ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg.'

Enwyd therapyddion lleferydd, iaith a chyfathrebu fel enghraifft benodol o grŵp proffesiynol lle mae prinder defnyddwyr y Gymraeg:

'Mae llawer dal yn cael y cyngor na all plentyn a anghenion ymdopi hefo dwy iaith! prinder gweithwyr proffesiynol ee iaith a lleferydd sydd yn gallu gweithio drwy'r Gymraeg.'

<sup>10</sup> [Comisiynwyr yn uno i alw am well darpariaeth anghenion dysgu drwy'r Gymraeg \(comisiynyddygyymraeg.cymru\)](http://comisiynwyr.uno.i.alw.am.well.darpariaeth.anghenion.dysgu.drwy.r.Gymraeg.comisiynyddygyymraeg.cymru)

Credwn fod gwaith i'w wneud o hyd i ddangos i rhieni a gofalwyr ynghyd a'r sector iechyd fod plant ag ADY yn gallu fynnu mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

## **Adran 5: Prif alwadau i sicrhau mynediad teg i ofal plant ac addysg**

### **Galwn ar Lywodraeth Cymru i:**

- Sicrhau cymorth cyllidol ar gael i ddarparwyr gofal plant ac addysg yn seiliedig ar angen y plentyn a gallu'r lleoliad i ateb yr angen hwnnw.
- Sicrhau fod awdurdodau lleol yn corlannu arian i gefnogi plant anabl a niwrowahanol i gael mynediad teg i ofal plant ac addysg yn ystod gwyliau ysgol a gofal cofleidiol.
- Canllawiau clir o'r disgwyliadau sydd ar ddarparwyr gofal plant a gyllidir o dan Cod ADY presennol.
- Bod y Swyddogion Arweiniol ADY Blynnyddoedd Cynnar yn sicrhau fod arbenigwyr yn darparu cyngor ac arweiniad i leoliadau meithrin er mwyn gwella eu dealltwriaeth ynghylch sut i gefnogi plentyn.
- Buddsoddi mewn uwchsgilio cyfran o'r gweithlu gofal plant i allu cefnogi plant anabl a niwrowahanol a chodi statws y rôl gall ymarferwyr gofal plant ei wneud i helpu ymyrraeth gynnar yn unol â'r Cod ADY.
- Hyrwyddo manteision addysg Gymraeg i deuluoedd plant anabl a niwrowahanol yn ogystal â'r sector iechyd.
- Adolygu'r ddarpariaeth o feithrinfeydd cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ag Awtistiaeth.

Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg](#) ar gyfer yr ymchwiliad: [A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?](#)

This response was submitted to the [Children, Young People and Education Committee](#) for the inquiry: [Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?](#)

AEC 54

Ymateb gan: Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd  
Response from: National Day Nurseries Association (NDNA)

---



NDNA are a charity and membership association supporting nurseries, early years settings and their workforce to deliver the best possible early education and care to our youngest children.

We are the national charity representing private, voluntary and independent (PVI) children's nurseries across the UK. We are the voice of the 24,000-strong nursery sector, an integral part of the lives of more than a million young children and their families.

We represent a network of over 20,000 members including PVI run nurseries and their practitioners in England, Scotland and Wales. NDNA Cymru is the office for Wales.

NDNA Cymru called for members in Wales to provide information to support NDNA to respond to the call for evidence.

We received responses from 22 members across Wales. The responses noted that understanding of the term neurodivergent varies greatly across settings. Over 80% of respondents noted that they had previously or are currently supporting children with neurodivergent, physical, sensory or learning disabilities, however less than 20% of these feel that their setting is currently fully suitable and that they are confident and prepared to welcome a child that is neurodivergent, has physical, sensory or learning disabilities into their setting in a way that will fully meet all their individual needs.

When asked what would help settings to feel more confident and prepared, nearly all settings noted that they would benefit from additional support from their local authority / multi agency teams and that they required further training. It was recognised that some generic training is available, but that it would be beneficial to have more specific training and that bitesize training sessions on strategies to support children would be beneficial, to aid settings to cater to children's individual needs.

One of the main overriding issues raised by respondents was that of funding to support settings to provide the required level of care for children with Additional Learning Needs (ALN), it was apparent from responses that this varies across local authority areas. Where funding is provided to pay for additional staff support for a child, the rate that is paid does not cover the additional costs incurred by the provider such as holiday pay, NI and pension contributions. This results in the childcare provider being required to cover these additional costs.

In local authority areas where there is no additional funding to provide support, it was noted that there is an expectation for childcare providers to be able to use existing staff which are counted in ratio's as 1-1 support. Whilst settings want to be able to provide support to all children, this is not always possible and the expectation placed on them to be able to continue to provide quality experiences to all children within the setting when using a staff member that should be working on a 1:8 ratio to carry out a 1:1 role is unsustainable.

A number of settings raised concerns that this expectation impacts upon both the care and learning experiences that they can provide for the child with ALN and the care and learning experiences that they are able to provide for other children within the setting.

Settings also raised concern with the lack of equity in terms of funding and support for children outside of funded places and also between those which are funded under Flying Start and Childcare Offer.

One childcare provider noted that whilst within their local authority the new ALN system has had some benefits such as a clear referral pathway, providing additional support from the local authority team the funding available to provide adequate support remains a great concern. This was evidenced

by the local authority informing providers that they had run out of money and would not be able to continue to provide 1-1 support, they then later informed settings they would continue to provide support to existing children receiving it but that no more funding would be available from spring 2024.

This has caused concern as currently the setting is able to confidently support children with ALN (at some cost to themselves), however will be unable to continue to provide the same level of support to children with ALN in the future. When asked what support this setting would require it was noted that a case by case look at individual children is needed to ascertain if additional financial support would be required to enable the setting to provide the required care and learning. Settings need clarity to be able to plan for the children they currently have attending their setting and to make decisions about children who would like to attend. Currently in some local authority areas there is a no funding blanket approach on the horizon.

Some childcare providers have raised concerns that they are going to be unable to provide support to children with neurodivergent, physical, sensory or learning disabilities and are concerned that this will be seen as settings not being inclusive. Providers want to be inclusive but also want to be sure they can meet the needs of children in their settings.

NDNA Cymru would like further clarity from the Welsh Government on the requirements, expectations and role of the non-maintained providers in supporting local authorities to fulfil their statutory obligations. Without the required support, settings which do open their services to children which need additional support without the resources to provide it, may not be meeting children's individual needs. This could be detrimental to the children with neurodivergent, physical, sensory or learning disabilities.

NDNA Cymru would welcome the opportunity to provide further information to the Children, Young People and Education Committee and would be happy to work with individual providers to develop case studies as further evidence.

# Nodyn o ymweliad ysgol

29 Mehefin 2023

## Yn bresennol:

- James Evans AS
- Sarah Bartlett, Dirprwy Glerc.

Mae Ysgol [REDACTED] yn ysgol dydd arbennig sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 19 oed.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn [REDACTED] ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol [REDACTED]. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag ystod eang o anawsterau dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys Anawsterau Dysgu Difrifol, Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig ac Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog.

Dangosodd Cyfrifiad Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2022 fod gan yr ysgol 104 o ddisgyblion, 63 o fechgyn a 41 o ferched, rhwng 3-19 oed. Mae 15 o athrawon cyfwerth ag amser llawn.

## 1. Trafodaethau gyda Chyngor yr Ysgol

- Cyflwynodd Cyngor yr Ysgol gyflwyniad PowerPoint. Fe wnaethon nhw dynnu sylw at rai meysydd lle yr hoffent weld rhai newidiadau:
  - Roedden nhw'n teimlo bod diffyg adnoddau a gofod o'i gymharu ag ysgolion prif ffrwd. Hoffent ddefnyddio mwy o offer mewn gwersi e.e. offer pŵer a llosgwyr bunsen, a theimlir y dylai'r rhai sy'n gallu gael mwy o gyfleoedd i gael mynediad at y mathau hyn o adnoddau. Roeddent hefyd yn teimlo y gellid gwella'r man awyr agored ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac mae'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i wella'r ardal.



- Mae'r ysgol yn annog cymryd rhan mewn chwaraeon ond roedd y disgyblion yn teimlo bod rhai o'r cyfleusterau'n gyfyngedig. Byddai'r disgyblion yn croesawu'r cyfle i gael mwy o elfennau o'r cwricwlwm gan gynnwys Addysg Gorfforol bob wythnos a'r cyfle i gael ystod ehangach o chwaraeon gan gynnwys cysylltiadau â chlybiau allanol.
- Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol un disgybl sy'n sefyll cwpl o arholiadau TGAU, roedd disgyblion yn croesawu'r cyfle hwn ac yn meddwl os ydynt yn gallu y dylid eu hannog i sefyll yr arholiadau oherwydd byddai hyn yn arwain at fwy o gyrsiau'n cael eu hagor yn y coleg. Mae arweinwyr yr ysgol yn creu cysylltiadau â cholegau a fydd yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion.
- Mae rhai o'r disgyblion wedi cael profiad o ysgol brif ffrwd ond mae'n well ganddynt Ysgol Penmaes ac roeddent yn gresynu nad oeddent wedi mynd yno'n gynt. Maent yn hoffi bod gyda'u ffrindiau ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u deall ac yn cael y cymorth a'r help ychwanegol sydd eu hangen. Hefyd, mae gan yr ysgol hyblygrwydd a dealltwriaeth e.e. ar gyfer apwyntiadau meddygol.
- Mae cryn dipyn o'r disgyblion yn teithio cryn bellter i'r ysgol, ac mae rhai yn ystyried y gall hyn fod yn eithaf aflonyddgar.

## 2. Yr Ysgol a thrafodaethau gyda staff, rhieni a llywodraethwyr

### Addysg gynhwysol

---

2. Teimlir nad yw anghenion plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu sy'n mynychu ysgolion prif ffrwd yn cael eu diwallu bob amser ac nad ydynt yn cael y cymorth angenrheidiol - mae fel eu bod yn cwmpo rhwng y bylchau. Mewn rhai achosion nid yw'r plant a'r bobl ifanc o reidrwydd angen mynychu ysgol arbennig ond nid yw bod mewn addysg gynhwysol yn iawn ychwaith gan nad yw'r cymorth ar gael. Mae angen newid y seicoleg o ran ysgolion prif ffrwd, teimlir eu bod yn ceisio ffitio pob plentyn mewn un blwch.
3. Mae mwy o blant yn mynychu ysgolion arbennig ar ôl gadael yr ysgol gynradd i gael y cymorth sydd ei angen. Fodd bynnag, mae rhieni'n poeni na fyddant yn bodloni'r meini prawf mynediad i gael mynediad i'r ysgolion arbennig ac felly maent yn ofni na fydd ganddynt unman i fynd.

- 
4. Er mwyn i fwy o blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu fod yn rhan o addysg gynhwysol, mae angen uwchsgilio yn y gweithlu addysgu. Dylai fod llwybr ADY mewn Addysg Gychwynnol Athrawon, roeddech chi'n arfer gallu gwneud TAR mewn addysg arbennig.
  5. Cafodd COVID-19 effaith aruthrol ar ddatblygiad lleferydd ac iaith, sgiliau cymdeithasol, a phlant nad oeddent yn cael eu dysgu sut i ddefnyddio'r toiled. O ran ADY, teimlwyd bod y label yn helpu ond bod hyn yn cymryd amser a bod angen iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Weithiau mae gan rai rhieni eu hanableddau dysgu eu hunain ac maent yn cael trafferth dangos dystiolaeth o hyn a'i gyfathrebu. Yr hyn sydd ei angen yw dull amlasiantaethol, mae angen mwy na dim ond yr ysgol a'r rhiant. Mae angen swyddog cyswllt teulu arnoch i helpu i ymyrryd a chael y sgysiau anodd, gallant gynghori ysgolion prif ffrwd ynghylch pa gymorth sydd ei angen i helpu'r teulu. Cyfuniad o system gynhwysiant newydd lle mae'r holl wybodaeth mewn un lle.

*Beth allai helpu:* Hyfforddiant – gwneud yn siŵr ein bod ni'n cael pethau'n iawn o'r cychwyn cyntaf i athrawon, mae'n bwysig deall bod pob plentyn yn wahanol.

## **Capasiti'r ysgol**

---

6. Mae mwy o blant sydd ag anableddau dysgu ac mae cryn dipyn o'u hanghenion yn gymhleth. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 104 o ddisgyblion ac mae'n bwriadu cynyddu hyn i 110 ym mis Medi 2023. Mae'r Awdurdod Lleol yn rhoi cyllid ychwanegol lle y ceir dystiolaeth ac mae system ariannu a meini prawf newydd wedi cael eu rhoi ar waith ond mae angen mwy o arian ar yr ysgolion o hyd. Mae'r uwch dîm arwain bob amser yn dod o hyd i atebion sy'n effeithiol o ran cost a dim ond yn gofyn am gymorth os oes angen gwirioneddol amdano.
7. Mae'n bwysig cael cydbwysedd o ran derbyn mwy o ddisgyblion ond nid ar draul disgyblion presennol. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn llawn i'w capasiti o ran y staff sydd ar gael, a phe bai'n derbyn mwy o ddisgyblion ar hyn o bryd byddai hynny'n achosi problemau â'r disgyblion presennol. Mae'n ymwneud â gofalu am anghenion y disgyblion e.e. gallai fod wyth mewn un dosbarth ond dau mewn dosbarth arall, ni all pob dosbarth gynyddu ei gapasiti gan ei fod yn dibynnu ar anghenion y disgyblion yn y dosbarth hwnnw a gallai newidiadau o ran niferoedd achosi pryder i blant o ran ymdopi â'r newid hwnnw.
8. Mae'r system ADY yn rhy fiwrocraidd er mwyn cael y cymorth sydd ei angen arnoch i gael sylfaen dystiolaeth ac asesiadau a all fod yn anodd i rieni a staff addysgu eu

defnyddio. Nid yw rhai ysgolion prif ffrwd yn cael eu haddysgu mewn ADY, dyna pam ei bod mor bwysig i athrawon gael hyfforddiant ar hyn. Os nad yw ysgolion yn deall ADY, sut y gallant helpu'r disgyblion?

9. Roedd carfan o fyfyrwyr yn gwneud Addysg Gychwynnol Athrawon a oedd am arbenigo mewn addysgu mewn ysgolion arbennig ond nid yw hyn yn cael ei gydnabod gan Gyngor y Gweithlu Addysg.
10. Mae'r cymorth yn amrywio rhwng awdurdodau lleol, dylai fod mwy o weithio cydgysylltiedig: allgymorth mewn ysgolion gan gynnwys allgymorth rhwng cyfoedion, personél o ysgolion arbennig yn mynd allan i'r gymuned ac ysgolion prif ffrwd i egluro beth maent yn ei wneud, cynorthwywyr addysgu o glystyrau yn dod at ei gilydd i ddod o hyd i atebion ac uwchsgilio staff.
11. Nid yw'n ymwneud ag arian bob amser, mae'n ymwneud â'r ffordd y mae pob ysgol yn rheoli unigolion, daw'r ethos o'r brig ac os cyflwynir ethos cynhwysol yna bydd disgyblion yn ffynnu.

*Beth allai helpu:* cydnabyddiaeth o'r hyn a ddisgwylir gan staff, yn enwedig cynorthwywyr addysgu. Mae dull haenog ar gyfer cynorthwywyr addysgu, fodd bynnag, yn yr ysgol mae lefel 1 a lefel 3 yn gwneud yr un swydd. Mae'n fwy nag addysgu yn unig, mae gofynion meddygol y mae'n rhaid i'r staff ymdrin â nhw, mae'n ymwneud â chael cydbwysedd o wasanaethau.

## **Cymorth i ddysgwyr**

12. Mae'r ysgol yn darparu dull cyfannol o ddysgu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae dull cymunedol yn yr ysgol i roi'r sgiliau i unigolion weithredu yn y gymuned.
13. Mae'r ysgol yn edrych ar y plentyn unigol a'r hyn sydd orau i'w anghenion dysgu ac mae'n cynnig dysgu hyblyg e.e. ystyried pa adeg o'r dydd y maent yn dysgu orau, anghenion iechyd.
14. Mae'r cwricwlwm newydd yn sail ar gyfer cyflwyno addysgu cyfannol ym mhob ysgol. Nid yw'r cwricwlwm newydd yn newydd i Ysgol Penmaes; mae bob amser wedi bod yn rhan o'i chynnwys addysgu. Yn ystod cyfnodau pontio mae'r ysgol yn addysgu plant am hawliau'r plentyn. Mae llais y disgybl yn bwysig iawn, maent bob amser yn cael eu cynnwys mewn sgrysiâu ac mae'r cyngor ysgol yn gryfder.
15. Mae'r dysgu ar wahanol lefelau yn ôl oedran penodol. Mae 14-19 - llwybrau CBAC ar lefel cyn mynediad, lefel mynediad 1, 2, 3 a rhai o lefel 1 - yn cynnig cymwysterau. Cynigir

---

TGAU i bobl ifanc os oes ganddynt y gallu, fodd bynnag, mae hyn mewn partneriaeth â lleoliadau addysg eraill e.e. yr Uned Cyfeirio Disgyblion. Weithiau mae rhieni wedi'u drysu ychydig ynglŷn â'r cymwysterau a'r llwybrau gyrfa gwahanol.

16. O fewn yr ysgol mae sgiliau'n cael eu haddysgu'n eang. Mae'r coleg lleol hefyd yn gweithio gyda'r ysgol; mae'n fath o ddull o fentora. Mae'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r Uned Cyfeirio Disgyblion i sefydlu gweithgareddau allgyrsiol e.e. clwb gwyddoniaeth.
17. Mae symud i'r brifysgol ar ôl 19 oed yn broblem. Mae pobl ifanc yn symud o ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yna'n mynd i fyd oedolion. Gall hyn fod yn heriol yn emosiynol ac yn anodd iawn, mae angen gwneud gwaith o ran pontio a'r cymorth allanol sydd ar gael. Mae cludiant i'r coleg yn broblem sylweddol i lawer o ddisgyblion sy'n mynd y tu hwnt i Ysgol Penmaes.

*Beth allai helpu:* Mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc y tu allan i'r ysgol e.e. ysgol, clybiau gwyliau a chyfleoedd lleol i wneud sgiliau bywyd preswyl. Ynghyd â hyn mae gofal seibiant gyda chymorth gofal ychwanegol o ansawdd da i deuluoedd, yn enwedig rhieni sengl.

## **Cludiant**

---

18. Nid yw'n rhwystr ond mae rhai materion yn ymwneud yn arbennig â chludiant i'r coleg. Yn aml mae'n anodd cael cyllid ar gyfer cludiant. Mae rhai cwmnïau bysiau hefyd yn canfod ei fod yn gyfrifoldeb enfawr i dderbyn plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheini ag anghenion meddygol ac ymddygiadol cymhleth.
19. Mae llawer o ddisgyblion yn teithio hyd at awr i gyrraedd yr ysgol - yn gyffredinol maen nhw'n mwynhau teithio ar fws gan ei fod yn rhan o'u trefn ddyddiol arferol ac maen nhw'n hoffi bod gyda'u ffrindiau.
20. Fel ysgol, roeddent yn canfod ar ôl teithio i'r ysgol nad yw plant bob amser yn barod i ddysgu, felly ym mis Medi 2023 bydd yr ysgol yn treialu system newydd lle bydd y plant rhwng 09.00 a 09.45 yn gwneud gweithgareddau rheoleiddio emosiynau i helpu gyda'u hiechyd meddwl er mwyn sicrhau eu bod yn barod i ddysgu, mae'n ymwneud â meithrin perthnasoedd a chael agwedd gyfannol at y plentyn, nid yw un ateb yn addas i bawb.

## **Bwlio**

---

21. Nid o fewn yr ysgol, mae achrediad arian o ran hawliau ac mae bod yn wahanol a chynwysoldeb yn cael eu derbyn mwy. Fodd bynnag, gall fod rhywfaint o stigma neu

ddiffyg dealltwriaeth o hyd ynghylch ysgolion arbennig, weithiau nid ydynt yn cael eu hystyried yn ysgolion ac mae hyn yn aml oherwydd nad yw unigolion yn gwybod unrhyw beth am y lleoliadau na'r ddarpariaeth a gynigir.

22. Mae llawer o ddisgyblion yr ysgol yn byw mewn lleoliadau gwledig a all arwain at deimlo'n ynysig pan nad ydynt yn yr ysgol.
23. Mae bwlio yn fwy tebygol o ddigwydd mewn ysgolion prif ffrwd a thu allan i leoliad yr ysgol. Mae pobl yn ei nodi'n amlach, mae llawer o waith wedi cael ei wneud ar wrth-fwlio, mae'n ymwneud ag addysgu disgyblion i gydnabod nad dyna yw'r ffordd y dylech gael eich trin na sut y dylech drin eraill.

*Beth allai helpu:* Mae angen i chi chwalu'r stigma, dylai uwch arweinwyr mewn ysgolion prif ffrwd ac unigolion eraill ddeall yr hyn y mae ysgolion arbennig yn ei gynnig a bod y disgyblion yn cael eu cynnig yr un addysg ond ei fod yn cael ei darparu mewn ffordd gyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar gyflymder sy'n addas i anghenion pob unigolyn.



# Ysgol Bryn Derw – nodyn o’r ymweliad

29 Mehefin 2023

## Yn bresennol:

- Jayne Bryant AS
- Laura Anne Jones AS
- Naomi Stocks, Clerc

## 1. Yr ysgol a thrafodaethau gyda staff

**1.** Agorodd yr ysgol yn 2017 gyda 32 o ddisgyblion mewn 4 dosbarth. Dyma'r unig Ysgol Arbennig benodedig ar gyfer Anhwyldeira'u'r Sbectwm Awtistiaeth yng Ngwent. Ar hyn o bryd mae ganddi 112 o ddisgyblion. Mae lle i 96 o fyfyrwyr ac maent wrthi'n cynnal trafodaethau gyda'r awdurdod lleol ynghylch capasiti ac opsiynau i ehangu. Mae gan yr ysgol y potensial i ehangu i 150 o leoedd. Mae'r ysgol yn derbyn mwy o geisiadau nag y gall ddarparu ar eu cyfer. Er enghraifft, roedd yn gallu cynnig lleoedd meithrin neu dderbyn i 7 o ddysgwyr, ond gallai tua 20 o ddysgwyr fod wedi elwa o ymuno â'r ysgol.

**2.** Ystod oedran y disgyblion yw 4-19 oed. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i 30 y cant o'r disgyblion. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd. Mae gan yr ysgol ddysgwyr ag oddeutu 14 o ieithoedd gwahanol, gan gynnwys Rwsieg, Wrddw, Bengali, Tsieceg a Phwyleg. Mae amrywiaeth o hyfedredd Saesneg ymhlith teuluoedd.

**3.** Ar gyfer cyfarfodydd adolygu ffurfiol, bydd yr awdurdod lleol yn talu am wasanaeth dehongli. Ar gyfer ymgysylltiad mwy anffurfiol â theulu, mae amrywiaeth o opsiynau ar gael, gan gynnwys defnyddio sgiliau iaith staff; a'r ysgol yn talu'n uniongyrchol am wasanaeth dehongli. Ar gyfer cyfathrebu o ddydd i ddydd, mae'r ap *SeeSaw* yn cael ei ddefnyddio i



---

drosglwyddo negeseuon mewn gwahanol ieithoedd. Nododd y pennaeth fod rhai dysgwyr sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol wedi mynd ar ei hôl hi ymhellach yn ystod y cyfyngiadau symud.

**4.** Mae 42 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd. Gellir priodoli hyn yn rhannol i heriau cydbwysu cefnogi plentyn ag anghenion cymhleth a chyflogaeth â thâl. Nododd y pennaeth fod cyflwyno prydau ysgol am ddim i ddisgyblion iau yn ddefnyddiol, gan ddweud bod hyn yn golygu y gallai rhieni barhau i ddarparu pecynnau bwyd gyda bwyd y maent yn gwybod y bydd eu plentyn/plant yn ei fwyta, ond ochr yn ochr â hynny gall yr ysgol ddarparu pryd ysgol heb i rieni dalu am fwyd na gaiff ei fwyta. Gallai cyflwyno'r plant i brydau ysgol dros amser helpu i'w hannog i roi cynnig ar y bwyd, gan adeiladu o gamau bach fel cyffwrdd â'r bwyd a datblygu i flasau elfennau o'r pryd, cyn o bosibl symud at fwyta'r pryd llawn. Gall hyn helpu i ehangu deiet plentyn, gan wella maeth sy'n cael effaith ehangach ar les corfforol a meddyliol y plentyn.

**5.** Mae 72 y cant o'r disgyblion yn ddi-eiriau. O ganlyniad i hyn mae'r ysgol yn defnyddio llawer o systemau cyfathrebu gwahanol. Mae 89 y cant o'r disgyblion yn gweithio islaw lefelau oedran ysgol.

**6.** Mae'r ysgol wedi'i rhannu ar draws dau safle. Mae 84 o ddysgwyr ar safle Melfort Road (sef yr un yr ymwelwyd ag ef), sy'n cwmpasu cyfnodau allweddol 2-5. Mae 28 o ddysgwyr ar safle Blaen-y-Plant Crescent, sy'n cwmpasu'r cyfnod sylfaen. Mae'r safle hwn yn llai ac yn dawelach, gan helpu dysgwyr wrth iddynt ddechrau ar eu taith ysgol.

**7.** Mae'r ddarpariaeth mynediad yn galluogi'r ysgol i gymryd dysgwyr o'r tu allan i Gasnewydd. Mae rhai teuluoedd wedi symud i Gasnewydd yn benodol oherwydd anghenion cymhleth eu plentyn/plant.

**8.** Mae dros 90 o staff. Mewn dosbarth arferol bydd tua 8 plentyn a 5 oedolyn, ond bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar anghenion penodol. Mae'r ysgol hefyd yn prynu cymorth gan ddarparwyr eraill fel y bwrdd iechyd a'r trydydd sector. Mae gan yr ysgol Swyddog Cyswllt â Theuluoedd sy'n gweithio'n agos gyda dysgwyr a'u teuluoedd.

**9.** Mae gan yr ysgol rai staff sy'n siarad Cymraeg, ac mae nifer o ddysgwyr yn awyddus i ddysgu Cymraeg. Mae'r ysgol wedi archwilio ei ddarpariaeth Gymraeg, gyda'r pennaeth yn disgrifio'r ysgol fel ei bod 'ar daith'. Ar gyfer disgyblion iau bydd caneuon Cymraeg yn cael eu chwarae, bydd cyfarwyddiadau dwyieithog yn cael eu defnyddio ac yna bydd hyn yn arwain at rai disgyblion hyn yn cael gwersi Cymraeg.

**10.** Nid yw'r ysgol yn rhedeg clwb brechwast na chlwb ar ôl ysgol. Fodd bynnag, mae ganddi gyllid i ddarparu brechwast ar ddechrau'r diwrnod ysgol.

**11.** Mae ffocws cryf ar sgiliau byw'n annibynnol, gydag ardaloedd i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau hyn, gan gynnwys defnyddio offer cartref. Mae gan yr ysgol hefyd ystafelloedd chwarae meddal; ystafelloedd synhwyaidd; ac ystafelloedd therapi. Mae ganddi ardaloedd chwarae awyr agored, gan gynnwys ardal Ysgol Goedwig.

## Trafnidiaeth

---

**12.** Er bod yr ysgol mewn lleoliad da, gan fod dysgwyr yn dod o bob rhan o Gasnewydd, gall fod teithiau hir i rai disgyblion. Daw tua 80-90 y cant o'r disgyblion i'r ysgol ar drafnidiaeth. Y dysgwyr hynny sy'n dod i mewn gyda'u rhieni yw'r rhai sydd agosaf at y safle. Efallai y bydd rhai rhieni'n teimlo'n llai hyderus ynghylch eu plentyn/plant yn teithio'n annibynnol, fodd bynnag, gall teithio'n annibynnol fod yn gadarnhaol a helpu i gefnogi trefn arferol ac annibyniaeth.

**13.** Rhaid i lawer o deuluoedd ddefnyddio trafndiaeth i ddysgwyr, oherwydd efallai bod ganddynt blant eraill sydd mewn gwahanol ysgolion. Mae hyn yn golygu bod rhieni'n colli allan ar gysylltiad anffurfiol â'r ysgol sy'n fwy cyffredin pan fyddant yn codi a gollwng plant o'r ysgol. Gall hyn gynnwys cyswllt anffurfiol wyneb yn wyneb ag athrawon, a datblygu cymuned o rieni. O ganlyniad i hyn, rhaid i'r ysgol fod yn fwy rhagweithiol wrth ddatblygu'r gymuned ehangach o rieni. Mae'r math hwn o gymorth gan gymheiriaid yn bwysicach fyth i'r grŵp hwn o rieni, wrth iddynt wynebu heriau a rhwystrau ychwanegol. Gall y gefnogaeth gan eraill sydd wedi wynebu problemau tebyg fod yn 'drawsnewidiol'.

**14.** Ariennir trafndiaeth ar gyfer pob disgybl, ond mae'n cyfyngu ar y gweithgareddau eraill y gall yr ysgol eu cynnig, megis clwb brecwast neu glybiau ar ôl ysgol.

**15.** Nid oes y math cywir o drafnidiaeth bob amser, a gall ansawdd y ddarpariaeth fod yn wael. Gall fod gan yrwyr tacsï neu hebryngwyr wybodaeth gyfyngedig am sut i ymdrin â phlant a phobl ifanc sydd ag Anhwylderau'r Sbectrwem Awtistiaeth. Mae'r farchnad gyflogaeth yn gystadleuol, ac mae'r cyfleoedd gwaith yn gyfyngedig (mae angen i bobl fod ar gael am tua awr am 09:00 a 15:00.) Mae nifer y tacsï a'r gyrwyr wedi gostwng ers y pandemig. Nid yw'r contractau ychwaith mor ddeniadol â chontractau trafndiaeth tebyg i addysg prif ffrwd.

**16.** Mae perthynas dda gyda'r awdurdod lleol, ond yr her yw nad yw'r tîm sy'n caffael cludiant yn arbenigwyr mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae angen cydbwysu angen gweinyddol gyda'r angen am ddarpariaeth bwrpasol ar gyfer dysgwyr.

## Cymorth ehangach i deuluoedd

---

**17.** Dim ond 18 y cant o deuluoedd sydd â gweithiwr cymdeithasol. Mae hyn yn golygu y gallant golli allan ar gymorth ychwanegol. Amlygwyd cymhlethdodau rheoli taliadau

uniongyrchol a gallu 'datgloi' y cymorth y gall hyn ei gynnig. Yn benodol, y ffaith bod rhiant yn dod yn gyflogwr a'r holl faich gweinyddol ychwanegol y mae hyn yn ei achosi.

**18.** Mae darparu darpariaeth ar ôl ysgol yn heriol oherwydd nad oes trafndiaeth ar gael. Byddai'n rhaid i deuluoedd godi plant o'r ysgol. Mae rhai ysgolion yn darparu modelau gwahanol o gymorth yn ystod y gwyliau, ond gan fod hyn yn aml yn seiliedig ar arian grant, gall fod yn anodd recriwtio a chadw staff.

**19.** Gall pontio rhwng y cyfnod gwyliau anstrwythuredig i strwythur yr ysgol fod yn heriol, yn enwedig gwyliau hirach yr haf. Gall gymryd 2-3 wythnos i ailsefydlu arferion ar ôl yr egwyl. Mae ymyriadau corfforol bob amser ar eu huchaf ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Mae rhai teuluoedd yn ofni'r gwyliau, ond mae'r ysgol wedi cefnogi teuluoedd i sefydlu arferion gartref sy'n gweithio iddyn nhw. Dim ond ar ôl iddynt gael eu sefydlu yn yr ystafell ddosbarth y gall sefydlu'r arferion hyn gartref weithio mewn gwirionedd.

**20.** Mae'r ysgol wedi dewis gwario cyfran o'i chyllideb ar Swyddog Cyswllt â Theuluoedd a all ddarparu cymorth soffistigedig a dwys i deuluoedd. Yn flaenorol bu'r rôl hon yn rhan o rôl y Dirprwy Bennaeth, ond dim ond pan oedd teuluoedd mewn argyfwng yr oedd ymyriadau'n cael eu gwneud. Wrth i'r ysgol dyfu, gwnaethant nodi bwlch gwirioneddol ar gyfer cymorth rhagweithiol. Mae'r ddarpariaeth hon yn dileu rhywfaint o'r pwysau ar athrawon a staff eraill yr ysgol, ac mae hefyd yn lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n fodel da y dylai ysgolion eraill geisio dysgu ohono.

## Hyfforddiant athrawon

**21.** Fel arfer mae angen hyfforddiant ychwanegol ar athrawon sydd newydd gymhwyso gan nad oes gan hyfforddiant addysgu unrhyw ofynion gorfodol ynghylch addysgu mewn lleoliad nad yw'n brif ffrwd. Mae gan yr ysgol nifer o gynorthwywyr addysgu a fyddai'n gwneud athrawon rhagorol, ond byddai'n rhaid iddynt roi'r gorau i'w gwaith presennol i wneud hyfforddiant addysgu, na fyddai o reidrwydd yn cwmpasu addysgu mewn lleoliad arbennig. Dywedodd un athro nad oedd unrhyw beth yn y cwrs TAR wedi'i arwain i'w rôl bresennol. Roedd cytundeb y dylai'r cwrs TAR gwmpasu addysgu mewn lleoliadau arbenigol. Dylai addysg anghenion arbennig ac addysg gynhwysol fod yn rhan o 'fara menynd' hyfforddiant addysgu.

**22.** Mynegwyd pryderon ynghylch y cyhoeddiad diweddar am y Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon yng Nghymru, a ddywedodd "Gall lleoliadau profiad mewn ysgol fod mewn ysgol arbennig neu uned ADY. Yn yr achosion hyn, dylai Partneriaethau sicrhau nad oes mwy na 30% o'r profiad mewn ysgol yn digwydd y tu allan i amgylchedd dysgu prif ffrwd er mwyn sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn barod i addysgu mewn

amgylcheddau prif ffrwd ac ADY.” Roedd staff mewn lleoliadau arbenigol yn rhwystredig â’r adroddiad hwn gan ei fod yn awgrymu na fyddai’r rhai â hyfforddiant mewn lleoliad arbenigol yn unig yn gallu addysgu mewn lleoliad prif ffrwd.

**23.** Mae Cynorthwyr Addysgu Lefel Uwch o’r ysgol hon yn mynd i leoliadau prif ffrwd yn rheolaidd i’w cefnogi i addasu a newid eu haddysgu i ddarparu ar gyfer anghenion arbennig.

### Staff cymorth

---

**24.** Mae pob ysgol arbennig yn cael trafferth recriwtio a chadw staff. Mae’r cyflog yn isel iawn o’i gymharu â gofynion y swydd. Yn y sefyllfa economaidd bresennol mae hwn yn fater arbennig. Gall gweithio’n rhan-amser mewn archfarchnad dalu mwy na bod yn gynorthwydd addysgu. Ond mae’r rhain yn bobl fedrus iawn. Amlygwyd y gwahaniaethau rhwng yr hyn a ddisgwylir gan gynorthwydd addysgu mewn ysgol arbennig ac un mewn lleoliad prif ffrwd.

**25.** Mae’r pecyn ehangach a oedd unwaith yn gwneud gweithio mewn ysgol yn fwy deniadol yn crebachu, wrth i fwy o gyflogwyr gynnig mwy o hyblygrwydd, megis gweithio yn ystod y tymor/oriau ysgol.

### Pontio o’r ysgol

---

**26.** Mae strwythur ariannu teirochrog ar gyfer addysg ôl-ysgol. Mae achosion lle nad yw rhai dysgwyr yn gwybod i ble y byddant yn mynd ym mis Medi. Ac eto, mae’r rhain yn ddysgwyr y mae angen cymorth arnynt i’w helpu i drosglwyddo i leoliad newydd. Amlygwyd pe bai hyn yn digwydd o fewn system UCAS ni fyddai’n cael ei ystyried yn dderbyniol.

## 2. Trafodaethau gyda’r Cyngor Ysgol

**27.** Roedd y materion a godwyd yn ystod y trafodaethau gyda’r Cyngor Ysgol yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg cyfleoedd i gael mynediad at glybiau chwaraeon
- Diffyg cyfleoedd profiad gwaith
- Diffyg clwb brechwast a chlybiau ar ôl ysgol
- Diffyg gwybodaeth am opsiynau ar ôl ysgol

### 3. Trafodaethau gyda rhieni

#### Gofal plant

**28.** Mae diffyg darpariaeth clwb gwyliau. Dechreuodd un o'r rhieni ddarpariaeth gofal plant i gau'r bwloch mewn clybiau gwyliau ar gyfer plant a phobl ifanc awtistig. Fodd bynnag, oherwydd nad oeddent yn gallu recriwtio staff, ni fydd y ddarpariaeth yn rhedeg yr haf hwn. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc 3-19 oed, gyda'r rhan fwyaf rhwng 6 a 14 oed.

**29.** Roedd adborth gan rieni yn nodi'r canlynol:

- Gwelodd 70 y cant o rieni ymddygiad yn gwella;
- Byddai 58 y cant yn defnyddio'r gwasanaeth i'w galluogi i fynd i'r gwaith;
- Teimlai 100 y cant fod y ddarpariaeth yn ddiogel a bod eu plentyn yn cael cefnogaeth ddigonol; ac
- Roedd 86 y cant o'r rhai a aeth wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd.

**30.** Mae gan y cynllun restr aros, ond ni all ehangu oherwydd yr her o recriwtio staff. Mae'n wasanaeth y mae mawr ei angen, ond mae'n ddrud i'w redeg. Teimlai'r rhiant y dylai gael ei redeg gan yr awdurdod lleol. Ar hyn o bryd mae'n cefnogi 55 o blant unigol.

**31.** Mae cynllun chwarae yng Nghasnewydd, ond nid yw'n hysbys iawn. Mae pobl fel arfer yn cael eu hatgyfeirio gan y gwasanaethau cymdeithasol, ac felly nid yw rhieni nad oes ganddynt gymorth gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol ohono. Cytunodd rhieni fod sicrhau gofal plant yn fater pwysicach nag addysg i'w teuluoedd.

#### Capasiti mewn ysgolion arbennig

**32.** Nid oes digon o le mewn ysgolion arbennig ar gyfer lefel yr angen. Mae gordanysgrifio mewn ysgolion arbennig yng Nghasnewydd. Maent yn teimlo bod plant mewn Unedau Adnoddau Dysgu a fyddai'n elwa o fod yn Ysgol Bryn Derw. Mae hyn hefyd yn cael effaith ar blant eraill mewn darpariaeth prif ffrwd.

#### Darpariaeth ôl-16

**33.** Mae diffyg darpariaeth ôl-16 briodol. Mae'r agosaf ym Mhont-y-pŵl, ond nid oes trafndiaeth addas.

---

## Trafnidiaeth

---

**34.** Teimlai rhieni mai dewis cyfyngedig iawn sydd gan eu plant yn rhannol oherwydd diffyg trafndiaeth briodol. Nid oes ganddynt yr un dewisiadau â'u cyfoedion, er enghraifft ni allant fynd i glybiau ar ôl ysgol.

**35.** Dywedodd rhai fod 'materion diogelu enfawr' gyda thrafnidiaeth. Gwnaethant ddyfynnu enghreifftiau lle nad oedd gwiriadau cefndir wedi'u gwneud, ac nad oedd gan hebryngwyr sgiliau iaith Saesneg digonol. Amlygwyd bod y plant a'r bobl ifanc hyn yn fwy agored i niwed na'u cyfoedion mewn addysg prif ffrwd. Roedd pryder bod y broses gaffael yn caniatáu is-gontractio sy'n gwanhau ansawdd y ddarpariaeth.

**36.** Amlygwyd hefyd fod rhywfaint o ddarpariaeth yn dda, gyda gyrwyr/hebryngwyr sy'n meithrin perthnasoedd effeithiol a chadarnhaol gyda dysgwyr. Fodd bynnag, gall problemau godi'n aml ar ddechrau'r flwyddyn newydd, pan fydd yn bosibl y bydd gyrwyr newydd a'r plant yn gorfod meithrin perthnasoedd newydd. Mae cysondeb o ran gyrwyr/hebryngwyr/cwmnïau yn gwneud gwahaniaeth mawr. Gall effaith cael profiad gwael ar dtrafnidiaeth i'r ysgol fod yn sylweddol ar weddill y diwrnod ysgol.

---

## Cymorth i deuluoedd

---

**37.** Roeddent i gyd yn cytuno y dylid cael Swyddog Cyswllt â Theuluoedd mewn ysgolion eraill. Rhoddwyd enghreifftiau unigol o'r gwahaniaeth yr oedd cymorth y Swyddog Cyswllt â Theuluoedd wedi'i wneud o ran helpu i gyflwyno systemau ac arferion yn y cartref. Roedd y mewnbwn hwn yn ddwys ac yn ddull teulu cyfan. Roedd y Swyddog Cyswllt â Theuluoedd hefyd wedi darparu cymorth pan oedd newidiadau a digwyddiadau eraill o fewn y teulu a oedd yn effeithio ar y dysgwr.

**38.** Cafwyd trafodaeth ehangach am y cymorth y mae holl staff yr ysgol yn ei roi i ddysgwyr a'u teuluoedd. Mae dull yr ysgol yn canolbwyntio ar edrych ar y teulu cyfan, a sicrhau bod digon o gefnogaeth. Disgrifiodd un rhiant sut aeth ei phwysedd gwaed i lawr cyn gynted ag y dechreuodd ei phlentyn yn yr ysgol.

**39.** Bu trafodaeth am sut mae rhywun yn aml yn 'symud o un frwydr i frwydr arall'. Mae yna 'frwydr gyson am bob gwasanaeth'. Mae hyn yn mynd yn llawer ehangach nag addysg a gofal plant, ac mae'n cynnwys materion fel y Lwfans Byw i'r Anabl. Soniodd rhai bod yn rhaid iddynt fynd drwy brosesau cwyno i geisio cael mynediad at y gwasanaethau cywir ar gyfer eu plentyn.

**40.** Soniodd un teulu am y cymorth y maent wedi'i dderbyn drwy'r Rhaglen Cynlluniau Ymddygiad Unigol. Mae hwn yn brosiect a ariennir gan Lywodraeth Cymru yng Ngwent, sy'n

---

darparu cymorth dwys i dri theulu. Mae'n darparu cymorth i sefydlogi teuluoedd er mwyn atal plant rhag gorfod mynd i ofal. Fe'i disgrifiwyd fel 'rhagorol' ac roedd yn darparu lle ar gyfer cwnsela.

**41.** Amlygwyd effaith cael plentyn ag anghenion cymhleth ar y teulu ehangach, yn enwedig ar y rhieni a'r brodyr a chwiorydd. Soniodd rhieni am eu plant eraill yn 'colli allan' oherwydd nad yw eu hymddygiad mor aflonyddgar neu heriol. Rhaid iddynt hefyd ymgymryd â rôl gofalu. Disgrifiodd un rhiant bwysigrwydd darpariaeth gofalu plant dros yr haf, gan fod hyn yn golygu y gallent dreulio peth amser gyda'u plant eraill. Dyfynnodd un rhiant ystadegyn bod 4 o bob 5 o briodasau gyda phlentyn anabl yn methu.

**42.** Cafwyd trafodaeth ynghylch effaith cefnogi plentyn ag anghenion cymhleth ar gyfleoedd cyflogaeth. Soniodd rhieni am sut y bu'n rhaid iddynt roi'r gorau i weithio gan fod yn rhaid iddynt fod ar gael bob amser. Yn ogystal â'r effaith ariannol ar y cartref, mae hefyd yn cael effaith negyddol ar les emosiynol a meddyliol. Mae methu â gweithio hefyd yn cyfyngu ar gyfleoedd yn y dyfodol - fel y dywedodd rhywun, 'mae'n newid eich dyfodol.'

### **Lleoliadau addysg eraill**

---

**43.** Soniodd rhieni am faint o 'waith adferol' y mae'n rhaid ei wneud pan nad oedd lleoliadau blaenorol wedi gweithio allan. Dywedodd un fod yn rhaid i'r plentyn hwnnw gael therapi i ddad-wneud yr hyn a oedd wedi digwydd yn flaenorol.

**44.** Teimlai rhai nad oedd gan y staff yn yr Unedau Adnoddau Dysgu y lefel gywir o hyfforddiant. Mewn cymhariaeth, mae staff Ysgol Bryn Derw yn canolbwyntio ar y plentyn a'i anghenion. Mewn lleoliadau eraill, teimlwyd ei fod yn ymwneud â'r hyn sydd orau i'r ysgol ac nid y plentyn. Ni all y plant hyn gydymffurfio â'r hyn y mae'r ysgol am iddynt fod. Gellir eu meithrin os oes gennych y staff cywir. Disgrifiodd un yr Uned Adnoddau Dysgu fel 'brwydr gyson'.

**45.** Er nad oedd Unedau Adnoddau Dysgu yn ddrwg ynddynt eu hunain teimlwyd nad oeddent yn canolbwyntio ar y plentyn. Teimlwyd nad oedd rhai o staff yr Unedau Adnoddau Dysgu yn addas ar gyfer y lleoliad. Teimlwyd mai cael y staff cywir gyda'r agwedd gywir oedd bwysicaf, gyda hyfforddiant wedyn yn cael ei ddarparu ar gyfer unrhyw sgiliau arbenigol.

### **Darpariaeth Ysgol Bryn Derw**

---

**46.** Dywedodd rhieni, ers i'w plentyn ymuno ag Ysgol Bryn Derw, nad oeddent yn poeni am yr addysg y maent yn ei derbyn. Maent yn cael eu haddysgu sut i ddatblygu i fod yn oedolion.



Maent yn cael eu haddysgu i dyfu mewn byd sy'n credu ynddynt. Roedd rhieni eisiau gweld y ddarpariaeth hon ar gael i bawb.

**47.** Mae angen tegwch nid cydraddoldeb, gan fod angen mwy o gefnogaeth ar y plant hyn.

**48.** Mae plant di-eiriau yn dal i fod â llais ac mae ganddynt rywbeth i'w gyfleu. Maent eisiau cyfathrebu ond ni wrandewir arnynt bob amser.

### **Darpariaeth seibiant**

---

**49.** Cafwyd trafodaeth ynghylch mynediad at Gartref Seibiant Byr Preswyl Oaklands. Dyma'r unig uned breswyl yn yr ardal, ac mae wedi bod dan fygythiad. Disgrifiodd un rhiant mai dim ond oherwydd bod ymddygiad ei blentyn mor heriol y gall gael mynediad at Oaklands.

# Ysgol Goffa – nodyn o’r ymweliad

29 Mehefin 2023

## Yn bresennol:

- Sioned Williams AS
- Sian Hughes, Uwch Ymchwilydd

## 1. Yr ysgol

1. Mae Ysgol Goffa yn darparu ar gyfer dysgwyr 3-19 oed gydag anableddau dwys a lluosog. Mae 111 o ddisgyblion ar y gofrestr, ac mae rhestr aros ar gyfer yr ysgol.
2. Darparodd dau ddisgybl daith o amgylch yr ysgol a chynhaliwyd trafodaethau gyda staff a disgyblion ym mhob ystafell ddosbarth.
3. Cyn bo hir, bydd yr ysgol yn symud i safle newydd gydag ysgol newydd sbon. Mae plant yr ysgol wedi cyfrannu at ei dyluniad. Er y bydd mwy o gapasiti yn yr ysgol, teimlai'r pennaeth y byddent yn dal i fod wedi'u gordanysgrifio oherwydd maint y rhestr aros ar gyfer yr ysgol. Ar hyn o bryd, mae gofod yn broblem yn yr ysgol gan fod angen sawl darn o offer (fel cadeiriau olwyn) ar lawer o'r plant.

## 2. Trafodaethau â rhieni, staff, llywodraethwyr a disgyblion

### Hyfforddiant

4. Siaradodd y staff am yr hyfforddiant y maent wedi'i gael. Yn ogystal â hyfforddiant ar gyfer y cwricwlwm newydd a datblygiad proffesiynol cyffredinol arall, mae angen hyfforddiant mwy



---

arbenigol arnynt, fel hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag iechyd a hyfforddiant meddygol. Roedd staff yn croesawu'r gefnogaeth a gawsant gan arbenigwyr lleferydd ac iaith a nyrsys cymunedol sy'n dod i'r ysgol yn rheolaidd.

**5.** Siaradodd aelod o staff cymorth am y cymwysterau yr oedd hi'n eu dilyn a'i dymuniad i symud ymlaen at gymhwyster addysgu ffurfiol. Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu gadael yr ysgol neu gymryd absenoldeb di-dâl gan na ellir ymgymryd â lleoliadau hyfforddi athrawon yn gyfan gwbl mewn ysgol arbennig.

## **Addysg gynhwysol**

---

**6.** Nid yw bob amser yn hawdd penderfynu beth sydd orau i'r plentyn. Mae'r cwricwlwm, cymarebau staff a lefel hyfforddiant staff mewn ysgolion prif ffrwd yn darparu profiad gwahanol i ddysgwyr, ac efallai nad dyna'r peth mwyaf priodol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol.

**7.** Efallai y bydd manteision cadarnhaol i ddysgwyr eraill mewn ysgolion prif ffrwd o ran dysgu am gynwysoldeb, ond efallai na fydd o fudd i'r dysgwr ag anghenion ychwanegol bob amser.

**8.** Mae rhai agweddau heriol ynglŷn ag ysgolion arbennig ac efallai y bydd rhieni'n teimlo eu bod yn cael eu stigmatiddio. Roedd y rhieni i gyd yn gadarnhaol iawn am bresenoldeb eu plant yn yr ysgol. Roedd rhai yn teimlo mai 'dogma' oedd addysg gynhwysol i rai, ac nid yw o reidrwydd er lles y dysgwr.

## **Cymwysterau**

---

**9.** Os yw dysgwyr yn dymuno astudio ar gyfer arholiadau fel TGAU, mae gan yr ysgol drefniadau gydag ysgol uwchradd leol. Dywedodd yr ysgol nad ydyn nhw'n rhoi unrhyw gyfyngiadau ar y dysgwyr.

## **Gofal plant**

---

**10.** Awgrymodd rhieni fod hwn yn 'fwlch enfawr' wrth gael mynediad at ofal plant. Nid oedd darpariaeth yn ystod gwyliau'r haf yn cael ei hysbysebu'n dda bob amser - gyda gweithwyr cymdeithasol yn dweud wrth rieni fod y ddarpariaeth ar gael - ac roedd y lleoedd yn cael eu llenwi yn gyflym iawn.

## **Cyllid**

---

**11.** Nid yw cyllid ar gyfer ysgolion arbennig yn cael ei wneud yn yr un ffordd ag y mae ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac roedd y pennaeth wedi llwyddo i sicrhau cyllid fformiwla ar gyfer yr ysgol, er bod cyllid yn broblem.

## **Gwybodaeth**

---

**12.** Siaradodd rhieni am y 'frwydr' y bu'n rhaid iddynt ei chael er mwyn cael mynediad i'r addysg iawn i'w plant. Nid oedd gwybodaeth am ddewisiadau ar gael yn rhwydd nac yn cael ei gynnig yn rhagweithiol i rieni. Roedd yn rhaid mynd ati i chwilio amdano.

**13.** Roedd y pennaeth wedi bod o gymorth wrth gyngori rhieni ynghylch eu mynediad at weithwyr cymdeithasol a thaliadau uniongyrchol. Siaradodd rhieni am beidio â bod yn ymwybodol o'r ddarpariaeth oedd ar gael ac y byddai'n rhaid iddyn nhw wybod bod angen iddynt ofyn am gymorth.

## **Trafnidiaeth**

---

**14.** Roedd gan yr ysgol drefniadau cludiant da ac roedd y disgyblion yn mwynhau'r rhyngweithio cymdeithasol a'r annibyniaeth a ddaw o deithio ar fws.

**15.** Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn glir pam y gwnaed penderfyniadau i gynnig cludiant am ddim i'r ysgol. Darparwyd enghraifft o ddau blentyn yn byw yn yr un tŷ lle cynigiwyd cludiant i un ohonynt ond nid i'r llall. Roedd hebryngwyr cludiant ysgol wedi cael gwybod na ddylent guro ar ddrws unrhyw deulu lle nad oedd y plentyn yn barod i fynd i'r ysgol ac roedd hyn yn golygu y byddai'r plentyn yn aml yn colli diwrnod yn yr ysgol.

**16.** Roedd problemau ar gyfer cludiant i golegau ôl-16 lle byddai angen i ddysgwyr ddod o hyd i'w ffordd eu hunain yno.

# Eitem 4.1

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

Cyng Ian Roberts  
Llefarydd addysg  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

11 Medi 2023

## Plant a phobl ifanc yn fêpio mewn ysgolion

Annwyl Cyng Roberts

Rydym yn ymwybodol o achosion o blant a phobl ifanc yn fêpio mewn ysgolion. Yn ddiweddar, nododd un o'n Haelodau enghraifft o blant mor ifanc ag 8 oed yn fêpio yn yr ysgol. Wrth reswm, mae hyn yn bryder mawr inni. Rwyf wedi codi'r materion hyn yn anffurfiol gyda'r Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, ac rwy'n deall eu bod nhw hefyd yn ymwybodol o'r materion hyn.

Mae gennym ddiddordeb yn yr hyn y gellir ei wneud mewn ysgolion i fynd i'r afael â'r mater, ac mae gennym ddiddordeb hefyd yn yr hyn sy'n cael ei wneud i atal gwerthu e-sigaréts i bobl dan 18 oed. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y mae safonau masnach ledled Cymru yn mynd i'r afael â gwerthu e-sigaréts yn anghyfreithlon i bobl dan 18 oed. Byddai gennym ddiddordeb hefyd mewn unrhyw ddata neu wybodaeth a allai fod gennych am hyd a lled y mater hwn.

A allwch hefyd amlinellu pa waith y mae Safonau Masnach ledled Cymru yn ei wneud i ymdrin â gwerthu e-sigaréts anghyfreithlon a heb eu rheoleiddio? Rydym yn poeni'n benodol y gall y rhain yn aml fod mewn blasau sy'n fwy deniadol i blant a phobl ifanc na'r rhai sydd ar gael yn gyfreithlon.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cais hwn, mae croeso ichi gysylltu â chlercod y Pwyllgor drwy anfon e-bost i [SeneddPlant@senedd.cymru](mailto:SeneddPlant@senedd.cymru)

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 11 Hydref.



Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Eitem 4.2

**Julie Morgan AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Deputy Minister for Social Services

Jayne Bryant, AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Senedd Cymru,  
Bae Caerdydd,  
Caerdydd  
CF99 1SN



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

13 Medi 2023

Annwyl Jayne,

Mae'n bleser gennyf roi ateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor i gwestiwn 6 yn eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf.

Roedd cwestiwn y Pwyllgor yn ymwneud ag argymhelliad 6 ar ddata: *Mewn perthynas â'r data na chaiff ei gasglu a'i gyhoeddi fel mater o drefn yng Nghymru ar hyn o bryd (fel y nodir ar dudalennau 50 i 52 o'n hadroddiad ac adroddiad WCPP), hoffem ragor o wybodaeth am y sail resymegol dros haerïad Llywodraeth Cymru nad yw hyn yn angenrheidiol / yn bosibl / yn ddefnyddiol wrth lywio ymateb polisi yng Nghymru.*

Fel y nodwyd yn ein hymateb i argymhelliad 6, mae Llywodraeth Cymru'n casglu amryw o ddata yn ymwneud â gofal cymdeithasol i blant. Yn ogystal â'r casgliadau data hyn, sy'n canolbwyntio ar y plant hynny sy'n cael gofal a chymorth, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn casglu swm mawr o ddata ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol. Maen nhw'n [casglu data yn flynyddol](#) gan yr holl gyflogwyr gofal cymdeithasol, sy'n darparu data ar bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau preswyl i blant ac mewn gofal maeth, yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol a all gefnogi plant.

Wrth ddatblygu polisiau a strategaethau, mae data yn amhrisiadwy i ganiatáu inni fesur canlyniadau a sicrhau ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth. Bydd y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn sefydlu is-grŵp sy'n cynnwys aelodau â chefnidir ystadegol i adolygu'r data sy'n cael eu coladu ar hyn o bryd, y rhwystrau i goladu unrhyw ddata ac i ddod o hyd i unrhyw fylchau yn y casgliad data presennol. Bydd y Grŵp hefyd yn gweithio i gael gwell dealltwriaeth o ba ddata sydd eu hangen ac sy'n bosibl eu casglu fel rhan o asesiadau o anghenion y boblogaeth y gellir eu cynnwys yng ngwaith cynllunio awdurdodau lleol gan gynnwys fel rhan o'u strategaethau comisiynu lleoliadau, strategaethau ataliol a darpariaeth gwasanaethau.

I grynhoi, rydym yn cytuno gyda'r Pwyllgor ei bod yn bwysig cael data cadarn sy'n ein galluogi i fesur canlyniadau i'n helpu i lywio polisiau a strategaethau.

Yn gywir

**Julie Morgan AS/MS**  
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant – Cylchlythyr Newyddion

Medi 2023



**Julie Morgan AS,  
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein cylchlythyr newyddion cyntaf yn ymwneud â Thrawsnewid Gwasanaethau Plant. Mae llawer o waith cydgynhyrchiol eisoes yn cael ei wneud i sbarduno newid yng Nghymru ac rydym yn awyddus i rannu hyn gyda chi.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru yn glir - rydym am i fwy o blant gael cymorth i aros gyda'u teuluoedd a lleihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ofal. Rydym am sicrhau bod pobl ifanc yn aros mewn gofal am gyn lleied o amser â phosibl, yn unol ag anghenion y person ifanc. Tra bod plant mewn gofal, rydym am iddynt aros yn agos at eu cartrefi er mwyn parhau i fod yn rhan o'u cymuned - rhwydwaith y plentyn.

Mae ein Rhaglen Lywodraethu'n cynnwys 8 ymrwymiad sy'n darparu'r fframwaith i wneud hyn. Bydd cyflawni'r ymrwymadau hyn yn arwain at newid ledled y system gyfan yng Nghymru ac yn cyd-fynd â'r nodau a'r amcanion yn ein [Cynllun Plant a Phobl Ifanc](#). Bydd yr ymrwymadau hyn a'r Cynllun yn cael eu cyflawni dros dymor cyfan y Senedd hon.



### **Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Plant:**

1. Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.
2. Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor nesaf y Senedd.
3. Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
4. Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.
5. Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system ofal.
6. Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar gyrion y system ofal.
7. Parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pennau eu hunain sy'n ceisio lloches.
8. Cefnogi ein cynllun cenedlaethol Maethu Cymru.

Rydym yn gwybod y bydd angen amser i gyflwyno'r newidiadau sydd eu hangen i wireddu ein gweledigaeth ac na fydd modd ei gwireddu dros nos, ond rydym yn gwybod bod pethau'n gallu newid yn gyflym pan fydd pawb yn cydweithio. Er enghraifft, gallwn ddysgu o enghreifftiau da o wasanaethau sydd eisoes yn cael eu darparu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru. Felly, rydym wedi sefydlu Rhaglen Drawsnewid sy'n seiliedig ar dair elfen allweddol - diwygio radical, darparu gwasanaethau yn y dyfodol, a chydweithio rhwng y system gyfan. Mae llais plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wrth wraidd y rhaglen.

Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno ein cynllun ar gyfer y Rhaglen Drawsnewid a'r strwythur llywodraethu rydym wedi'i sefydlu i helpu i'w chyflawni. Hefyd, mae'r bwletin yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith rydym wedi'i wneud a'r hyn sy'n digwydd nesaf.

## **Llais Person Ifanc â Phrofiad o fod mewn Gofal**

“Roeddem yn falch o siarad yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Cyflawni Trawsnewid am y cyfarfod Uwchgynhadledd rhwng Gweinidogion a Llysgenhadon Ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, a'r [datganiad](#) y gwnaethom gytuno arno.


Mae'r Weledigaeth yn y Datganiad yn uchelgeisiol iawn, ac rydym yn gwybod na all popeth newid dros nos. Ond pan fydd y Gweinidogion a'r Llysgenhadon Ifanc yn cwrdd eto'r flwyddyn nesaf, rydym yn disgwyl deall yn glir sut mae'r Weledigaeth yn cael ei rhoi ar waith. Dyna pam mae gwaith y Grŵp Cyflawni Trawsnewid mor bwysig, a pham rydym yn credu ei bod yn bwysig ein bod ni'n rhan ohono.”

*Hope Hover a Rhian Thomas  
Llysgenhadon Voices From Care Cymru*

# Cynllun Ein Rhaglen Drawsnewid

Er mwyn cefnogi a chyflwyno ein Rhaglen Drawsnewid, mae gennym gyllideb rhaglen o tua £70m o 2022/2025 er mwyn sbarduno ein cynlluniau, a amlinellir yn y map ffordd isod:

## Improving Outcomes for Children – Transformation Road Map



Mae enghreifftiau o'r gwaith sydd wedi'i wneud yn 2022/2023 yn cynnwys datblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol (darllenwch ymlaen i gael rhagor o wybodaeth am y Fframwaith). Ceir buddsoddiad gwerth £1.6m yn ystod tymor y Senedd hon er mwyn uwchraddio gwasanaethau eiriolaeth rhieni ledled Cymru a gweithio i gryfhau swyddogaeth cyrff cyhoeddus fel rhieni corfforaethol trwy gyhoeddi'r Siarter Rhianta Corfforaethol.


I reoli'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Drawsnewid, mae Bwrdd Trosolwg Gweinidogol wedi ei sefydlu, a chynhaliodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Mai eleni. Mae'r Bwrdd yn cael ei gadeirio ar y cyd gan y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Grŵp Cyflawni Trawsnewid wedi'i sefydlu hefyd ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sector sydd â diddordeb mewn gwasanaethau plant, gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain. Mae'r Grŵp hwn wedi cyfarfod dair gwaith eleni ac mae'n cael ei gadeirio gan Jonathan Griffiths, arweinydd Trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i blant ac oedolion.

# Cynnydd hyd yn hyn, cyflawniadau a'r camau nesaf

Mae'r canlynol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am rai o feysydd y rhaglen gan dynnu sylw at rai o'r llwyddiannau yn ogystal â'r cynlluniau ar gyfer y camau nesaf:



Ar 3 Rhagfyr 2022, cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd gyntaf ar gyfer Pobl sy'n Gadael Gofal rhwng Gweinidogion Cymru, gan gynnwys y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a 50 o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal neu lysgenhadon. Canlyniad yr uwchgynhadledd yw [datganiad](#) sy'n amlinellu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwasanaethau plant. Trafodwyd y datganiad hwn gan y bobl ifanc a'r Gweinidogion yn ystod y digwyddiad, ac roedd cyfle i'r bobl ifanc rannu eu profiad bywyd. Llofnodwyd y datganiad gan y Prif Weinidog ar ran Llywodraeth Cymru a gan 4 o'r llysgenhadon ifanc ar 10 Mai eleni.



Ar 29 Mehefin 2023, cyhoeddwyd y [Siarter](#) Rhianta Corfforaethol ar-lein. Mae'r Siarter a ddatblygwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Rianta Corfforaethol yn amlinellu cyfres o egwyddorion i'w dilyn gan gyrff y sector cyhoeddus a'r sector preifat wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfleoedd bywyd â phawb arall.

Cynhelir lansiad cyhoeddus ehangach o'r Siarter ym mis Medi.

## Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu'r Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Y Fframwaith fydd y gyfres gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, gan ategu gweithdrefnau Cymru gyfan eraill, fel gweithdrefnau diogelu Cymru Gyfan. Bydd y safonau'n rhai amlasiantaethol oherwydd ein bod yn cydnabod bod plant ag anghenion cymorth ac amddiffyniad angen cymorth yn aml gan nifer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd fel tîm. Rydym yn rhag-weld cyflawni hyd at 5 safon ymarfer newydd erbyn diwedd 2023 a bydd safonau pellach yn cael eu cydgyhyrchu erbyn diwedd 2024.

## Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal

Rydym wedi sefydlu pedair ffrwd waith newydd o dan Fwrdd y Rhaglen Dileu Elw er mwyn defnyddio amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiad i sbarduno cynnydd i sicrhau lleoliadau digonol a datblygu gwytnwch yn y sector, gan gynnwys:

- Ehangu a datblygu darpariaeth awdurdodau lleol / rhanbarthol newydd
- Ehangu a datblygu darpariaeth nid-er-elw newydd
- Pontio'r Sector Annibynnol/Preifat
- Grŵp Trawsnewid Lles Pennaf

Hefyd, mae dau is-grŵp wedi'u sefydlu o dan ffrwd waith 1 yn canolbwyntio ar sefydlogrwydd lleoliadau ac yn ystyried atebion i leihau'r angen am drefniadau Gweithredu heb Gofrestru, ochr yn ochr â materion sy'n gysylltiedig â recriwtio a chadw'r gweithlu gofal preswyl i blant.

Yn ogystal, mae dau is-grŵp wedi'u sefydlu o dan ffrwd waith 3 i ystyried gwerth/asedau sefydliadol a strwythurau/modelau busnes.

Rydym wedi buddsoddi £68m yn ychwanegol yn y sector dros dair blynedd er mwyn cefnogi a sbarduno ein gweledigaeth i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Bydd y cyllid hwn yn canolbwyntio ar feysydd fel datblygu darpariaeth gofal preswyl a gofal maeth awdurdodau lleol, symud plant o ofal preswyl yn ôl i leoliad teuluol, a darparu gwasanaethau wedi'u lleoli a'u cynllunio'n lleol, gan gynnwys darpariaeth arbenigol ar gyfer plant ag anghenion mwy cymhleth ac, yn anad dim, gwella canlyniadau i blant.

Lansiwyd yr ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â chynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol i helpu i 'ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal' ar 17 Awst a daeth i ben ar 7 Tachwedd. Cyhoeddwyd y [crynodeb o'r ymatebion](#) ar 22 Mehefin.

Ar 27 Mehefin eleni, cyhoeddodd y Prif Weinidog y bydd Bil Gofal Cymdeithasol yn cael ei gyflwyno yn ystod hanner olaf blwyddyn y Senedd rhwng 23 Medi a 24 Gorffennaf i gefnogi ein hymrwymiad i ddileu elw.



Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein cynllun maethu cenedlaethol, Maethu Cymru, er mwyn gwella gallu gwasanaethau maethu awdurdodau lleol i recriwtio a chadw gofalwyr maeth. Bydd hyn yn eu helpu i wireddu eu huchelgais ar y cyd i leoli mwy o blant sy'n cael eu maethu mewn lleoliadau awdurdodau lleol, yn ardal eu cartrefi, gan gadw plant yn agos at eu rhwydweithiau a'u cymunedau lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol.

## **Gofal gan berthynas (gan gynnwys Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig)**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gofalwyr maeth sy'n berthnasau yn derbyn yr un cymorth â gofalwyr maeth prif ffrwd, a thrwy Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru rydym yn gweithio tuag at sicrhau bod pecyn hyfforddiant, cymorth a gwobrau ar gael yn gyson i bob gofalwr maeth sy'n berthynas ym mhob un o'r 22 asiantaeth faethu awdurdod lleol yng Nghymru.

Rydym am i Ofalwyr Maeth sy'n Berthnasau dderbyn cymorth ariannol cyfartal â gofalwyr maeth prif ffrwd. Mae ein gwaith presennol ar ffioedd a lwfansau'n canolbwyntio ar sicrhau cymorth ariannol cyson ledled Cymru i bob gofalwr maeth cymeradwy.

Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Arbenigol Gwarcheidiaeth Arbennig sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector statudol a'r trydydd sector ynghyd â defnyddwyr gwasanaeth. Bydd yn ceisio datblygu dull gweithredu gwell a chyson sy'n seiliedig ar anghenion i gefnogi teuluoedd Gwarcheidiaeth Arbennig ledled Cymru.

## **Mabwysiadu**

Mae 'Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu' Cymru yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i bob teulu sy'n mabwysiadu yng Nghymru ym mhob cam o'r broses fabwysiadu. Yr Ymrwymiad yw'r ddogfen gyntaf o'i bath yn y DU, a'i nod yw sicrhau bod teuluoedd sy'n mabwysiadu yng Nghymru yn teimlo'n hyderus bod gwybodaeth a chymorth ar gael pan fydd angen, gan weithwyr proffesiynol sydd â gwybodaeth arbenigol am fabwysiadu ac anghenion gofal plant.

Fel rhan o wasanaeth mabwysiadu modern i Gymru, ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, rydym yn canolbwyntio ar wella cyswllt plant mabwysiedig gyda'u teuluoedd biologol lle mae'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.


Mae'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyhoeddi ymddiheuriad ffurfiol ar ran Llywodraeth Cymru am y profiadau a'r effaith gydol oes ar bawb sydd wedi'u heffeithio gan arferion mabwysiadu hanesyddol yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i ystyried y cymorth y gellir ei ddarparu i gefnogi pobl a gafodd eu heffeithio gan arferion o'r fath.

Er bod mabwysiadwyr yn derbyn cymorth drwy gydol y broses fabwysiadu, mae angen cymorth dilynol gan gyflogwyr hefyd er mwyn helpu mabwysiadwyr a'r rhai sy'n aros i blentyn ymuno â'u teulu. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru wedi lansio pecyn cymorth newydd i gyflogwyr er mwyn helpu busnesau a sefydliadau i wella eu cefnogaeth i weithwyr sy'n mabwysiadu neu sy'n aros i fabwysiadu.

# Rhai o'r uchafbwyntiau ar gyfer y chwe mis nesaf

Rydym yn parhau i ddatblygu'r gwaith rydym wedi'i ddechrau eisoes ar y Rhaglen Drawsnewid, fel yr amlinellir uchod.

## Cerrig Milltir ein Rhaglen Drawsnewid





Bydd llais y plentyn yn parhau i fod yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud, a byddwn yn adeiladu ar yr **Uwchgynhadledd gyntaf i Bobl sy'n Gadael Gofal** trwy weithio gyda Voices from Care i gynnal uwchgynhadledd ranbarthol yn y Gogledd ym mis Hydref ar gyfer pobl sy'n gadael gofal.

Yn ystod gweddill y flwyddyn hon, byddwn ni'n canolbwyntio'n benodol ar gyhoeddi a rhannu'r Siarter Rhianta Corfforaethol sy'n allweddol i gyflwyno Datganiad yr Uwchgynhadledd i Bobl sy'n Gadael Gofal.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol er mwyn ystyried camau ar gyfer Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu canllawiau i gefnogi camau gweithredu a phennod benodol ar Rhianta Corfforaethol i gefnogi awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol yn Rhan 6 o'r Cod Ymarfer yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Bydd ymgynghoriad ar y bennod a'r canllawiau drafft yn cael ei gynnal y gaeaf hwn.

**Ar gyfer y Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol**, bydd gwaith yn cael ei wneud i ehangu'r broses ymgynghori, gan ddefnyddio'r safonau cenedlaethol drafft fel sylfaen i fod yn hyderus bod fersiwn derfynol y Fframwaith Ymarfer yn mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant dros amser. Byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr ledled Cymru i sicrhau bod y fframwaith ymarfer yn cael ei roi ar waith a'i fod yn ateb anghenion plant.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn **Maethu Cymru** gan ddefnyddio ein buddsoddiad i sicrhau ein bod yn gallu recriwtio teuluoedd maeth sy'n diwallu anghenion amrywiol y plant sydd angen gofal a chymorth. Byddwn yn parhau i ddarparu cynnig craidd cyson o gymorth i deuluoedd maeth ledled Cymru er mwyn sicrhau bod ein teuluoedd maeth yn gallu derbyn cymorth ar sail angen pryd bynnag y maent ei angen a ble bynnag y maent wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae **Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru wedi'i lansio** ac mae'n cynnig pecyn hyfforddiant, cymorth a gwobrau sydd ar gael yn gyson i holl ofalwyr maeth awdurdodau lleol Cymru. Mae gwaith yn parhau gydag awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn helpu i gyflwyno'r elfennau gwahanol a amlinellir yn yr ymrwymiad. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y model ariannol yn ymwneud â'r Isafswm Lwfans Cenedlaethol a chyfres newydd o drefniadau talu wedi'u cysoni.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:  
[plantsynderbyngofal@llyw.cymru](mailto:plantsynderbyngofal@llyw.cymru)  
[lookedafterchildren@gov.wales](mailto:lookedafterchildren@gov.wales)**

# Taflen ffeithiau: Cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Dyma rai o'r prosiectau rydym ni'n eu hariannu drwy ein Cynllun Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy:



## Ar Trac - Cymorth i Ferched Cymru

Mae'r prosiect Ar Trac yn cefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi neu wedi gweld cam-drin domestig ac sy'n cael anawsterau gyda'u perthnasau teuluol a gyda chyfoedion. Trwy fynd i'r afael â'r anawsterau hyn a datblygu cryfderau yn ystod plentyndod, nod Ar Trac yw lleihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, a gwella llesiant corfforol a meddyliol yn ddiweddarach mewn bywyd.

## Rhaglen Eiriolaeth Rhieni - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Nod y prosiect yw cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ar gyfer ymyriadau teuluol gyda'r nod o leihau nifer y plant sy'n cael eu derbyn i'r system ofal yng Nghymru. Prif nod y prosiect yw cyflwyno ymyriadau ataliol a sicrhau bod hawliau'r plentyn yn cael eu cynnal yn llawn.

## Prosiect Undod - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol

Mae Prosiect Undod yn cynnig cymorth i fenywod ifanc beichiog a mamau ifanc hyd at 25 oed â phrofiad o fod mewn gofal ledled Cymru. Mae'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol un-i-un gyda'r nod o gadw teuluoedd gyda'i gilydd, lle bynnag y bo modd.

## Skills PLUS (Skills +) - Gweithredu dros Blant

Mae Skills+ yn wasanaeth ar gyfer Pobl Ifanc 14-24 oed â Phrofiad o fod mewn Gofal. Mae'r prosiect yn darparu Llwybrau pwrpasol sy'n helpu pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i bontio i fyd oedolion, trwy ddefnyddio ymyriadau cysylltiedig amrywiol sydd â'r nod penodol o leihau eu gwendidau er mwyn sicrhau bod ganddynt y cadernid, y sgiliau,



<p>Mae'r prosiect hwn yn darparu cymorth cofleidiol dwys i famau â phrofiad o fod mewn gofal ac mae'n helpu i ddatblygu rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid ar eu cyfer. Nod y prosiect yw helpu i dorri'r cylch lle mae plant y mamau hyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu derbyn i ofal eu hunain, a helpu i sicrhau nad ydynt yn destun prosesau amddiffyn plant maes o law.</p>	<p>a'r adnoddau i'w helpu i ymdopi'n gadarnhaol â heriau byw'n annibynnol.</p>
<p><b>Cynorthwyo Plant a Phobl Ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yng Nghymru – EYST</b></p> <p>Mae'r gwasanaethau yn wasanaeth atgyfeirio ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol 0-25 oed sydd ag anghenion cymorth 'ychwanegol' neu 'luosog'. Nod y gwasanaeth yw gwella canlyniadau llesiant Plant a Phobl Ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol sydd ag anghenion gofal cymdeithasol, trwy wasanaeth cymorth sy'n ystyriol o hil, ffydd a diwylliant, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar hawliau, gan ddatblygu a chysylltu â gwaith EYST gyda phlant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol yn Abertawe.</p>	<p><b>Cefnogi Pobl Ifanc yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Abertawe - Plattform</b></p> <p>Mae Prosiect Pobl Ifanc Plattform yn darparu lle diogel fel bod pobl ifanc 13-16 oed yn gallu oedi, anadlu a chysylltu. Trwy ddarparu rhaglen lesiant, cefnogaeth gan gymheiriaid a chymorth un-i-un, bydd pobl ifanc yn cael y cyfle i archwilio beth mae iechyd meddwl a llesiant yn ei olygu iddyn nhw. Byddant yn cael cyfle i gyfarfod ag eraill sy'n wynebu heriau tebyg, rhannu straeon am adferiad a strategaethau bob dydd ar gyfer llesiant. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc hyfforddi i fod yn fentoriaid cymheiriaid, a bydd yn rhoi plattform i bobl ifanc lunio cyfeiriad y prosiect.</p>
<p><b>Rhwydwaith Maethu Cymru</b></p> <p>Nod y Rhwydwaith Maethu yw cyflwyno rhaglen waith a fydd yn grymuso'r gymuned faethu i wella canlyniadau llesiant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o fewn y fframwaith llesiant cenedlaethol. Maent yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal 'Llinell Faethu Cymru', sef gwasanaeth gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel sy'n cynnig cymorth dros y ffôn ac adnoddau digidol, pecynnau cymorth a gweminarau hygyrch;</li> <li>• Cynnig Datblygiad Proffesiynol ar gyfer y gweithlu maethu trwy gynnal digwyddiadau a gweminarau sydd ar gael ledled Cymru;</li> <li>• Darparu cyngor a chyfryngu annibynnol i bob gofalwr maeth a staff gwasanaethau er mwyn helpu i ddatrys gwrthdaro, cwynion neu honiadau;</li> <li>• Cefnogi ymarfer da er mwyn lleihau ac atal digwyddiadau sy'n gallu arwain at fethiant lleoliad a dadgofrestru.</li> </ul>	

# Taflen ffeithiau: Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Plant - Taflen Ffeithiau Allweddol

Defnyddiwyd cyfanswm o £3.5m o gyllid Llety Rhanbarthol gan 15 prosiect ym mhob rhanbarth o Gymru gan arwain at y canlynol:

- Creu 26 o welyau newydd o ddarpariaeth ranbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth
- Darparu cymorth i 62 o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth

Yn 2022/23, neilltuodd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol oddeutu £50m o gyllid Llywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i fuddsoddi mewn 86 o brosiectau ledled Cymru.

Rydym yn buddsoddi £1.6 miliwn o gyllid yn ystod tymor y Senedd hon trwy'r Gronfa Newid Plant â Phrofiad o fod mewn Gofal, er mwyn cynyddu'r gwasanaethau eiriolaeth i rieni sy'n bodoli eisoes ledled Cymru.

Rydym wedi buddsoddi £68m yn ychwanegol yn y sector dros dair blynedd er mwyn cefnogi a sbarduno ein gweledigaeth i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.

Ers 2017, rydym wedi darparu £1m bob blwyddyn ar gyfer cronfa Dydd Gŵyl Dewi sy'n darparu arian yn uniongyrchol i bobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal i'w helpu i fanteisio ar gyfleoedd a fydd yn gymorth iddynt ddechrau byw yn annibynnol.

Cymerodd dros 40 o blant â phrofiad o fod mewn gofal ran yn yr Uwchgynhadledd gyntaf i Bobl sy'n Gadael Gofal a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2022. Hwn oedd y digwyddiad cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymuno â Chynllun Interniaeth Pobl sy'n Gadael Gofal y Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2023 ac mae'n cynnig tair rôl yn y rownd recriwtio ddiweddaraf.

Ms Amanda Wilkinson  
Director, Universities Wales

Jayne Bryant MS  
Chair, Children, Young People and Education Committee  
Senedd Cymru

13 September 2023

Dear Jayne

### International Students

Thank you for your letter dated 6 July 2023 regarding mental health support for international students in higher education. I welcome the opportunity to respond to your queries.

Universities Wales recognises that support for physical and mental wellbeing should be clearly signposted to international students, and student support services should reflect the full diversity of the international student community, in terms of culture and nationality, and mode of study.

Universities have an important role in supporting international students to navigate life in Wales, through the promotion of spaces and structures providing information on key areas such as access to healthcare, accommodation, transport, and advice on finances.

Regarding living costs, international students are required to have a certain level of funding for themselves and for their families, as part of the requirements for a Tier 4 Visa. Although some there are different evidence requirements in place for some countries (such as the US or countries in the EU), most international students need to evidence that they can pay for their course for one academic year and that they have access to £1023 per month for courses outside of London. Each dependant also requires a further £680 per month. This is made very clear in the [visa and application processes](#).

Universities take their duties in relation to Tier 4 requirements very seriously both for the benefit of students and to ensure institutions can continue to offer international students the opportunity to study in Wales. UUK has recently [published guidance](#) on best practice in this area.

Our International Network, chaired by Dr Ben Calvert, has committed to agreeing a set of principles for international recruitment including the expectations on signposting, engagement with local partners and provision of advice and guidance.

Please let me know if you require any further information.

Yours sincerely



Ms Amanda Wilkinson  
Director, Universities Wales

**Jeremy Miles AS/MS**

**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language**



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

Jayne Bryant AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

13 Medi 2023

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf, ynghylch y canllawiau statudol am addysg ddewisol yn y cartref, a'r ohebiaeth rydych wedi'i chael gan addysgwyr cartref.

I lawer o deuluoedd, byddai'r penderfyniad i addysgu yn y cartref wedi bod yn ddewis cadarnhaol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod na fyddai hyn wedi bod yn wir i bawb efallai. Dyma un o'r rhesymau pam mae'r canllawiau statudol newydd, a gyhoeddwyd ym mis Mai, mor bwysig i sicrhau bod pob dysgwr yn cael addysg addas ac effeithlon.

Wrth ddatblygu'r cynigion ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ystod eang o ddulliau i ymgysylltu ac ymgynghori'n llawn â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus ar-lein a digwyddiadau ymgynghori rhanbarthol wyneb yn wyneb. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i bob ymateb ynghylch y canllawiau statudol, gan gynnwys yr ymatebion a oedd yn cyfeirio at ddeddfwriaeth hawliau dynol a diogelu data. Mae rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad ar gael ar [wefan](#) Llywodraeth Cymru.

Defnyddiwyd adborth y cyfarfodydd ymgynghori, a'r digwyddiadau a gynhaliwyd gydag addysgwyr cartref a grwpiau sy'n cynrychioli addysgwyr cartref, i lywio sawl diwygiad pellach i'r canllawiau statudol a llawlyfr addysgwyr cartref.

Mae fy swyddogion wedi mynd ati i ymgysylltu â grwpiau, ac fe wnes i gwrdd ag Education Otherwise. Yn fwy diweddar, yn dilyn trafodaethau pellach gydag un o'r grwpiau sy'n cynrychioli addysg ddewisol yn y cartref, rwyf wedi cytuno ar fân-

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


ddiwygiadau i'n canllawiau ers eu cyhoeddi. Rwyf hefyd wedi ymrwymo eisoes i werthuso'r canllawiau, i wneud yn siŵr bod modd asesu eu heffaith, a sut mae awdurdodau lleol yn eu defnyddio. Caiff y gwerthusiad ei gynnal yn annibynnol, gan gychwyn ym mis Mai 2024.

I sicrhau bod teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn ymwybodol o'r rheswm pam mae'r newidiadau i'r canllawiau yn bwysig, ac i gynnig eglurder ar y materion y cyfeirir atynt mewn gohebiaeth, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru sesiynau ymgysylltu pellach rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac addysgwyr cartref ar 26 a 28 Mehefin. Roedd y sesiynau yn gyfle i addysgwyr cartref drafod eu pryderon gyda Llywodraeth Cymru, ac i swyddogion gynnig sicrwydd ynghylch gwahanol elfennau o'r canllawiau a'r llawlyfr. Roedd adborth fy swyddogion yn dynodi bod y sesiynau yn adeiladol ac yn gyfle i bawb gael dweud eu dweud mewn lleoliad cefnogol a niwtral.

Yn dilyn y sesiynau, tynnodd y Comisiynydd Plant ynghyd bob ymholiad a godwyd yn ystod y sesiynau. Grwpiwyd yr ymholiadau hyn yn themâu, ac mae fy swyddogion wedi drafftio papur yn nodi manylion yr ymatebion, a gaiff ei rannu ag addysgwyr cartref gan y Comisiynydd Plant. Mae'r papur, sydd ynghlwm yn Atodiad 1, yn cynnwys ymatebion i'r pryderon a godwyd yn yr ohebiaeth a ddaeth i law'r Pwyllgor. Fodd bynnag, efallai y byddwch am nodi bod llawer o'r sylwadau a gyflwynwyd wedi'u hanfon at Lywodraeth Cymru hefyd, ac felly bod y gohebwyd wedi cael ymatebion gan fy swyddogion.

Mae hawliau plant yn ganolog i'r cynigion ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref, ac rwyf wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod pob plentyn yn cael addysg sy'n eu galluogi i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'w dyfodol. Nawr bod y canllawiau wedi cael eu cyhoeddi, bydd fy swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu'r canllawiau a pharhau â'r ddeialog gyda chymuned addysgwyr cartref, i ofalu bod safbwyntiau teuluoedd, gan gynnwys plant sy'n cael eu haddysgu gartref, yn cael eu clywed.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 98

## Fforymau Addysg Ddewisol yn y Cartref Comisiynydd Plant Cymru 26 a 28 Mehefin 2023

### Cefndir

Hwylusodd Comisiynydd Plant Cymru ddwy sesiwn rhwng Llywodraeth Cymru a theuluoedd Addysg Ddewisol yn y Cartref, i ateb unrhyw ymholiadau a all fod gan deuluoedd mewn perthynas â'r canllawiau statudol newydd a'r llawlyfr i rieni ar Addysg Ddewisol yn y Cartref, a gyhoeddwyd 12 Mai a 9 Mehefin, yn y drefn honno.

Anfonwyd gwahoddiad gan Lywodraeth Cymru ar ran Comisiynydd Plant Cymru i awdurdodau lleol ei rannu â'u rhwydweithiau Addysg Ddewisol yn y Cartref a'r rhanddeiliaid hynny a oedd eisoes wedi mynegi diddordeb yn y maes hwn. Fel rhan o'r gwahoddiad hwnnw, gofynnwyd i deuluoedd e-bostio Comisiynydd Plant Cymru i gofrestru eu diddordeb ac yna rhoddwyd cyfarwyddiadau iddynt ar sut i ymuno. Er bod 50 o lefydd wedi'u dyrannu ar gyfer pob digwyddiad yn wreiddiol, dangosodd mwy na hyn ddiddordeb a dyrannwyd rhai lleoedd ychwanegol cyn y dyddiad cau bythefnos cyn y digwyddiad.

Oherwydd cyfyngiadau amser, ni lwyddwyd i ateb cwestiynau a ofynnwyd gan y rhai a oedd yn bresennol yn ystod y sesiynau ac felly rhoddwyd atebion i'r ymholiadau yn y 'bar sgwrsio', ac mae ymholiadau dilynol a anfonwyd dros e-bost i Lywodraeth Cymru yn dilyn y sesiynau wedi'u nodi isod.

Lle'r oedd y cwestiynau'n cynnwys datganiadau yn seiliedig ar brofiadau neu farn bersonol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylwadau, heblaw i ateb y cwestiwn ac i gywiro camddechongliadau o'r gyfraith neu bolisiâu.

## Cyffredinol

Tudalen y pecyn 100	1. A allech grynhoi'r hyn sy'n newydd o ran yr hyn rydym newydd ei weld?	<p>Diben y canllawiau yw cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau presennol mewn perthynas â phlant a addysgir gartref a'u helpu i ddarparu cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Ymysg y newidiadau penodol mae:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• disgrifiad manylach o beth yw 'addysg addas ac effeithlon' yn cynnwys nodweddion awgrymedig fel y gall ALLau wneud penderfyniad haws ynghylch a yw plentyn yn derbyn addysg addas</li><li>• adran fanwl ar gyfer ALLau ar asesu addasrwydd addysg</li><li>• pwyslais ar weld y plentyn</li><li>• eglurder ar y dyletswyddau o dan y Ddeddf a'r Cod ADY newydd.</li><li>• mwy o fanylion ar gymorth i blant a addysgir gartref o gymharu â'r fersiwn flaenorol</li><li>• adran benodol ar fynediad i arholiadau</li><li>• manylion ar Orchmynion Mynychu'r Ysgol</li><li>• adran fwy cynhwysfawr ar ddiogelu</li><li>• cyfraith achosion ddiweddar Goodred v Cyngor Dinas Portsmouth</li></ul>
---------------------	--	--

## Thema 2: Cyfarfodydd ag awdurdod lleol a chydberthnasau â nhw

2.	Beth sy'n digwydd os bydd rhieni yn gwrthod cyfarfod â'u plentyn neu nhw eu hunain?	Mae Adran 4.21 o ganllawiau statudol Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cydnabod y gall rhiant neu blentyn o allu Gillick wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol.
3.	Nid yw'r canllawiau'n nodi hynny'n glir. Mae naill ai'n orfodol neu ddim ac ni ddylai fod unrhyw effeithiau negyddol os bydd rhieni a phlant a addysgir gartref yn penderfynu na fyddai cyfarfod wyneb yn wynebu o fudd i'r plentyn.	Er bod rhieni'n rhydd i wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol, mae'n amheus a all awdurdod lleol asesu addasrwydd addysg yn rhesymol heb weld y plentyn a chyfathrebu ag ef. Mater i'r awdurdod lleol unigol yw'r penderfyniad hwn.

Tudalen y pecyn 10 <sup>1</sup>	<p>4. A ellir egluro hyn yn y canllawiau – mae'r gair 'dylai' weld yn y canllawiau yn awgrymu bod cyfarfod yn ofynnol fel arfer? Byddai hyn yn diystyru dymuniadau plentyn nad yw am gwrdd â dieithryn.</p>	<p>Mae Adran 4.21 o'r canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cydnabod “Fodd bynnag, nid oes rheidwydd ar rieni a phlant o allu Gillick â'r awdurdod lleol ac maent yn rhydd i wrthod cyfarfod os byddant yn dymuno”.</p> <p>Hefyd, mae adran 4.22 o'r canllawiau yn nodi “Gall fod achlysuron lle nad yw er budd gorau'r plentyn i'r awdurdod lleol gyfarfod ag ef”.</p> <p>Mae Adran 4.27 o'r canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amlinellu efallai nad cyfarfod yw'r unig ddull i'r awdurdod lleol gael sicrwydd bod yr addysg yn addas. Gallai awdurdod lleol, os byddai o'r farn bod hynny'n briodol, anfon holiadur rhag-gyfarfod i'w gwblhau ar y cyd gan deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref a'u plant. Bydd hyn yn rhan o ddull mwy cyfannol i asesu addasrwydd yr addysg. Gall yr awdurdod lleol ddefnyddio'r ymateb i'r holiadur i lywio ei drafodaeth â rhieni sy'n addysgu yn y cartref a'u plant.</p> <p>Mae Adran 2.26 o'r llawlyfr Addysg Ddewisol yn y Cartref hefyd yn nodi y gall fod ffyrdd eraill y gallai rhiant ddangos bod y plentyn yn cael addysg addas ac effeithlon ac mae'n rhoi enghreifftiau i rieni.</p>
5.	<p>Sut y gwneir y penderfyniad ynghylch a yw'n briodol gweld y plentyn ai peidio? Yn enwedig mewn perthynas â phethau fel anableddau cudd, niwro amrywiaeth ac iechyd meddwl er enghraifft. Pwy yn yr ALI sy'n gymwys i wneud y penderfyniad hwn, tybed?</p>	<p>Swyddogion unigol yn yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am hyn.</p> <p>Mae Adran 4.22 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn amlinellu y gall fod adegau lle na fydd er budd gorau'r plentyn i'r awdurdod lleol gyfarfod ag ef, neu mewn rhai amgylchiadau, gall yr awdurdod lleol ddod i'r casgliad heb weld y plentyn na chyfathrebu ag ef ei fod yn cael addysg addas. Lle caiff casgliad o'r fath ei gyrraedd, dylid pennu dyddiad priodol i'r penderfyniad gael ei adolygu, gan ystyried amgylchiadau unigol y plentyn.</p> <p>Lle mae ADY wedi'i nodi ar gyfer dysgwyr a allai gynnwys diagnosis</p>



		<p>niwrolegol, iechyd meddwl, byddai'n arfer dda i'r swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref drafod â chydweithwyr sy'n gweithio gyda thimau statudol ac ochr yn ochr â nhw i bennu ffyrdd amgen o ddarparu tystiolaeth</p> <p>Lle nad oes angen wedi'i nodi ar gyfer dysgwyr a bod y rhieni'n teimlo nad yw'n briodol i'r plentyn gael ei weld, bydd angen i'r swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref geisio safbwyntiau timau statudol sydd â phrofiad o ddelio â dysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, o ran a yw cyfarfod er budd gorau'r plentyn.</p>
6.	<p>Mae'r gyfraith yn nodi mai'r rhiant sy'n gyfrifol am addysg y plentyn, nid yr awdurdod lleol. Mae'r gyfraith yn caniatáu addysg yn y cartref. Gan nad yw'r cyfreithiau hyn wedi cael eu newid, ar ba sail y mae'r awdurdod lleol yn mynnu cael cyfarfodydd i asesu addasrwydd yr addysg rwy'n ei darparu i'm plentyn?</p>	<p>Mae gan rieni gyfrifoldeb i sicrhau bod eu plant yn cael addysg addas ac effeithlon naill ai yn yr ysgol neu fel arall. Fodd bynnag, yr awdurdod lleol sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i benderfynu ar addasrwydd yr addysg. Rhaid iddynt wneud y canlynol:</p> <p>a) gwneud trefniadau i nodi plant nad ydynt yn cael addysg addas, a b) cymryd camau os bydd yn ymddangos nad yw'r plentyn yn cael addysg addas. Nodir hyn o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996.</p> <p>Mae Adran 437 o'r Ddeddf Addysg yn nodi, os bydd yn ymddangos nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eu hardal yn cael addysg addas, naill ai drwy fynd i'r ysgol neu fel arall, y bydd awdurdodau lleol yn rhoi rhybudd sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i riant roi sicrwydd bod y plentyn yn cael addysg o'r fath.</p> <p>Mae dyletswydd awdurdod o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 (ac o dan adran 437) yn sail ddigonol dros wneud ymholiadau anffurfiol â'r rhiant/gofalwr i benderfynu pa fath o addysg y mae'r plentyn yn ei gael a ph'un a yw'r awdurdod lleol yn credu bod hyn yn addas ac yn effeithlon.</p>
7.	<p>A ydych yn deall pam y mae gan y gymuned gymaint o gwestiynau a phryderon ynghylch cynnwys y canllawiau? Yn y bôn, mae'n gofyn i un person,</p>	<p>Nid yw'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn newid dyletswyddau presennol awdurdod lleol. Mae'r canllawiau'n ei gefnogi i gyflawni ei swyddogaethau ac maent yn egluro'r rhain o fewn cyd-destun</p>

Tudalen y pecyn 103	<p>cynrychiolydd unigol o'r awdurdod lleol, lunio barn ynghylch pa mor dda y mae rhiant yn magu ei blentyn heb UNRHYW dystiolaeth bod angen gwneud hynny. Wyddoch chi faint o straen sydd ar deuluoedd a pha mor anodd ydyw cael un person, un dieithryn nad ydym yn gwybod braidd ddim amdano, yn penderfynu pa mor dda y mae rhiant yn magu ei blentyn ei hun oherwydd dewis y mae'r teulu wedi bod am ei wneud neu wedi bod angen ei wneud i wrthod yr opsiwn o ddarpariaeth addysgol y wladwriaeth.</p>	<p>Addysg Ddewisol yn y Cartref.</p> <p>Rôl a dyletswydd statudol yr awdurdod lleol yw penderfynu pa addysg a gaiff ei darparu a ph'un a yw'n addas ac yn effeithlon. Nid oes asesiad na barn ynghylch sut y caiff y plentyn ei fagu na dewisiadau bywyd rhiant. Mae gan riant yr hawl i ddewis addysgu ei blentyn gartref, fodd bynnag, nid yw addysg yn y cartref yn hawl awtomatig i rieni; mae'n dibynnu ar ddarpariaeth addysg addas ac effeithlon.</p> <p>Mae Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi'r ddyletswydd a roddir ar rieni i sicrhau addysg amser llawn sy'n addas ac yn effeithlon i blant o oedran ysgol gorfodol, naill ai drwy anfon y plentyn i'r ysgol neu drwy dulliau eraill – un o'r dulliau hyn yw bod plentyn yn penderfynu addysgu yn y cartref. Wedi'i gydbwyso yn erbyn y penderfyniad hwn y mae'r disgwyliad y gall awdurdodau lleol asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir gan rieni. Er mwyn i awdurdod lleol gyflawni'r swyddogaeth honno, nid yw'n afresymol i awdurdodau lleol ofyn i rieni am eu dull gweithredu a'r addysg a ddarperir ganddynt.</p> <p>Os ystyrir nad yw'r addysg a ddarperir yn addas nac yn effeithlon, bydd yn rhaid i awdurdodau lleol gael eu prosesau eu hunain ar waith i uwchgyfeirio achosion lle gall fod angen cymryd camau mwy ffurfiol.</p>
8.	<p>Mae fy awdurdod lleol eisoes wedi fy mygwth â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol am wrthod ysgrifennu adroddiad er i mi roi adroddiad iddo y flwyddyn flaenorol. Ac er i mi lwyddo i addysgu fy mhlant hŷn, sydd bellach yn y brifysgol, o gartref am 25 mlynedd. Nid oedd yn credu nad oeddwn yn darparu addysg addas. Defnyddio hynny fel bygythiad oeddent. Sut y caiff y math hwn o ymddygiad ei osgoi.</p> <p>Codwyd cwestiwn tebyg mewn gohebiaeth ar wahân:</p>	<p>Caiff hyn ei egluro o dan Gwestiwn 5. Rhaid i awdurdodau lleol gael sicrwydd bod addysg addas yn cael ei darparu. Mae dyletswydd awdurdod lleol o dan Ddeddf Addysg 1996 (adran 437) yn sail ddigonol dros wneud ymholiadau anffurfiol â'r rhiant/gofalwr i benderfynu pa fath o addysg y mae'r plentyn yn ei gael a ph'un a yw'r awdurdod lleol yn credu bod hyn yn addas ac yn effeithlon. Mae'r canllawiau'n egluro y dylai'r awdurdod lleol geisio cael y wybodaeth angenrheidiol ac ymgysylltu â'r teulu cyn rhoi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol. Os bydd y rhiant/gofalwr yn gwrthod rhoi unrhyw wybodaeth ac na all yr awdurdod lleol asesu'r addysg a ddarperir, gall orfod rhoi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol.</p>

Tudalen y p. 104	<p>Beth sy'n digwydd pan fydd rhieni'n gwrthod rhoi "samplau" o "waith" am nad ydyn nhw neu eu plentyn yn rhoi cydsyniad am resymau cyfreithiol, moesegol, athronyddol neu addysgol?</p>	<p>Mae Adran 5.3 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi "Yn niffyg gwybodaeth sy'n awgrymu bod plentyn yn cael addysg addas, ac os yw'r rhieni'n gwrthod ateb am reswm nad yw'n gysylltiedig â'r addysg, yr unig gasgliad y mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol ddod iddo yw ei bod yn ymddangos nad yw'r addysg yn y cartref yn addas".</p> <p>Mae'r canllawiau'n cydnabod bod y dull gweithredu y mae rhieni sy'n addysgu o gartref yn ei gymryd yn debygol o fod yn seiliedig ar eu hathroniaeth neu eu safbwyntiau, a gall absenoldeb asesiad ffurfiol fod yn un o nodweddion y ddarpariaeth addysg. Caiff hyn ei ystyried yn llawn gan yr awdurdodau lleol ond rhaid iddynt allu ymgymryd â'u dyletswyddau statudol o hyd. Mae'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi 4.33: 'Mae cynsail cyfreithiol wedi pennu y gall awdurdodau lleol wneud ymholiadau anffurfiol i rieni er mwyn cael manylion y ddarpariaeth addysgol a wneir ar gyfer eu plentyn'.</p>
p. 104	<p>O'r ymateb i'r canllawiau statudol hyd yma, a ydych chi'n credu y bydd y canllawiau'n adeiladu pontydd rhwng awdurdodau lleol ac addysgwyr yn y cartref?</p>	<p>Diben y canllawiau yw egluro gofynion presennol yn y gyfraith a helpu i sicrhau bod dull cyson ar draws yr holl awdurdodau lleol a sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi i ddefnyddio'r gwasanaethau a'r budd-daliadau cyffredin sydd ar gael i blant a phobl ifanc mewn addysg prif ffrwd.</p> <p>Wrth i'r canllawiau gael eu rhoi ar waith, rydym yn cydnabod yr angen am ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n weddill.</p>
10.	<p>Ydych chi'n teimlo y bydd gorfodi cyfarfodydd yn rhoi hwb i gydberthnasau cadarnhaol?</p>	<p>Fel yr amlinellir yn yr ymateb i Gwestiwn 2, mae rhieni'n rhydd i wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol, fodd bynnag, mae'n amheus a all awdurdod lleol asesu addasrwydd addysg yn rhesymol heb weld y plentyn a chyfathrebu ag ef. Mater i'r awdurdod lleol unigol yw hyn. (Gweler adran 4.21 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref).</p>
11.	<p>O ystyried bod y llawlyfr yn dweud na ddylai tiwtoriaid</p>	<p>Bydd gan awdurdodau lleol eu systemau a'u prosesau eu hunain ar gyfer</p>

	<p>gwrdd â phlant ar eu pen eu hunain, pa fesurau sydd ar waith i ddiogelu swyddogion awdurdodau lleol wrth gynnal cyfarfodydd, yn enwedig lle y gall cyfarfodydd fod yn cael eu cynnal am fod rhieni'n teimlo pwysau neu y bydd canlyniadau negyddol os na fyddant yn gwneud hynny, neu pan gall eu presenoldeb, cwestiynau neu'r straen a ddaw yn sgil canlyniadau i fethu eu "plesio" wneud i blant sydd ag ADY strancio, neu gael pwl treisgar o ymladd neu ffoi.</p>	<p>cyfarfod â theuluoedd a dysgwyr a fyddai'n diogelu'r swyddog o'r awdurdod lleol, y rhiant a'r dysgwr.</p> <p>Mae'r trefniadau ar gyfer cyfarfodydd â dysgwyr ag ADY wedi'u hegluro o dan ymateb 5.</p>
12.	<p>A allant gyfarfod â phlant heb eu cyfweld? Eu gwylio mewn gwrs, er enghraifft?</p>	<p>Mae Adran 2.26 o lawlyfr Llywodraeth Cymru ar gyfer addysgwyr o gartref yn amlinellu'r ffyrdd gwahanol y gallai rhieni ddarparu tystiolaeth. Dylai teuluoedd drafod darparu tystiolaeth gyda'u hawdurdod lleol.</p>
13.	<p>Pam mai Gorchymyn Mynychu'r Ysgol yw'r ymateb i bryderon addysgol ynghylch addysg yn y cartref pan fydd ysgolion yn cael help a chymorth i wella – onid gwasanaeth cymorth addysg yn y cartref fyddai'r opsiwn cyfatebol?</p>	<p>Disgwylir i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech resymol i roi help a/neu gymorth i'r teulu. Mae'r canllawiau'n egluro y dylai'r awdurdod lleol geisio cael y wybodaeth angenrheidiol ac ymgysylltu â'r teulu cyn rhoi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol.</p> <p>Yn yr achos hwn, cynnig o gymorth yw hwn ac nid yw'r rhieni dan unrhyw rwymedigaeth i'w dderbyn.</p>
<p><b>Thema 3: Gwrthwynebu penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol</b></p>		
14.	<p>Mae awdurdodau lleol yn gwneud fel y mynnont. Maent yn creu eu hagenda eu hunain ac nid ydynt yn dilyn rheolau ac arferion gorau. Maent yn dweud celwydd, yn camgyfeirio ac yn camhysbysu. Pa ddiogelwch sydd i rieni mewn perthynas â hyn?</p>	<p>Annog arferion cyson rhwng pob awdurdod lleol yw un o nodau allweddol y canllawiau statudol newydd.</p> <p>Mae'r Pecyn Cymorth Ehangach yn egluro'r cyfrifoldebau statudol presennol ar awdurdodau lleol, sef: -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY os caiff ei hysbysu y gall fod gan y plentyn ADY</li> <li>• sicrhau bod gwasanaethau cwnsela yn cael eu darparu i ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref yn unol â'r cynnig sydd ar gael mewn</li> </ul>

Tudalen y p. yn 106		<p>ysgolion</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• darparu mynediad i gymorth i ieuenctid</li> <li>• darparu mynediad i gyngor gan Gyrfa Cymru</li> </ul> <p>Fel yr amlinellir yn yr ymateb i gwestiwn 13, disgwylir i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech resymol i roi help a/neu gymorth i'r teulu. Gall hyn gynnwys rhoi gwybodaeth i'r rhieni am wasanaethau ataliol a, lle y bo'n briodol, rhoi cydsyniad rhieni i gael atgyfeiriad i'r gwasanaethau ataliol hynny sydd ar gael yn lleol.</p> <p>Os bydd gan rieni unrhyw bryderon, cânt eu hannog i drafod y rhain â'r awdurdod lleol ac os byddant yn anfodlon o hyd, gall y rhieni ddilyn proses gwyno'r awdurdod lleol.</p> <p>Gall y rhieni hefyd gyfeirio eu pryderon at swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. <a href="http://www.complantcymru.org.uk">Cysyllta – Comisiynydd Plant Cymru (www.complantcymru.org.uk)</a></p>
16.	Beth fydd yn digwydd pan fydd y rhiant a'r ALL yn anghytuno? Nid oes proses apelio na chraffu heblaw mynd drwy'r llysoedd.	Fel arfer dda, caiff awdurdodau lleol eu cynghori i adolygu eu holl weithdrefnau a'u harferion yn rheolaidd, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig ag addysg yn y cartref. Dylai sefydliadau addysg yn y cartref a rheini sy'n addysgu yn y cartref a'u plant fod yn rhan o'r broses adolygu. Bydd adolygiadau effeithiol, ynghyd â dulliau o fynd i'r afael ag unrhyw gwynion, yn helpu i feithrin a chynnal partneriaeth fwy effeithiol.

**Thema 4: Cymwysterau / profiad / hyfforddiant swyddogion awdurdodau lleol**

16.		
-----	--	--

	<p>Pa gymwysterau a fydd gan swyddogion penderfyniadau awdurdodau lleol? Pa anableddau a hyfforddiant iechyd meddwl a roddir i swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref awdurdodau lleol? Pa athroniaethau y bydd swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref awdurdodau lleol wedi'u haddysgu ynddynt?</p>	<p>Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw penodi swyddogion sydd â'r sgiliau a'r profiadau angenrheidiol i ymgymryd â'r rôl hon, ac i ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus.</p> <p>Fodd bynnag, cafodd swyddogion awdurdodau lleol becyn hyfforddiant cyn rhoi canllawiau statudol newydd ar waith a oedd yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r athroniaethau, yr arddulliau dysgu a'r dulliau gweithredu gwahanol sy'n gysylltiedig ag addysg yn y cartref. Mae deunyddiau hyfforddi wedi'u hatodi, fel y cyfeiriwyd atynt yn yr ateb i gwestiynau 17/18.</p>
<p>17.</p> <p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen y pecyn 107</p>	<p>A ellir rhannu deunyddiau hyfforddi swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref â'r gymuned addysg yn y cartref?</p> <p>A fyddai'r adran cystal â sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o adnoddau a chynnwys a ddefnyddir wrth hyfforddi cyflogeion awdurdodau lleol ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref yn gwbl weledol i'r cyhoedd fel y gallwn werthuso pa mor ddefnyddiol neu briodol oeddent? Mae'n ymddangos y byddai hyn yn arbennig o bwysig wrth feithrin ymddiriedaeth a chyfathrebu gan nad oedd yn ymddangos bod unrhyw addysgwyr yn y cartref yn rhan o'r broses o ddatblygu'r hyfforddiant hwn.</p>	<p>Mae'r pynciau a gwmpesir a'r ffeiliau PowerPoint perthnasol wedi'u cynnwys fel atodiad gyda'r ddogfen hon.</p> <p>Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddwy seminar ar 28 Chwefror a 21 Mawrth 2023.</p> <p>Diben y seminarau hyn oedd hysbysu awdurdodau lleol yng Nghymru y caiff canllawiau Addysg Ddewisol yn y Cartref eu cyhoeddi cyn hir ac i hwyluso trafodaeth ynghylch y canllawiau, cyfrifoldebau awdurdodau lleol ac i godi ymwybyddiaeth o arferion gorau ledled Cymru wrth weithio gydag addysgwyr yn y cartref.</p> <p>Roedd y seminarau'n wirfoddol, a chymerodd pob awdurdod lleol yng Nghymru ran gyda rhai yn cyfrannu deunyddiau ac yn arwain elfennau o'r drafodaeth.</p> <p>Cynhaliwyd y cyfarfodydd wrth i'r canllawiau drafft gael eu cadarnhau i'w cyhoeddi. Ffocws y sesiynau hyn oedd cyfrifoldebau awdurdodau lleol fel yr amlinellwyd ac ni chafwyd cyfle i drafod y drafft.</p> <p>Gan gyfeirio'n benodol at y PowerPoint ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr, rhoddodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru gyflwyniad ar astudiaethau academaidd ar gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac addysg yn y</p>

Tudalen y pŵc p. 108		<p>cartref. Diben y cyflwyniad oedd tynnu sylw at y canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• nad ffordd o fyw nomadaidd oedd sail y penderfyniad i addysgu yn y cartref bob amser</li> <li>• yr amrywiaeth o ran arferion yn yr awdurdodau lleol a ymatebodd yn Lloegr</li> <li>• yr angen i swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref awdurdodau lleol gydgyssylltu â'r gwasanaeth lleol i deithwyr</li> <li>• bod argymhellion yr adroddiad hwn yn fwy eang o lawer na'r darpar ganllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref</li> </ul> <p>Yn dilyn y cyflwyniad hwn, aeth un o swyddogion awdurdod lleol o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd â phrofiad o addysgu yn y cartref ati i rannu ei brofiadau ac i roi cyngor i gydweithwyr wrth asesu addasrwydd addysgu yn y cartref a rhyngweithio â'r cymunedau hyn.</p>
	<p>Pa brofiad uniongyrchol o addysgu yn y cartref sydd gan <i>staff Llywodraeth Cymru</i>, sy'n eu galluogi i hyfforddi eraill?</p>	<p>Mae gweision sifil yn ddiuedd, ac nid safbwyntiau personol yw'r cynigion na'r polisiau. Mae gan staff Llywodraeth Cymru brofiad yn datblygu polisiau ac yn rhoi cyngor i weinidogion ar amrywiaeth o feysydd, wedi'u llywio gan unigolion sydd â diddordeb allweddol neu brofiad penodol.</p> <p>Mae'r swyddog o Lywodraeth Cymru a gynhaliodd yr hyfforddiant a roddwyd i staff awdurdodau lleol yn swyddog awdurdod lleol profiadol ar secondiad sydd â phrofiad o gefnogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ac sy'n ymwybodol o'r ffactorau a all gyfrannu at benderfyniad riant i addysgu yn y cartref.</p> <p>Cefnogwyd yr hyfforddiant gan swyddogion awdurdod lleol presennol sy'n gweithio yn y maes hwn drwy roi cyflwyniadau perthnasol gan gynnwys cymhwysiad cyffredinol y canllawiau statudol i gyflawni dyletswyddau statudol awdurdodau lleol, mewn meysydd penodol (e.e., dulliau athronyddol i addysgu addas ac effeithlon (yn unol â'r canllawiau), polisi</p>

		Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac ADY).
19.	Ai disgresiwn swyddog penodol yw p'un a yw o'r farn bod tystiolaeth yn addas? Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr rhwng pobl gefnogol ac empathetig i ddiwylliant o ddrwgdeimlad ac amheuaeth mewn awdurdod lleol arall.	Prif ddiben y canllawiau statudol yw hyrwyddo cysondeb ledled Cymru ac mae adrannau 4.1 i 4.18 o'r canllawiau'n rhoi arweiniad clir i swyddogion awdurdodau lleol.
<b>Thema 5: Cyfrifoldebau / rolau awdurdodau lleol / Llywodraeth Cymru a gwerthusiad o'r canllawiau</b>		
Tudalen y Necyn 109	20. Sut y gellir sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau lleol? Rydym eisoes yn gweld nad yw hyn yn digwydd mewn sawl maes.	Roedd sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau lleol yn un o'r ffactorau ysgogi allweddol ar gyfer cyflwyno canllawiau statudol. Fodd bynnag, awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol am roi'r ddeddfwriaeth ar waith a sicrhau eu bod yn dilyn y canllawiau. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gadeirio'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref i hwyluso trafodaeth â swyddogion awdurdodau lleol mewn perthynas â'r broses o roi'r polisïau ar waith
	Cyn i ni orffen heddiw, a allwch gadarnhau: eich bod yn deall mai dyletswydd awdurdodau lleol yw adnabod plant sy'n colli addysg yn unig, ac mai cyfrifoldeb y rhieni yw penderfynu ar addasrwydd addysg. mai rôl awdurdodau lleol yw cefnogi, nid beirniadu, asesu a monitro. ac nad yw plant a addysgir gan y Wladwriaeth yn blentyn sy'n colli addysg am nad yw ei addysg yn addas.  Cwestiynau tebyg a ddaeth i law dros e-bost y tu allan i'r sesiynau ymgysylltu: Yn y cyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, honnodd Llywodraeth Cymru mai rôl awdurdodau lleol oedd penderfynu ar b'un a yw addysg plentyn yn addas, nid y rhieni. A fydech cystal â nodi'r sail gyfreithiol ar	Yr awdurdod addysg sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i benderfynu ar addasrwydd yr addysg, nid y rhiant. Mae'r sail gyfreithiol ar gyfer hyn wedi'i nodi'n fanylach o dan gwestiynau 5 a 6.  Hyd nes bydd yr awdurdod lleol wedi cael sicrwydd bod plentyn a addysgir yn y cartref yn cael addysg addas, mae'n bosibl y bydd y plentyn wedi'i gwmpasu o dan ddyletswydd adran 436A a bydd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar blant sy'n colli addysg yn gymwys ( <a href="#">Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg   LLYW.CYMRU</a> ).



	gyfer honiad o'r fath os credir bod hyn yn wir, gan mai cyfrifoldeb rhieni, nid yr awdurdodau, yw addysg.	
Tudalen 10 o'r pecyn	22. Pa fesurau y byddwch yn eu rhoi ar waith i sicrhau bod yr hyn rydych yn ei ddweud yma heddiw'n cael ei gyflawni gan awdurdodau lleol er mwyn sicrhau na fydd y sefyllfaoedd y sonnir amdanynt yma yn codi?	Bydd gwerthusiad annibynnol o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn dechrau ym mis Mai 2024. Bydd y gwerthusiad yn adolygu'r effaith y mae'r canllawiau wedi'u cael wrth gefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau statudol. Mae gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru grŵp llywio ar gyfer Addysg Ddewisol yn y Cartref, lle gellir trafod effaith polisiâu ac eir i'r afael ag unrhyw fater yn rheolaidd.  Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gadeirio'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref i hwyluso trafodaeth â swyddogion awdurdodau lleol mewn perthynas â'r broses o roi'r polisiâu ar waith.
	23. A fyddwch yn sicrhau y caiff pob awdurdod lleol ei hysbysu NAD yw'r cyfarfodydd yn orfodol ac felly na ellir defnyddio'r ffaith y gwrthodwyd cyfarfod i roi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol.	Mae Adran 4.21 o ganllawiau statudol Addysg Ddewisol yn y Cartref yn cydnabod y gall rhiant neu blentyn elfen Gillick wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol. Er bod rhieni'n rhydd i wrthod cyfarfod â'r awdurdod lleol, mae'n amheus a all awdurdod lleol asesu addasrwydd addysg yn rhesymol heb weld y plentyn a chyfathrebu ag ef. Mater i'r awdurdod lleol unigol yw'r penderfyniad hwn.
	24. Ond gwerthuso pryd? Nid wyf yn cofio os mai blwyddyn neu ddwy ydoedd, a gall teuluoedd deimlo eu bod yn cael eu herlid. Mae'n siŵr bod y rheini sy'n atgynhyrchu'r ysgol gartref yn llai pryderus, ond mewn sawl achos, bydd y rheini nad ydynt yn gwneud hynny yn rhy ofnus i fynd i'r cyfarfodydd hyn.	
<b>Thema 6: Gweithio mewn partneriaeth</b>		
25.	Sut mae awdurdodau lleol yn gweithio'n benodol gyda sefydliadau iechyd a sefydliadau eraill sy'n arbenigo mewn cefnogi teuluoedd sy'n wynebu amrywiaeth o heriau o ganlyniad i "gyflyrau" y gallant fod wedi neu heb gael diagnosis ar eu cyfer. Yr hyn rwy'n ei feddwl	Bydd rhiant neu warcheidwad sy'n dewis addysgu yn y cartref yn eithrio o ddarpariaeth addysg y wladwriaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu ei fod yn eithrio o wasanaethau iechyd y wladwriaeth. Mae gan blant a addysgir yn y cartref hawl i fanteisio ar wasanaethau iechyd a gynigir drwy ysgolion fel arfer.

Tudalen y pecyn 111	<p>yw nifer y teuluoedd sy'n rhieni i blant niwro amrywiol neu sydd ag anghenion iechyd meddwl, a fyddai'n mynd yn bryderus iawn oherwydd natur y cyfarfod er enghraifft. Sut mae awdurdodau lleol yn paratoi eu hunain i feithrin y ddealltwriaeth hon? Mae hon yn her i ysgolion ynghyd â pham y mae nifer o deuluoedd yn dewis tynnu eu plant allan. Sut y bydd awdurdodau lleol yn paratoi eu hunain i feithrin dealltwriaeth mor arbenigol? Rwyf wedi bod yn rheolwr gyda Darpariaeth yr Awdurdod Lleol o Gymorth Teuluol a Lles Addysg ac rwyf bellach yn gweithio'n breifat fel therapydd gyda nifer o deuluoedd y mae anhyblygrwydd systemau wedi effeithio arnynt oherwydd eu bod yn achosi gorbryder difrifol sy'n niweidiol i blant a rhieni/gofalwyr.</p>	<p>Mae cwnsela ar gyfer dysgwyr a addysgir yn y cartref ar gael ar-lein gyda'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n mynd i'r ysgol. Cytunwyd ar hyn ac mae wedi'i gynnwys yn ein Pecyn Cymorth Ehangach.</p> <p>Lle mae gan ddysgwyr anghenion a nodir, disgwylir y bydd swyddogion addysg yn y cartref yn gweithio'n agos gydag adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, fel y gwasanaeth lles addysg, anghenion dysgu ychwanegol i gefnogi plant a addysgir yn y cartref a disgwylir y bydd awdurdodau lleol yn gwneud pob ymdrech resymol i roi help/cefnogaeth i'r teulu. Yn aml, gall hyn gynnwys gweithio gyda gwasanaethau eraill awdurdodau lleol a chyfeirio teuluoedd at asiantaethau priodol.</p>
------------------------	---	---

**Thema 7: Tystiolaeth o addysg addas**

26. Tudalen y pecyn 111	<p>Pa fath o dystiolaeth yr hoffai awdurdodau lleol ei gweld?</p>	<p>Cyfeirir at enghreifftiau o dystiolaeth yn y Llawlyfr yn adrannau 2.25 a 2.26, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• anfon gwybodaeth drwy e-bost fel atodiad</li> <li>• bod eich plentyn yn dangos rhywfaint o'i waith neu'n sôn am yr hyn mae'n ei ddysgu</li> <li>• gwaith gwreiddiol</li> <li>• llungopiau o waith ysgrifenedig</li> <li>• ffotograffau</li> <li>• gwaith celf</li> <li>• llyfrau lloffion</li> <li>• cyflawniadau cerddorol ac ym maes chwaraeon (tystysgrifau)</li> <li>• dyddiadur digwyddiadau</li> <li>• recordiadau ar gryno ddisg</li> </ul>
-------------------------------	---	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio'r cyfryngau digidol</li> <li>• gwefannau a grëwyd gan eich teulu, neu wefannau y mae eich teulu wedi cyfrannu atynt</li> <li>• adroddiad ysgrifenedig</li> </ul>
Tudalen y pecyn 112	<p><b>27.</b> A allwch amlinellu sut beth yr hoffech i “flwyddyn ysgol nodweddiadol” fod o ran y gydberthynas/cyfathrebu rhwng teulu a swyddogion awdurdodau lleol/Addysg Ddewisol yn y Cartref?</p>	<p>Mae'r canllawiau'n glir y dylid cynnal cyfarfod rhwng y teulu a'r awdurdod lleol o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau y cynhelir addasrwydd yr addysg ac yr ystyrir bod y plentyn yn gwneud cynnydd addas.</p> <p>Fodd bynnag, dylai amllder y cyfarfodydd â theuluoedd a addysgir yn y cartref fod yn gymesur ac yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob plentyn.</p> <p>Os oes gan yr awdurdod lleol bryderon ynghylch addasrwydd yr addysg, bydd angen iddo ystyried a yw am weld y teulu'n amlach er mwyn cael sicrwydd bod y plentyn yn cael addysg addas.</p> <p>Gall fod angen i'r awdurdod lleol gysylltu â phartneriaid perthnasol eraill i'r awdurdod lleol yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn wrth benderfynu ar amllder cyfarfodydd â'r teulu.</p> <p>Heblaw am hyn, byddem yn disgwyl i awdurdodau lleol gyfathrebu'n aml â theuluoedd er mwyn rhannu gwybodaeth, eu cyfeirio at wasanaethau ac ymateb i unrhyw ymholiadau y gall fod gan deuluoedd.</p>
	<p><b>28.</b> Sut y gall awdurdodau lleol werthuso “tystiolaeth” mor amrywiol ac eang? Mae'n ymddangos fel tasg amhosibl heb roi meini prawf ar waith, ac nid ydym am wneud hynny, ond yna mae'n dibynnu ar sail unigol.</p>	<p>Awdurdodau lleol sydd i benderfynu, o'r wybodaeth a gyflwynir gan rieni, a yw gwybodaeth addas ac effeithiol yn cael ei darparu ac mae'r canllawiau statudol yn eu cefnogi i wneud hynny. Mae'r llawlyfr Addysg Ddewisol yn y Cartref yn rhoi enghreifftiau o sut i ddangos dystiolaeth o ddarpariaeth addysgol foddhaol, er mwyn helpu i sicrhau mwy o gysondeb rhwng awdurdodau lleol. Ceir rhagor o fanylion yng nghwestiwn 26.</p>
	<p><b>29.</b> Pwy sy'n penderfynu ar lefel y rhifedd, llythrennedd, iaith.</p>	<p>Fel yr amlinellir yn adran 3.9 o'r llawlyfr Addysg Ddewisol yn y Cartref, dylai addysg addas roi profiad ieithyddol, mathemategol, gwyddonol,</p>

Tudalen yn y 9 <sup>ed</sup> Pecyn 113		<p>technolegol, dynol a chymdeithasol, corfforol ac esthetig a chreadigol i blant; ynghyd â phrofiad o siarad a gwranddo, a sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol.</p> <p>Ni waeth pa ddull a gymerir i ddarparu addysg addas, mae'n bwysig i awdurdodau lleol ystyried a yw'r dull yn addas i anghenion y plentyn unigol sy'n golygu addysg effeithlon sy'n addas i oedran, gallu a dawn y plentyn ac unrhyw AAA/ADY y gall fod gan y plentyn. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei ddiffinio yn ôl nifer yr oriau na safon benodol heblaw nodi bod yn rhaid i'r ddarpariaeth gyfateb i allu cyffredinol y plentyn (gan gynnwys unrhyw AAA/ADY y gall fod ganddo) a galluogi'r plentyn i feithrin: sgiliau gwranddo a siarad, sgiliau darllen sy'n cynnwys geirfa a darllen a deall; a sgiliau ysgrifennu sy'n cynnwys gramadeg, atalnodi a sillafu. Swyddogion awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am asesu addasrwydd y ddarpariaeth hon ar y cyd ag elfennau eraill o addysg y plentyn.</p>
<b>Thema 8: Cymorth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref / cyllid i awdurdodau lleol</b>		
30.	O ran cymorth, beth sydd ar gael a ble y gallaf fynd i'w gael? Mae fy mab yn cael ei addysgu yn y cartref o ganlyniad i frwydr hir llawn straen â'r ysgol / CAHMS / swyddog addysg a chafodd ei gynghori i gael ei addysgu yn y cartref oherwydd ffobia o'r ysgol.	Lle y nodwyd bod teulu'n addysgu yn y cartref, gall yr awdurdod lleol sicrhau bod cymorth a chyngor ar gael pan fydd hynny'n briodol, os bydd y teulu'n dymuno. Dylai teuluoedd drafod unrhyw geisiadau am gymorth â'r swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref yn yr awdurdod lleol yn y lle cyntaf.
31.	A ellir cynnig cymorth yn effeithiol drwy'r un bobl sydd hefyd yn barnu'r ddarpariaeth? Cymharwch hyn â'r gwahaniaeth rhwng cynghorwyr gwella ysgolion a dyfarniadau Estyn ar gyfer ysgolion.	Mae'n debygol mai swyddogion Addysg Ddewisol yn y Cartref yw'r unigolion sydd â'r gydberthynas agosaf â'r teulu ac, felly, byddent mewn sefyllfa well i ystyried yr addysg a ddarperir yn gyfannol a thros amser.
32.	Faint o gynigion o bethau fel CADW a chwmsela oedd ar gael beth bynnag cyn y canllawiau hyn? Os felly, pam y mae'r canllawiau'n portreadu'r rhain fel ffyrdd newydd o "gefnogi"?	Er bod sawl agwedd ar y Pecyn Cymorth Ehangach eisoes ar gael, nid oeddent ar gael yn gyson i bob dysgwr.  Drwy gyfeirio at y rhain yn y canllawiau statudol yn sicrhau gwell cysondeb

33.	Adnoddau sydd eisoes ar gael i ni yw'r hyn a ddarperir yn y pecyn cymorth yn bennaf. Rydym yn gallu manteisio ar Gyrfa Cymru a llyfrgelloedd eisoes ond rydym yn cael trafferth defnyddio canolfannau arholiadau. Pam rydych yn rhestru mynediad i adnoddau sydd eisoes ar gael i ni?	o'r cynnig sydd ar gael i ddysgwyr a'u teuluoedd.
34.	A fydd cyllid gwell ar gyfer timau AALI lleol? Mae ein tîm ni dan bwysau mawr ac yn brin o adnoddau, sy'n golygu na all ddarparu'r cymorth y gall fod yn ofynnol i'w roi i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref.	<p>Cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol yw sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau statudol.</p> <p>Fodd bynnag, er mwyn cefnogi'r broses o roi'r canllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol dros gyfnod o dair blynedd i'w cefnogi i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag addysg yn y cartref.</p>
Tudalen 14 15 16 17 18 19 20 21 22 23 24 25 26 27 28 29 30 31 32 33 34 35 36 37 38 39 40 41 42 43 44 45 46 47 48 49 50 51 52 53 54 55 56 57 58 59 60 61 62 63 64 65 66 67 68 69 70 71 72 73 74 75 76 77 78 79 80 81 82 83 84 85 86 87 88 89 90 91 92 93 94 95 96 97 98 99 100	Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion sy'n gysylltiedig â diogelu wrth gyhoeddi'r canllawiau hyn ond mae wedi anwybyddu argymhellion ariannol eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr un adroddiadau. Yn aml, bydd Jeremy Miles yn awgrymu bod addysgwyr yn y cartref yn cael pecyn cymorth sy'n cyfateb i 1.7 miliwn o bunnoedd. Mae hyn yn gamarweiniol am ei fod wedi cadarnhau mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig bod 1.1 miliwn i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau a bod y 600 mil sy'n weddill yn cael ei rannu rhwng teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ledled Cymru gyfan. Mae hyn yn cyfateb i tua £120 y teulu, tua £3 yr wythnos pan fydd yn seiliedig ar flwyddyn academiaidd o 38 wythnos, sy'n llai o lawer na chost prydau ysgol ar gyfer un plentyn am un wythnos. Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad o gymorth ariannol cyfartal i blant a addysgir yn y cartref a phlant a addysgir gan y wladwriaeth?	<p>Rhaid i rieni sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref fod yn barod i gymryd cyfrifoldeb ariannol llawn dros addysg eu plant. Fodd bynnag, caiff awdurdodau lleol eu hannog i ddarparu cymorth pan fydd adnoddau'n caniatáu.</p> <p>Mae'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol i gefnogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref yn unigryw yn y DU.</p>

<b>Thema 9: Tystiolaeth ynghylch addysg yn y cartref</b>		
36.	Mae addysg yn y cartref wedi bod yn gyfreithlon yn y DU ers 50 mlynedd. Pam nad oes astudiaeth erioed wedi'i chomisiynu i addysg yn y cartref?	Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y pwynt hwn. Nododd y Gweinidog ei fwriad i werthuso canllawiau statudol a bydd gwerthusiad a gomisiynwyd yn dechrau yn nhymor yr haf 2024 a fydd yn neilltuo amser i'r canllawiau hyn gael eu rhoi ar waith gan awdurdodau lleol.
37.	Beth yw'r dystiolaeth i gefnogi'r cynigion h.y. pam ei gwneud yn ddeddfwriaeth nid yn gyngor?	Mae'r broses hon o ddatblygu canllawiau statudol yn ymateb uniongyrchol i bryderon a godwyd yn flaenorol gan Gomisiynydd Plant Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, y mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar y ddau i wella eu canllawiau ar Addysg Ddewisol yn y Cartref.
<b>Thema 10: ADY</b>		
38.	Beth yw sefyllfa riant os nad yw am i'r awdurdod lleol labelu ei blentyn ag ADY? A ellir trafod label ADY?	<p>Mae'r un dyletswyddau'n gymwys i awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sydd ag ADY ni waeth sut maent yn derbyn eu haddysg. Mae adran 2.13 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi "Pan gaiff ei ddwyn i sylw awdurdod lleol neu pan fo'n ymddangos fel arall i awdurdod lleol y gallai plentyn y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n derbyn addysg yn y cartref (ac eithrio plentyn sy'n derbyn gofal), fod ag ADY, rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio ac, os yw'n penderfynu bod gan y plentyn ADY, rhaid iddo lunio a chynnal CDU a sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) a ddisgrifir yn y cynllun hwnnw".</p> <p>Gall plant, eu rhieni a phobl ifanc herio penderfyniadau a wneir gan ysgol, UCD, awdurdod lleol neu goleg ynghylch ADY os bydd yn anghytuno â nhw. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY. Ceir rhagor o wybodaeth am herio penderfyniadau am ADY a wneir gan awdurdodau lleol yn <a href="#">Canllaw i rieni am hawliau o dan y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) [HTML]   LLYW.CYMRU.</a></p>

--	--	--

<b>Thema 11: Arholiadau</b>		
<b>39</b>	A fydd yr hysbyseb am swyddog cymorth arholiadau yn cael ei chyhoeddi ar wefannau awdurdodau lleol?	Mater i awdurdodau lleol unigol yw hyn. Byddem yn awgrymu y dylai teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref gysylltu â'u swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref lleol i gael cyngor. Mae Adran 6.14 o'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref yn nodi mai "Cyfrifoldeb yr addysgwyr yn y cartref fydd cysylltu â'r awdurdod lleol a holi ynghylch y ffordd benodol iawn y byddant yn ymdrin ag ymgeiswyr preifat."
<b>40</b> Awdalen y pecyn 116	Mae'r ddarpariaeth arholiadau yn ein hardal ni o Gymru yn brin iawn. Nid yw bwrdd CBAC ar gael i addysgwyr yn y cartref. Hefyd, ni all addysgwyr yn y cartref sefyll arholiadau CBAC oherwydd yr elfen gwaith cwrs. Mae hyn hefyd yn debygol o waethygu gyda'r diwygiadau sydd dan ystyriaeth i arholiadau CBAC, gyda phob arholiad heblaw Mathemateg yn debygol o gynnwys elfennau Asesiad Diarholiad sylweddol. Mae'r trefniadau mynediad i ymgeiswyr nad ydynt wedi'u lleoli mewn ysgol yn faes pwysig arall y mae angen ei gefnogi er mwyn sicrhau mynediad teg i arholiadau.	
<b>41.</b>	Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y darperir cyfleoedd cyfartal a chymorth ymarferol i addysgwyr yn y cartref. Eto, ers i Lywodraeth Cymru gael ei chynnwys, mae'r ddarpariaeth canolfannau arholiadau wedi gwaethygu'n fawr. Pam?	
<b>42.</b>	Byddai o gymorth mawr pe na fyddai mynediad i ganolfannau arholiadau wedi'i gyfyngu i un bwrdd	

	<p>arholi. Er enghraifft, efallai y byddwn yn dilyn TGAU Rhyngwladol oherwydd gofynion gwaith cwrs, neu'n defnyddio byrddau arholi yn Lloegr am ein bod yn cael tiwtora ar-lein. Rwy'n gwerthfawrogi bod awdurdodau lleol yn wynebu pwysau mawr, ond byddai'r manteision i rieni a phlant yn anferth yn fy marn i, o gymharu â'r gost i awdurdodau lleol.</p>	<p>Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gydag awdurdodau lleol i alluogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref i gael mynediad i arholiadau CBAC mewn canolfan arholiadau a nodir.</p> <p>Mae pob awdurdod lleol wedi cytuno i dderbyn ymgeiswyr annibynnol o deuluoedd a addysgir yn y cartref mewn canolfan arholiadau a nodir.</p> <p>Dylid annog colegau addysg bellach hefyd i agor eu cyfleusterau i blant a addysgir yn y cartref ar gyfer arholiadau.</p>
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen y pecyn 117</p>	<p>43. Siawns mai'r ysgolion sy'n dewis, nid yr awdurdodau lleol? Mae ysgolion annibynnol wedi mynd yn gyndyn o dderbyn pobl ifanc a addysgir yn y cartref ar gyfer arholiadau am fod y galw'n uchel ac na allant gwmpasu gofynion AAA.</p>	<p>Lle y bo'n bosibl, dylai awdurdodau lleol gyfeirio teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref at ysgolion a chanolfannau a fydd yn gadael i fyfyrwyr allanol sefyll arholiadau. Caiff swyddogion addysg yn y cartref eu hannog i weithio gyda darparwyr canolfannau arholiadau a nodir yn eu hawdurdod lleol i groesawu plant a addysgir yn y cartref pan fo hynny'n bosibl.</p> <p>Cyfrifoldeb yr addysgwr yn y cartref fydd cysylltu â'r awdurdod lleol a holi ynghylch y ffordd benodol iawn y byddant yn ymdrin ag ymgeiswyr preifat.</p>
<p>44.</p>	<p>A gaiff costau'r arholiadau eu cwmpasu, neu dim ond darpariaeth canolfan leol?</p>	<p>Mater i'r awdurdodau lleol yw hyn.</p>
<p>45.</p>	<p>A allwn drafod materion sy'n ymwneud ag arholiadau gyda chi ymhellach am fod materion y mae angen eu hegluro na ellir eu hateb heddiw?</p>	<p>Os oes rhagor o ymholiadau mewn perthynas â'r canllawiau statudol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref ac arholiadau nad yw'r ymatebion i'r cwestiynau yn yr adran hon wedi'u hegluro, yna gall unigolion gysylltu â Llywodraeth Cymru yn:</p> <p><a href="mailto:ElectiveHomeEducation@gov.wales">ElectiveHomeEducation@gov.wales</a>.</p> <p>Awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i ateb cwestiynau mewn perthynas â mynediad i ganolfannau arholiadau. Cysylltwch â'ch Swyddog Addysg Ddewisol yn y Cartref am ragor o wybodaeth.</p>



<b>Thema 12: Mwy o fewnbwn ac ymgysylltiad</b>		
46.	Yn y dyfodol, sut y bydd Llywodraeth Cymru'n parhau'r ddeialog â'r gymuned?	Mae Llywodraeth Cymru'n ymrwymedig i ymgysylltu â phob rhanddeiliad wrth i ni roi'r canllawiau statudol ar waith. Rydym wrthi'n ystyried beth yw'r ffordd orau o hwyluso rhagor o ymgysylltu a thrafod â phob rhanddeiliad, gan gynnwys y gymuned sy'n addysgu yn y cartref.
47.	Ymatebodd y gymuned i ymgynghoriadau ar addysg yn y cartref ac mae wedi ceisio ymgysylltu â Llywodraeth Cymru dro ar ôl tro. A fydd unrhyw beth a gaiff ei drafod yn y cyfarfodydd hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y bydd yr adran addysg yn gweithio gyda'r gymuned yn y dyfodol?	
48.	A all y gymuned roi mewnbwn i'r llawlyfr? Mae llawer o wallau, gwybodaeth sydd wedi dyddio ac ati, a byddai'n werth cael llawlyfr sy'n berthnasol.	Byddai Llywodraeth Cymru'n croesawu adborth adeiladol ar y llawlyfr i sicrhau y gallwn adeiladu ar yr adnodd hwn a'i wneud mor ddefnyddiol a pherthnasol â phosibl i bob aelod o'r gymuned sy'n addysgu yn y cartref. Mae'r ffyrdd y gallwn hwyluso hyn wrthi'n cael eu hystyried, fel rhan o ymgysylltu ehangach a pharhaus.  Os oes agweddau penodol ar y llawlyfr yr ystyrir eu bod yn anghywir, yna gellir rhannu'r adborth hwn â'r tîm ar <a href="mailto:ElectiveHomeEducation@gov.wales">ElectiveHomeEducation@gov.wales</a> , fel y gallwn eu hunioni cyn gynted â phosibl.

<b>Thema 13: Llais addysgwyr yn y cartref</b>		
49.	A oes cynrychiolaeth o addysgwyr yn y cartref ar grwpiau llywio awdurdodau lleol? A ellid ystyried hyn ar sail reolaidd?	Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gynrychiolaeth o addysgwyr yn y cartref ar grŵp llywio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Addysg Ddewisol yn y Cartref am mai diben y grŵp hwn yw sicrhau mwy o gysondeb wrth roi'r canllawiau statudol ar waith.

		<p>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gadeirio'r Grŵp Llywio Cenedlaethol ar Addysg Ddewisol yn y Cartref i hwyluso trafodaeth â swyddogion awdurdodau lleol mewn perthynas â'r broses o roi'r polisiau ar waith</p> <p>Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i gwestiwn 46, rydym wrthi'n ystyried y ffordd orau o hwyluso mewnbyn ac ymgysylltiad parhaus gan y gymuned addysgu yn y cartref.</p>
50.	A ydych chi'n ystyried bod y canllawiau newydd hyn wedi'u llunio'n llwyr ar y cyd ag addysgwyr yn y cartref? A oes addysgwyr yn y cartref wedi cael eu cynnwys ar bob cam?	Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn ar y canllawiau statudol yn ystod 2019, a oedd yn cynnwys cyfleoedd i ymgysylltu wyneb yn wyneb. Ystyriodd Llywodraeth Cymru ymatebion a safbwyntiau pob rhanddeiliad cyn cadarnhau'r canllawiau, fodd bynnag, cafodd pob safbwynt ei gydbwysu yn erbyn prif nod polisi'r canllawiau statudol i gefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg addas ac effeithlon.

Tudalen y pedyn

<b>Thema 14: Llais plant a phobl ifanc</b>		
51.	Beth am sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed gan y bobl sy'n gwneud penderfyniadau?	Roedd ymgynghoriad 2019 yn cynnwys fersiwn Person Ifanc o'r Canllawiau a'r Llawlyfr. Hefyd, hwylusodd Llywodraeth Cymru sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb, a roddodd gyfle i blant a phobl ifanc rannu eu safbwyntiau.
52.	Pa mor aml y gofynnir i blant yn yr ysgol 'A fyddai'n well gennych chi gael eich addysgu yn y cartref?' Nid yw'r cwestiwn hwn byth yn cael ei ofyn. Nid ysgol yw addysg yn y cartref. Caiff ysgolion eu harolygu fel gwasanaethau a gomisiynir gan y Llywodraeth sy'n atebol i'w cyllidwyr (y Llywodraeth) a defnyddwyr eu gwasanaethau (rhieni).	A oes cyfleoedd sylweddol i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir i leisio ei farn; mae hyn wedi'i ymgorffori'n sylweddol o fewn system ysgolion. Mae hyn yn cynnwys Cynghorau Ysgolion, sydd wedi'u hategu gan reoliadau. Hefyd, mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau a allai effeithio arnynt, gan gynnwys yn yr ysgol. Mae llais y dysgwr hefyd wedi'i ymgorffori yn y Cwricwlwm newydd i Gymru a Chenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'u phrosesau

<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tudalen 54 o'r Cecyn 120</p>	<p>Gofynnwyd y cwestiynau tebyg canlynol mewn ymateb:</p> <p>A yw'r awdurdod lleol yn gwranddo ar bryderon pob plentyn ysgol unigol? Nac ydi siŵr; felly pam mynnu bod yr awdurdod lleol yn cyfweld â'n plant? Gofynnwyd y cwestiwn sawl gwaith gan sawl teulu sy'n addysgu yn y cartref ac ni chawsom ymateb digon da, os o gwbl.</p> <p>A allaf ofyn i'r Gweinidog Addysg a yw'n bwriadu gwneud hyn ym mhob ysgol yng Nghymru hefyd? A fydd yn holi pob plentyn yng Nghymru am ei addysg gan gynnwys y rheini sy'n mynd i'r ysgol?</p>	<p>arolygu statudol, bydd Estyn hefyd yn casglu safbwyntiau disgyblion drwy holiadur cyn arolygu ysgolion a gall siarad â disgyblion, adolygu gwaith ac arsylwi ar wersi.</p> <p>Bydd gweld plant a addysgir yn y cartref a chyfathrebu â nhw yn sicrhau dull o sicrhau bod lleisiau plant a addysgir yn y cartref yn cael eu clywed. Ceir eglurhad ar weld y plentyn yn yr ymatebion i gwestiynau 2, 3 a 5.</p>
<p>54.</p>	<p>O ran bod cynghorau ysgolion yn cael eu defnyddio i brofi bod safbwyntiau'r plant yn cael eu clywed, nid yw hyn yn casglu barn pob un plentyn ar yr addysg a ddarperir iddo. Felly a allwn gael cyngor o blant a addysgir yn y cartref yn hytrach na phob plentyn er mwyn cyd-fynd ag ysgolion?</p>	<p>Fel yr amlinellwyd yn yr ymateb i gwestiwn 46, rydym wrthi'n ystyried y ffordd orau o hwyluso mewnbyn ac ymgysylltiad parhaus gan y gymuned addysgu yn y cartref. Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut i gael safbwyntiau plant a addysgir yn y cartref.</p>
<p>54.</p>	<p>Rwy'n gwybod am blant sy'n anhapus yn yr ysgol ac a fyddai'n hoffi cael eu haddysgu yn y cartref. A fyddwch yn cynnig gwasanaethau cyfryngu i'r teuluoedd hynny i'w helpu i ddarparu addysg yn y cartref?</p>	<p>Er bod rhieni'n rhydd i ddewis a ydynt am addysgu eu plentyn yn y cartref ai peidio, mae'n bwysig bod penderfyniad y rhiant i addysgu yn y cartref yn ddewis cadarnhaol ac nad yw o ganlyniad i fethiannau canfyddedig yn system yr ysgol, na phrofiadau negyddol ag ysgol benodol. Byddem bob amser yn annog teuluoedd i weithio gyda'u hysgol a'u hawdurdod lleol i ddatrys unrhyw faterion, er mwyn sicrhau y gellir rhoi cymorth priodol ar waith i'r plant.</p>
<p><b>Thema 15: CCUHP</b></p>		
<p>55.</p>	<p>Pam na chaiff erthyglau 5, 14, 16 a 18 o'r CCUHP eu cynnwys yn y canllawiau? Mae'r erthyglau hyn yn</p>	<p>Mae hawliau plant wedi'u cynnwys yng nghyfraith Cymru o dan 'Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)'</p>

	cyfeirio at bartïon gwladwriaethau yn parchu rhieni, parchu preifatrwydd ac mae Erthygl 18 yn nodi mai rhieni sy'n bennaf cyfrifol am fagu'r plentyn a'i ddatblygiad. Sut mae'r canllawiau'n cyd-fynd â'r erthyglau hyn?	Er bod Llywodraeth Cymru'n rhoi ystyriaeth ddyledus i bob gofyniad, mae pedair egwyddor gyffredinol yn y CCUHP, gan gynnwys Erthygl 12 (parch i safbwyntiau plant).  Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i roi sylw priodol i bob erthygl yn y CCUHP, gan eu cydbwysu yn erbyn yr holl ffactorau perthnasol eraill.
56.	Mae hawliau dynol y plentyn wedi'u dyfynnu yn neddfwriaeth Cymru. A gaiff hawl fy mhentyn i beidio â mynd i gyfarfod ac i beidio â chydymffurfio â Gorchymyn Mynychu'r Ysgol eu parchu?	Ceir eglurhad ar weld y plentyn yn yr ymatebion i gwestiynau 2, 3 a 5.
<b>Thema 16: Asesiadau effaith</b>		
Tyngedalen y pecyn 121	Pam na chafodd asesiad effaith reoleiddiol, asesiad o'r effaith ar ddiogelu data neu asesiad o'r effaith ar hawliau plant cyfredol eu cyhoeddi cyn i'r canllawiau gael eu rhyddhau? Addawodd Kirsty Williams yr asesiadau hyn i'r gymuned mewn datganiad ysgrifenedig.	Cynhaliwyd asesiad effaith integredig, sy'n cynnwys asesiad o'r effaith ar hawliau plant, ar y canllawiau statudol, a gellir ei weld yma. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd o dan y llywodraeth flaenorol yn cyfeirio at y prosesau a'r asesiadau a fyddai'n cael eu cynnal cyn i'r rheoliadau cronfa ddata gael eu rhoi ar waith. Oherwydd y bydd angen rheoliadau data ar y cronfeydd data, mae asesiad effaith rheoliadol ac asesiad o'r effaith ar ddiogelu data wrthi'n cael eu datblygu ochr yn ochr â'r gwaith polisi hwnnw. Mae'r datganiad y cyfeirir ato yn y cwestiwn wedi'i gynnwys yn y ddolen ganlynol:  1. <u><a href="#">Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 (11 Rhagfyr 2019   LLYW.CYMRU</a></u>

# Eitem 4.6

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Lynne Neagle AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

15 Medi 2023

## Gwaith parhaus yn ymwneud ag iechyd meddwl plant a phobl ifanc

Annwyl Lynne,

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi ymrwymo i ystyried llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc yn ein holl waith. Mae gwaith diweddar gennym wedi canolbwyntio'n benodol ar iechyd meddwl yn cynnwys y meysydd a ganlyn:

- Cymorth Iechyd Meddwl mewn Addysg Uwch. Diolch i chi am ymgysylltu â'n hymchwiliad, a diolch am eich cefnogaeth wrth hwyluso dadl Weinidogol ar y cyd ar ein hadroddiad yn Cyfarfod Llawn ar 14 Mehefin.
- Pontio rhwng CAMHS ac AMHS. Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Mai, mewn ymateb i'n llythyr dyddiedig 31 Mawrth, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 14 Mehefin.

Mae llesiant emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn bryder allweddol i ni, ac mae'n fater y byddwn yn parhau i graffu arno'n drylwyr. Gyda hynny mewn golwg, hoffwn ddechrau blwyddyn academiaidd 2023-24 drwy wneud cais o'r newydd am wybodaeth i adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud hyd yma, ac i gefnogi ein gwaith craffu parhaus yn y maes hollbwysig hwn.

Ond cyn hynny, rwyf am gydnabod eich ymrwymiad personol i wella llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Rydym yn gwybod bod hwn yn fater yr ydych yn frwdfrydig iawn i'w wella, a ddangoswyd yn enwedig yn ystod eich cyfnod fel Cadeirydd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd. Fel y gwyddoch, rhan bwysig o ysgogi gwelliannau i blant a phobl ifanc ledled Cymru yw craffu'n effeithiol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Mae gwaith y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn dyst i'r gwelliannau a all ddeillio o graffu.



Rydym hefyd yn ymwybodol bod yr hinsawdd sydd ohoni i wasanaethau cyhoeddus yn hynod heriol yn ariannol, ond hefyd o ran maint y gofynion ar wasanaethau a chymhlethdod y gofynion hyn sy'n cael eu gosod arnynt. Mae hyn yn gwneud gwaith craffu yn bwysicach fyth. Rydym yn gwybod faint o rym sydd i waith craffu adeiladol a sut y gall wella pethau i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Nodwn ym mharagraff olaf eich llythyr dyddiedig 23 Mai y byddech yn croesawu trafodaeth am y canlynol:

*"... sut y gallwn ddefnyddio datblygiad yr olynydd i Law yn Llaw at lechyd Meddwl i atgyfnerthu'r gwaith hwn [argymhellion a wnaed yn y gorffennol gan nifer o bwyllgorau'r Senedd]. Byddai hyn yn sicrhau bod unrhyw argymhellion rydym yn parhau i weithio arnynt yn llywio camau gweithredu yn y dyfodol, cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth."*

Cefais i a chi drafodaeth gychwynnol yn ystod ein cyfarfod diweddar am sut yr ydych chi'n gweld pethau, ond gyda'n gilydd byddem yn croesawu cael mwy o fanylion ynghylch sut yr hoffech atgyfnerthu'r gwaith hwn.

Nodir y materion penodol y byddem yn gwerthfawrogi cael mwy o fanylion amdanynt isod.

Pontio o CAMHS i AMHS

---

1. Fel y soniais yn y ddadl ar ein hadroddiad ar Gymorth lechyd Meddwl mewn Addysg Uwch, hoffem gael eglurder ynghylch pa argymhellion gan 'Sortiwch y Switsh' nad ydynt yn cyd-fynd â'r rhaglen waith sydd eisoes ar y gweill i wella gwasanaethau pontio. Bydd yr eglurder hwn yn ddefnyddiol i'n gwaith craffu ar y mater pwysig hwn. Gallwn hefyd rannu hyn â'r bobl ifanc a feddyliodd am yr argymhellion Sortiwch y Switsh fel y gallant ddeall yn well pa waith sy'n cael ei wneud i wella pontio a sut mae'n cyd-fynd â'u hargymhellion. Drwy ddarparu'r eglurder hwn nawr, rydym o'r farn y bydd yn arbed gwaith yn y tymor hwy, a bydd yn ein helpu i ddeall pa feysydd sy'n cael eu blaenoriaethu'n benodol gan Lywodraeth Cymru.
2. Byddem yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith yr Uned Gyflawni ar CAMHS, fel y gofynnwyd amdani yn ein llythyr gwreiddiol dyddiedig 31 Mawrth. Yn eich ymateb, rydych chi'n dweud bod pob Bwrdd lechyd bellach wedi cael eu hadroddiadau unigol, gyda gwaith pellach yn mynd rhagddo ar ddatblygu adroddiad thematig. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r canfyddiadau eang, rydych wedi "comisiynu Gweithrediaeth y GIG i weithio gyda Byrddau lechyd i ddatblygu manyleb gyfunol ar gyfer CAMHS..." a fydd yn helpu gyda chysondeb, disgwyliadau gwasanaethau ac, "yn bwysicaf oll, cynnig gwasanaeth symlach a mwy effeithiol i blant a phobl ifanc". Rydych yn ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni "maes o law". Mae hyn yn swnio fel datblygiad allweddol a byddem yn croesawu mwy o eglurder ar y llinellau amser ar gyfer datblygu'r fanyleb hon,

a pha gynlluniau, os o gwbl, sydd ar y gweill er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn y gwaith datblygu. Byddem hefyd yn gofyn a oes modd rhannu'r adroddiad thematig gyda'r Pwyllgor fel bod gennym well dealltwriaeth o'r materion cyffredinol sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth CAMHS, ac i gael syniad o bryd y disgwyliwch i'r adroddiad hwn gael ei gwblhau.

3. A allwch roi gwybod i ni pa gamau pendant sydd wedi deillio o'r gweithdai pontio a gynhaliwyd dros aeaf 2022/23? Yn eich ymateb chi i'n llythyr, nodwch i'r gweithdai roi rhywfaint o "fewnwelediadau defnyddiol a meysydd i'w gwella, gan gynnwys fframwaith cryfach ar gyfer monitro'r gwaith o weithredu'r canllawiau a disodli neu ailgynllunio'r pasbort person ifanc".
4. Gwnaethom ofyn am wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru'n "gwerthuso effeithiolrwydd cymorth pontio a gwasanaethau pontio yn fwy cyffredinol ledled Cymru". Byddem yn gwerthfawrogi mwy o eglurder ynghylch sut mae hyn yn cael ei wneud, yn enwedig sut mae plant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn unrhyw werthusiad o wasanaethau a chymorth.

#### Y dull ysgol gyfan

---

Mae pryderon am iechyd meddwl plant a phobl ifanc wedi cael eu codi'n rheolaidd gan ddisgyblion, arweinwyr ysgol a staff addysgu yn ystod ein gwaith ymgysylltu fel rhan o'n [hymchwiliad hyd Senedd i weithredu diwygiadau addysg](#). Nodwn hefyd y pryderon a godwyd gan rai aelodau o Senedd leuencid Cymru yn ystod eu [cyfarfod â chi ar 10 Gorffennaf 2023](#) nad yw cyhoeddiadau polisi a chyllid lefel uchel Llywodraeth Cymru efallai'n troi'n newid ar lawr gwlad.

Rydym wedi gweld yn uniongyrchol fod pocedi o arfer rhagorol ledled Cymru. Fodd bynnag, fel y gwnaethoch chi gydnabod ar 10 Gorffennaf, credwn fod y dull ysgol gyfan yn cael ei roi ar waith yn anghyson, gyda rhai ysgolion yn ymateb i faterion iechyd meddwl ymhlith dysgwyr yn llawer mwy effeithiol nag eraill.

Ar hyn o bryd, rydym yn ystyried sut orau y gallwn ychwanegu gwerth at y gwaith pwysig y mae Senedd leuencid Cymru ac eraill wedi'i wneud mewn perthynas â'r dull ysgol gyfan. Er mwyn ein helpu gyda'n trafodaethau, gofynnwn yn garedig i chi ymateb i'r canlynol.

5. Ar [23 Tachwedd 2022](#), gwnaethoch ddisgrifio mwy o ffocws o fewn Llywodraeth Cymru ar gyflwyno a gweithredu'r dull ysgol gyfan/system gyfan. Hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf gennych am y gwaith a wnaed hyd yma a'r camau gweithredu arfaethedig sy'n adlewyrchu'r ffocws hwn, gan gynnwys cyfeiriad at y canlynol:

- a. Gwaith cydlynwyr gweithredu lechyd Cyhoeddus Cymru, pa mor sefydledig yw rhwydwaith y cydlynwyr ledled Cymru, a pha effaith y mae'r gwaith hwn yn ei chael.
- b. Y wybodaeth ddiweddaraf am waith i fesur a gwerthuso gweithrediad/deilliannau'r dull ysgol gyfan, ers i'r asesiad o werthusadwyedd gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2022.
- c. Rhwystrau a nodwyd hyd yn hyn rhag gweithredu'r dull ysgol gyfan ledled Cymru yn llwyddiannus (er enghraifft, mewn perthynas â gallu staff ysgol i gefnogi llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, ac argaeledd cymorth arbenigol mewn ardaloedd lleol).

Byddwn yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 1 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol oherwydd y diddordeb cyffredin yn y materion hyn.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



# Eitem 4.7

## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Vaughan Gething AS

Gweinidog yr Economi

20 Medi 2023

### Dilyniant o'r sesiwn gydweinigol ddiweddar

Annwyl Jeremy a Vaughan,

Diolch am ddod i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 5 Gorffennaf. Rydym yn gwerthfawrogi eich bod yn bresennol cyn gwyliau'r haf.

Yn dilyn y sesiwn, mae gennym rai meysydd yr hoffem gael rhagor o wybodaeth amdanynt, gan gynnwys:

- cyfraddau gostwng o ran prentisiaethau;
- fframweithiau gradd-brentisiaethau;
- cyngor ar yrfaedd; a
- Syniadau Mawr Cymru.

Cyfraddau gostwng o ran prentisiaethau

---

**1.** Yn ystod y sesiwn, gwnaethom ofyn am y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cwblhau eu prentisiaethau, a gostyngodd cyfraddau cystadlu o 80.9% yn 2018-2019 i 66.3% yn 2021-22. Yn ystod y sesiwn, dywedodd Gweinidog yr Economi fod y dystiolaeth gychwynnol yn dangos mai pwysau costau byw yw un o'r prif ffactorau ar gyfer y gostyngiad hwn. Nododd hefyd fod hwn yn destun pryder, a'n bod yn dal eisiau deall y graddau y mae hyn yn wir, ac a yw'n fwy na'r argyfwng costau byw ai peidio.

## Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddPlant@senedd.cymru

senedd.cymru/SeneddPlant

0300 200 6565

## Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddChildren@senedd.wales

senedd.wales/SeneddChildren

0300 200 6565



2. Rydym yn pryderu y gallai'r targed o greu 125,000 o brentisiaethau ar gyfer pob oed gael ei effeithio gan ffactorau sy'n achosi'r cynnydd hwn yn y gyfradd ostwng. Nodwn fod y llinell amser ar gyfer y targed hwn wedi'i hymestyn o flwyddyn, ond rydym yn pryderu y gallai'r pwysau ehangach ar bobl i sicrhau cyflogaeth â thâl amser llawn effeithio ar ba mor atyniadol yw prentisiaethau. Gallai'r pwysau i dalu biliau ar hyn o bryd fod yn drech na buddion ariannol tymor hwy cwblhau prentisiaeth.

3. A allwch amlinellu pa waith rydych chi'n ei wneud i ddeall yn well y rhesymau sy'n sail i'r gostyngiad yn y cyfraddau, ac a allwch chi ymrwymo i rannu'r gwaith hwn gyda ni? Hoffem hefyd gael rhagor o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gefnogi ac annog pobl i fanteisio ar brentisiaethau fel opsiwn deniadol, yn enwedig yn ystod yr argyfwng costau byw presennol.

#### Gradd-brentisiaethau

---

4. Buom yn trafod gradd-brentisiaethau ac ehangu posibl nifer y fframweithiau gradd-brentisiaeth. Yn ystod y sesiwn, cadarnhaodd Gweinidog yr Economi y byddai'r fframweithiau rheilffyrdd "ar-lein" ym mis Medi 2024, gyda gwaith adeiladu a digidol yn dilyn ym mis Medi 2025. Diolch am eich **nodyn ychwanegol ar estyn prentisiaethau** gradd a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 14 Medi.

#### Cyngor ar yrfaoedd

---

5. Diolch am roi'r **data i ni ar y cyswllt rhwng Gyrfa Cymru a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol**. Trafodwyd hyn yn ein cyfarfod ar 14 Medi.

6. Fel y nodwyd yn ystod y sesiwn, codwyd pryderon ynghylch ansawdd ac ehangder y cyngor gyrfaoedd sy'n cael ei roi i bobl ifanc ag anableddau fel rhan o'n hymchwiliad: **A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?** Byddwn yn parhau i edrych yn fanwl ar hyn fel rhan o'r gwaith hwnnw, ond ar hyn o bryd, byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y gall Llywodraeth Cymru sicrhau y gall plant a phobl ifanc ag anableddau gael y cyngor gyrfaoedd o'r ansawdd gorau i sicrhau y gallant ddilyn y cyfleoedd addysg a gyrfa cywir sy'n bodloni eu dyheadau.

7. Roedd hwn hefyd yn fater a godwyd pan ymwelais â Phrifysgol Caerdydd ar ran y Pwyllgor yn gynharach eleni, i gael gwybod rhagor am y **Prosiect Engage to Change**. Clywais yn uniongyrchol am sut nad yw pobl ag anableddau dysgu bob amser yn cael cynnig yr un cyfleoedd â'r boblogaeth ehangach a gwelais sut y gall prosiectau fel Engage to Change ehangu gorwelion ac agor cyfleoedd gyrfa na fyddai wedi bod ar gael fel arall.

#### Syniadau Mawr Cymru

---

8. Byddem hefyd yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am sut y caiff Syniadau Mawr Cymru ei hyrwyddo, lefelau'r nifer sy'n manteisio arno, a'r canlyniadau neu unrhyw werthusiad cyfredol o ran y rhaglen.

Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech ddarparu ymateb erbyn 10 Tachwedd.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig oherwydd bod y materion hefyd yn berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwnnw.

Yn gywir



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Cc: Paul Davies AS, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Rebecca Evans AS,  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

22 Medi 2023

Annwyl Rebecca,

## Papurau tystiolaeth i gefnogi Cyllideb Ddrafft 2024-25

Diolch yn fawr am eich llythyr ar 8 Medi.

Rwy'n ddiolchgar am y modd adeiladol yr ydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ffyrdd y gellir gwella tystiolaeth ysgrifenedig weinidogol ar gynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, gyda'r nod o fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn fy llythyr ar 23 Mehefin.

Rwy'n croesawu eich bwriad i gadarnhau pryd y bydd Gweinidogion yn darparu eu papurau tystiolaeth i bwyllgorau'r Senedd cyn cylch cyllideb 2024-25. Rwyf hefyd yn ddiolchgar y bydd Pwyllgorau'r Senedd yn cael cynnig briff technegol ar y Cyllideb Ddrafft.

O ran eich cais am arwydd clir gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn hanfodol i'w gynnwys mewn papurau tystiolaeth weinidogol, ni fyddai'n briodol i mi ddarparu un rhestr o gynigion heb ymgynghori â Chadeiryddion y Pwyllgorau yn gyntaf.

Er fy mod yn gweld manteision o ran datblygu templed lefel uchel ar gyfer papurau tystiolaeth, ac er fy mod yn cefnogi cydweithredu rhwng pwyllgorau i osgoi dyblygu a gorgyffwrdd mewn meysydd ffocws yn ystod craffu ar y gyllideb,



**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN

SeneddCyllid@senedd.cymru

0300 200 6565

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN

SeneddFinance@senedd.wales

0300 200 6565

gall fod yn anodd cyflawni dull cyson yn ymarferol, o gofio ei bod yn naturiol y bydd gan bwyllgorau flaenoriaethau a meysydd ffocws gwahanol.

Hoffwn hefyd warchod rhag datblygu templed a allai feithrin dull rhagnodol o ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig, a allai wanhau'r wybodaeth sydd ar gael i bwyllgorau unigol yn y pen draw wrth iddynt geisio dwyn penderfyniadau gwariant gweinidogol i gyfrif.

Mae'r anawsterau y mae Gweinidogion yn eu hwynebu wrth ddarparu manylion penodol ar gyfer pwyllgorau sy'n ymwneud â phob MEG yn ystod cyllideb 2024-25 yn enghraifft o hyn. Er fy mod yn cydnabod yr heriau a ddaw yn sgil amserlen cyllideb eleni, ni ddylai hyn rwystro Pwyllgorau rhag gofyn am wybodaeth fanwl yn ymwneud â phortffolios unigol gan fod hyn yn hanfodol i lywio sesiynau tystiolaeth cyhoeddus gyda Gweinidogion, yn enwedig pan fo'r amser i ymgynghori â rhanddeiliaid wedi'i gyfyngu.

Felly, rwy'n barod i archwilio ffyrdd y gellid datblygu templed, er fy mod hefyd yn cydnabod y gallai gymryd amser i sicrhau consensws ar y mater hwn a'i bod yn annhebygol y cytunir ar unrhyw newidiadau ar gyfer cylch y gyllideb sydd i ddod.

Rwy'n anfon copi o'r ymateb hwn i holl bwyllgorau'r Senedd sydd â diddordeb mewn craffu ar y gyllideb er mwyn hwyluso trafodaethau pellach, a byddaf yn codi'r mater hwn yng nghyfarfod nesaf Fforwm y Cadeiryddion ar 23 Hydref.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

**Senedd Cymru**  
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

**Welsh Parliament**  
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Julie Morgan AS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

25 Medi 2023

### Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro

Annwyl Julie,

Rydym wedi cael gwybod bod Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol (FDAC) Caerdydd a'r Fro wedi'i derfynu. Mae hyn, wrth gwrs, yn peri pryder mawr i'r Pwyllgor.

Fel y cofiwch, gwnaethom ofyn am sicrwydd clir, yn ein sesiwn graffu ddiweddar ar 14 Medi, ynghylch cyllid y cynllun peilot. Roeddem yn falch o glywed gennych chi a'ch swyddogion nad oedd hwn yn faes lle roedd Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud arbedion fel rhan o'r newidiadau presennol yn ystod y flwyddyn i gyllideb 2023/24 Llywodraeth Cymru.

At hynny, gwyddoch fod un o'r deuddeg 'diwygiad radical' yn ein hadroddiad diweddar ar wasanaethau ar gyfer plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal yw cyflwyno'r FDAC yn y tymor hir fel a ganlyn:

*Yn amodol ar werthusiad llawn llwyddiannus, cyflwyno'r model llys datrys problemau (model y Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol, neu 'FDAC') ledled Cymru.*

Felly, yn amlwg, mae'n destun pryder mawr y bydd y cynllun peilot ei hun yn dod i ben yn gynnar ac na fydd yr FDAC yn parhau yn y tymor hir, gydag ansicrwydd ynghylch yr achosion gweithredol presennol a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i'r plant hynny a'u teuluoedd.

Oherwydd amseroldeb y mater hwn, byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl ynglŷn â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau dyfodol yr FDAC yn y tymor byr a'r tymor hir,

fel y gwnaethoch ddweud wrthym oedd eich bwriad ar 14 Medi. Rydym hefyd yn ysgrifennu at Gyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg i fynegi ein pryderon.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



## Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### Children, Young People and Education Committee

#### Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
SeneddPlant@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddPlant  
0300 200 6565

#### Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
SeneddChildren@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddChildren  
0300 200 6565

Paul Orders,  
Prif Weithredwr, Cyngor Caerdydd

25 Medi 2023

### Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro

Annwyl Mr Orders,

Gwyddoch ein bod wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn edrych ar brofiadau plant a phobl ifanc yn y system ofal. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ynghylch sut y dylid diwygio'r system ofal yn radical. Gwelwch o'n hadroddiad y gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gyflwyno model FDAC cyson ledled Cymru, yn amodol ar werthusiad llwyddiannus o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg. (Argymhelliad 9). Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru a ddywedodd y byddai'n adolygu'r gwerthusiad o'r cynllun peilot cyn ystyried modelau cyflawni cynaliadwy ar gyfer cyflwyno cynllun o'r fath yn genedlaethol.

Gwnaethom gynnal sesiwn graffu arall ar 14 Medi gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod pob agwedd ar ymateb Llywodraeth Cymru ymhellach. Fel rhan o'r sesiwn hon, gwnaethom ofyn am sicrwydd gan y Dirprwy Weinidog nad oedd y cyllid ar gyfer y cynllun peilot yn rhan o waith ehangach Llywodraeth Cymru i ganfod arbedion yn ystod y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru. Roeddem yn falch o glywed cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun peilot yn ddiogel.

Wedi hynny, rydym wedi cael gwybod bod Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro wedi'i derfynu. Mae hyn, wrth gwrs, yn peri pryder mawr i'r Pwyllgor. Ein pryder yw y bydd y cynllun peilot ei hun yn dod i ben yn gynnar ac na fydd yr FDAC yn parhau yn y tymor hir, gydag



ansicrwydd ynghylch yr achosion gweithredol presennol a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i'r plant hynny a'u teuluoedd.

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl ynghylch yr hyn y mae eich awdurdod lleol yn ei wneud i sicrhau dyfodol yr FDAC yn y tymor byr a'r tymor hir.

Oherwydd amseroldeb y mater hwn, byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor Bro Morgannwg.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, e-bostiwch Naomi Stocks, Clerc y Pwyllgor, ar [seneddplant@senedd.cymru](mailto:seneddplant@senedd.cymru) neu ffoniwch 0300 200 6222.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Rob Thomas,  
Prif Weithredwr, Cyngor Bro Morgannwg

25 Medi 2023

## **Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro**

Annwyl Mr Thomas,

Gwyddoch ein bod wedi cyhoeddi adroddiad yn ddiweddar yn edrych ar brofiadau plant a phobl ifanc yn y system ofal. Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein barn ynghylch sut y dylid diwygio'r system ofal yn radical. Gwelwch o'n hadroddiad y gwnaethom argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y farnwriaeth a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gyflwyno model FDAC cyson ledled Cymru, yn amodol ar werthusiad llwyddiannus o gynllun peilot Caerdydd a Bro Morgannwg. (Argymhelliad 9). Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru a ddywedodd y byddai'n adolygu'r gwerthusiad o'r cynllun peilot cyn ystyried modelau cyflawni cynaliadwy ar gyfer cyflwyno cynllun o'r fath yn genedlaethol.

Gwnaethom gynnal sesiwn graffu arall ar 14 Medi gyda'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod pob agwedd ar ymateb Llywodraeth Cymru ymhellach. Fel rhan o'r sesiwn hon, gwnaethom ofyn am sicrwydd gan y Dirprwy Weinidog nad oedd y cyllid ar gyfer y cynllun peilot yn rhan o waith ehangach Llywodraeth Cymru i ganfod arbedion yn ystod y flwyddyn i gyllideb Llywodraeth Cymru. Roeddem yn falch o glywed cadarnhad gan Lywodraeth Cymru bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun peilot yn ddiogel.

Wedi hynny, rydym wedi cael gwybod bod Cynllun Peilot Llys Teulu Cyffuriau ac Alcohol Caerdydd a'r Fro wedi'i derfynu. Mae hyn, wrth gwrs, yn peri pryder mawr i'r Pwyllgor. Ein pryder yw y bydd y cynllun peilot ei hun yn dod i ben yn gynnar ac na fydd yr FDAC yn parhau yn y tymor hir, gydag

ansicrwydd ynghylch yr achosion gweithredol presennol a'r hyn y mae hyn yn ei olygu i'r plant hynny a'u teuluoedd.

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl ynghylch yr hyn y mae eich awdurdod lleol yn ei wneud i sicrhau dyfodol yr FDAC yn y tymor byr a'r tymor hir.

Oherwydd amseroldeb y mater hwn, byddem yn gwerthfawrogi ymateb cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor Caerdydd.

Os bydd arnoch angen rhagor o wybodaeth, e-bostiwch Naomi Stocks, Clerc y Pwyllgor, ar [seneddplant@senedd.cymru](mailto:seneddplant@senedd.cymru) neu ffoniwch 0300 200 6222.

Yn gywir,



Jayne Bryant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Dr Chris Llewelyn

Prif Weithredwr / Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Welsh Local Government Association

Un Rhodfa'r Gamlas  
Heol Dumballs  
Caerdydd  
CF10 5BF  
Ffôn: 029 2046 8600

One Canal Parade  
Dumballs Road  
Cardiff  
CF10 5BF  
Tel: 029 2046 8600

Ein Cyf / Our Ref: CYPE092023

Dyddiad / Date: 26 September 2023

Gofynnwch am / Please ask for: Sharon Davies

Llinell uniongyrchol / Direct line: 07917275203

Ebost / Email: Sharon.davies@wlga.gov.uk

Jayne Bryant AS

Cadeirydd, Pwyllgor Seneddol Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Annwyl Jayne

## GWEITHREDU DIWYGIADAU ADDYSG (2<sup>o</sup> WIRIAD)

Diolch am eich llythyr ar 17 Gorffennaf yn ceisio barn CLILC am ddau agwedd ar y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd: rôl y Swyddog Arweiniol Dynodedig Addysg Glinigol (DECLO) a rolau ysgolion ac awdurdodau lleol mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).

Gwnaethom ymgynghori â chydweithwyr CCAC er mwyn datblygu ein hymateb. Mae'r papur sydd ynghlwm yn adlewyrchu sylwadau gan awdurdodau lleol ar draws y saith Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru.

Gofynnoch yn benodol i gael gwybod faint o awdurdodau lleol a oedd wedi cyhoeddi eu cyfres o egwyddorion. Ar hyn o bryd, mae 13 wedi cyhoeddi; a'r gweddill yn y broses o gwblhau a/neu ymgynghori ar eu hegwyddorion drafft. Disgwylir iddyn nhw gyhoeddi eu fersiynau terfynol yn ystod tymor yr hydref hwn.

Gobeithio bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i'r Gweinidog Addysg a'r Iaith Gymraeg.

Yn ddiffuant,



Sharon Davies

## **Pennaeth Addysg**

# **GWEITHREDU DIWYGIADAU ADDYSG (2il WIRIAD): PAPUR TYSTIOLAETH CLILC A CCAC I'R PWYLLGOR SENEDDOL PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG**

## **Rôl y Swyddog Arweiniol Dynodedig Addysg Glinigol**

1. Mae tri DECLO yn gweithio ar draws y 7 Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru. Mae un DECLO yn gweithio ar draws tri Bwrdd Iechyd Lleol; mewn Bwrdd Iechyd Lleol arall mae'r DECLO gwreiddiol wedi gadael ei swydd ac mae trefniadau dros dro ar waith i recriwtio DECLO newydd. Mae'r awdurdodau lleol dan sylw wedi cael eu gwahodd i fod yn rhan o'r broses honno.
2. Darlun cymysg sydd ar draws awdurdodau lleol. Mae'n gadarnhaol ar y cyfan o ran perthnasoedd gwaith proffesiynol gyda'r DECLO ar lefel weithredol: mae awdurdodau'n croesawu cael y DECLO fel un pwynt cyswllt o fewn y Bwrdd Iechyd Lleol a cheir adroddiadau eang am well cyfathrebu, chydweithio a chydweithio â'r adran iechyd. Fodd bynnag, mae cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae Deddf ALNET yn llwyddo i helpu i wella cyfrifoldebau iechyd o ran bodloni anghenion ADY pob dysgwr.
3. Adroddir yn eang am bresenoldeb y DECLO mewn cyfarfodydd allweddol, er enghraifft mewn Fforymau Cydlynwyr ADY, Paneli ADY, Fforymau'r Blynyddoedd Cynnar, Grwpiau Strategol ALNET Iechyd ac Addysg Rhanbarthol, Grwpiau Llywio Gweithredu ADY. Mewn rhai achosion, mae'r DECLO yn cydlynu neu'n cadeirio cyfarfodydd o'r fath (weithiau ar y cyd â'r awdurdod lleol) a/neu'n stiwardio staff iechyd perthnasol eraill i fynychu neu gyfrannu (e.e. mewnbyn gan Ymwelydd Iechyd mewn Paneli'r Blynyddoedd Cynnar). Mae DECLO yn mynd i ddiwyddiadau hyfforddi a gynhelir gan yr ALI ar gyfer Cydlynwyr ADY (neu'n cyfrannu atynt); mae rhai wedi gweithio i ddatblygu pecynnau hyfforddi ar-lein ac adnoddau eraill ar gyfer Cydlynwyr ADY ac ysgolion.
4. Yn ogystal â phresenoldeb y DECLO mewn cyfarfodydd a digwyddiadau ffurfiol, mae llawer o awdurdodau hefyd yn adrodd am sianeli cyfathrebu da o ddydd i ddydd - drwy e-bost, ffôn, cyfarfodydd ar-lein ac ati - sy'n galluogi i gydweithwyr addysg ac iechyd drafod pryderon brys a/neu sy'n dod i'r amlwg mewn modd amserol.
5. Ar gyfer y mwyafrif o awdurdodau lleol, mae rôl DECLO wedi gwella cyfathrebu a chydweithio rhwng awdurdodau a'r Byrddau Iechyd Lleol ar draws y blynyddoedd cynnar, addysg statudol ac addysg ôl-16, gan helpu i gefnogi cydymffurfiaeth statudol mewn llawer o ffyrdd:

- creu cysylltiadau a chryfhau perthnasoedd rhwng staff allweddol iechyd ac addysg, megis penaethiaid a Chydlynwyr ADY;
  - gwella dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau priodol;
  - gwella cyfathrebu ymysg yr holl bartneriaid;
  - codi ymwybyddiaeth o'r system ADY ymysg staff iechyd;
  - gwella dealltwriaeth ar y cyd o brosesau a gweithrediadau;
  - nodi blaenoriaethau ar gyfer cydweithio rhwng yr awdurdod lleol, ysgolion a'r bwrdd iechyd;
  - helpu i sicrhau aliniad traws-wasanaeth;
  - helpu i nodi a mynd i'r afael â phroblemau posibl yn fuan;
  - galluogi system rhannu gwybodaeth yn gynt, a mynd i'r afael â cheisiadau am wybodaeth gan yr adran iechyd yn well, yn benodol yn y blynyddoedd cynnar;
  - galluogi system datrys problemau cydweithredol a datblygu dull cyson o anfon negeseuon;
  - helpu i ddatblygu ffurflenni hysbysu awdurdodau lleol neu ranbarthol ar gyfer atgyfeiriadau o dan Adran 20, 64 a 65 o Ddeddf ALNET i geisio sicrhau dull gweithredu cyson;
  - darparu cyngor ac arweiniad i ysgolion ar brosesau iechyd a'r gefnogaeth sydd ar gael;
  - helpu i rannu arfer da / datblygiadau cenedlaethol gyda rhanbarthau / Byrddau Iechyd Lleol eraill
  - cefnogi achosion tribiwnlys. Mae nifer o awdurdodau lleol yn gadarnhaol iawn ynghylch effaith rôl y DECLO ar gydweithio mewn perthynas â datrys anghydfodau ac apeliadau Tribiwnlys.
6. Er gwaethaf yr uchod - a chan gydnabod y bydd awdurdodau lleol a'u DECLO yn parhau i gydweithio wrth i'r diwygiadau ADY fynd rhagddynt - mae effaith y rôl hyd yma yn amrywio ar draws awdurdodau. Mae rhai awdurdodau'n fodlon iawn â mewnbwn eu DECLO ar lefel gweithredol a strategol. Fodd bynnag, mae eraill yn teimlo bod cyflymder gweithredu'r diwygiadau ADY yn arafach ym maes iechyd nag ym maes addysg ac nid yw'r gwelliannau y gobeithir eu cyflawni wedi'u gwireddu'n llawn eto. O'r rheini, mae rhai'n adrodd mai dim ond cysylltiadau cyfyngedig sydd rhwng addysg ac iechyd o hyd a/neu ddim cynnydd nodedig mewn gweithio ar y cyd o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth.

7. Mae awdurdodau eraill yn croesawu mewnbwn gweithredol eu DECLO, ond yn teimlo bod eu dylanwad strategol yn fwy cyfyngedig. Nid yw hyn yn adlewyrchiad o unrhyw DECLO unigol ond yn fwy am y gwahaniaethau yn y ffyrdd y mae dyletswyddau statudol Ddeddf ALNET yn berthnasol i awdurdodau lleol ac iechyd. Mae teimlad parhaus nad yw'r berthynas rhwng addysg ac iechyd o dan y Ddeddf yn un gyfartal. Ac mae rhai o'r heriau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu o dan yr hen system – e.e. materion capasiti neu ariannu ym maes iechyd a chylch gorchwyl gweithredu neu ddiwylliant gwaith gwahanol – yn dal i fodoli ac nid oes gan DECLO y pŵer o reidrwydd i newid y rheini.
8. Mae rhai o'r materion neu heriau mwyaf cyffredin a adroddwyd gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag ymgysylltiad y gwasanaeth iechyd ar CDUau neu gyfrifoldebau iechyd yn gyffredinol o dan Ddeddf ALNET yn cynnwys:
- y gwahanol amserlenni cyfreithiol ar gyfer rheoli prosesau ADY. Ar gyfer awdurdodau lleol, mae'r Ddeddf ALNET a'r Cod ADY yn pennu amserlen ystyried 12 wythnos ar gyfer CDUau. Fodd bynnag, mae gwasanaethau iechyd yn gweithio i fframwaith deddfwriaethol a dangosyddion perfformiad gwahanol (ee hyd rhestrau aros). I bob pwrpas, mae rhwymedigaethau iechyd o dan Ddeddf ALNET yn eilradd i brif yrwyr deddfwriaethol iechyd ac mae weithiau'n her i awdurdodau gael y mewnbwn angenrheidiol i gyfarfodydd PCP a CDUau o fewn yr amserlen statudol;
  - presenoldeb anghyson gweithwyr iechyd proffesiynol mewn cyfarfodydd PCP. Mae rhai awdurdodau'n adrodd bod gwasanaethau iechyd yn gofyn am 6 wythnos o rybudd i fynychu cyfarfodydd PCP, nad yw'n cyd-fynd â'r amserlen 35 diwrnod i ysgolion gwblhau proses y CDU;
  - gwahaniaethau o ran deall a dehongli'r Ddeddf ALNET mewn perthynas ag atgyfeiriadau o dan Adran 20 ('Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol: Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG'). Mae'r adran hon yn caniatáu i awdurdodau lleol wneud ceisiadau i'r Bwrdd Iechyd Lleol am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol iechyd ond nid ysgolion. Felly, er bod cydweithio effeithiol ar achosion CDU cymhleth, mae rhai awdurdodau'n nodi bod angen gwneud mwy o waith i ddatblygu'r un dull ar gyfer achosion llai cymhleth, fel bod pob dysgwr ag ADY yn elwa ar fewnbwn amlddisgyblaethol, amlasiantaethol. Fel arall, mae risg o system CDU dwy haen, lle mai dim ond plant a phobl ifanc â CDU awdurdod lleol fydd yn gallu cael Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol iechyd wedi'i restru yn Adran

2C. Datblygiad cysylltiedig yw'r ffaith, mewn Byrddau Iechyd Lleol lle mae rhai awdurdodau lleol wedi 'dirprwyo' atgyfeiriadau Adran 20 i ysgolion, bod y Byrddau Iechyd Lleol hynny'n datgan 'nad ydynt yn ysbryd y Ddeddf' ac yn codi materion cyfreithiol ynghylch cyfansoddiad yr awdurdod lleol. Mae'r mater hwn eisoes wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru a bydd papur yn mynd i'w drafod ymhellach yn CCAC a'r Grŵp Llywio Cenedlaethol Diwygio ADY yn ddiweddarach y mis hwn.

- gwahaniaethau mewn dealltwriaeth neu ddiffyg eglurder ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol Iechyd' a phryd y dylid ei chynnwys yn Rhan 2C o'r CDU. Mae rhai awdurdodau'n mynegi pryder neu hyd yn oed syndod mai ychydig iawn o CDUau sydd â darpariaeth iechyd wedi'i chynnwys yn Rhan 2C, hyd yn oed ar gyfer dysgwyr sy'n mynd i ysgolion arbennig y gallai fod ganddynt anghenion meddygol a/neu therapi sylweddol a aseswyd;
- oedi cyn cael asesiad iechyd/gwybodaeth/adroddiadau. Gall anawsterau fod yn gysylltiedig â meini prawf ar gyfer gwasanaethau, capasiti a gwaith papur iechyd neu fiwrocratiaeth arall. Gall rhai o'r rhain fod yn gysylltiedig â gweithredu Adran 65 o Ddeddf ALNET ("Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a chymorth arall"). Mae rhywfaint o wahaniaeth barn ar draws awdurdodau lleol ynghylch a all ysgolion wneud ceisiadau adran 65 yn uniongyrchol i'r Bwrdd Iechyd Lleol am wybodaeth y teimlir bod ei hangen ar gyfer CDU dysgwr. Nid oes gofyniad cyfreithiol ar iechyd i ymateb i geisiadau o'r fath ac mae rhai awdurdodau'n nodi nad ydynt yn boblogaidd gyda'r adran iechyd. Lle gwneir ceisiadau o'r fath, mae strwythurau iechyd yn gymhleth neu'n ddryslud, gan ei gwneud yn anodd i ysgolion ac weithiau swyddogion awdurdodau lleol wybod pwy sy'n gyfrifol am beth. Weithiau ceir cwynion iechyd am ysgolion yn anfon llythyrau generig yn amhriodol at bob gweithiwr meddygol proffesiynol y credant y gallai fod ganddynt fewnbwn perthnasol, gan greu biwrocratiaeth ddiangen, yn enwedig gan na all llawer ychwanegu at y sgwrs ynghylch anghenion addysgol neu rwystrau i ddysgu a darpariaeth ddysgu ychwanegol. Yn yr un modd, mae ysgolion yn cwyno bod ffurflenni iechyd yn 'ddiangen o fanwl a biwrocraidd' ac yn eu gweld fel rhwystr rhag cael gafael ar gyngor pan fo angen;
- oedi cyn i ddysgwyr gael y cyfnod gofal a amlinellwyd yn eu datganiad / CDU oherwydd diffyg staff iechyd;
- rhai adroddiadau am weithwyr iechyd proffesiynol yn argymhell lleoliadau addysg arbenigol – y tu allan i'w cylch gwaith – heb unrhyw wybodaeth am



y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael mewn ysgolion. Mae adroddiadau hefyd am Ymwelwyr Iechyd yn gwneud atgyfeiriadau amhriodol i Fforymau'r Blynnyddoedd Cynnar, er nad yw adroddiadau SOGS (Atodlen o Sgiliau Tyfu) yn nodi angen datblygiadol sylweddol;

- defnydd cynyddol gan rieni o adroddiadau iechyd preifat, oherwydd rhestrau aros y GIG neu pan nad yw dysgwyr yn bodloni meini prawf ar gyfer amseroedd gwasanaethau'r GIG. Nid yw ysgolion ac awdurdodau lleol yn weithwyr iechyd proffesiynol, sy'n ei gwneud yn anodd iddynt herio dilysrwydd adroddiadau o'r fath neu wirio a ydynt yn dystiolaeth gywir, berthnasol neu addas ar gyfer CDU.

### **Rolau ysgolion ac awdurdodau lleol mewn perthynas â CDUau**

9. Mae tri ar ddeg o awdurdodau lleol wedi cyhoeddi eu hegwyddorion. Mae disgwyl i'r gweddill wneud hynny yn nhymor yr Hydref hwn, rhai ar ôl cwblhau eu hymgyngoriadau terfynol.
10. Mae pob awdurdod lleol wedi cael trafodaethau/ymgyngoriad sylweddol ynghylch cyfrifoldebau CDU gyda budd-ddeiliaid (ysgolion, penaethiaid, Cydlynwyr ADY, Swyddogion Cynhwysiant, Seicolegwyr Addysg ac ati) fel rhagarweiniad i gyhoeddi eu hegwyddorion neu i gyhoeddi canllawiau neu adnoddau cymorth eraill (e.e. Pecyn Cymorth Cynhwysiant) wrth ddisgwyl cyhoeddi eu hegwyddorion. Mewn rhai achosion, mae canllawiau neu offer wedi cael eu cyhoeddi ar sail ranbarthol i egluro pa ddarpariaeth gyffredinol ddylai fod ar gael mewn ysgolion ar gyfer dysgwyr ag ADY. Mae awdurdodau hefyd wedi sicrhau datblygiad proffesiynol a hyfforddiant ar gyfer eu Cydlynwyr ADY, i'w cefnogi i lywio eu prosesau penderfynu ar gyfer CDU. Mae ysgolion, lleoliadau ac asiantaethau partner eraill hefyd wedi cael hyfforddiant. Mae dogfennaeth ategol helaeth i gefnogi hyfforddiant.
11. O ganlyniad i'r uchod, mae awdurdodau lleol ar y cyfan yn teimlo bod eglurder (ymhlith Cydlynwyr ADY, ysgolion, rhieni a dysgwyr) ynghylch a yw CDUau yn cael eu cynnal gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol. Ni adroddir yn helaeth ar wahaniaethau barn, ni waeth a yw'r awdurdod wedi cyhoeddi ei egwyddorion ai peidio, ond mae rhai heriau gweithredol parhaus a nodwyd fel meysydd i'w gwella yn cynnwys:
  - cefnogaeth/hyfforddiant pellach i ysgolion a allai fod yn cael trafferth gwneud atgyfeiriadau priodol ar gyfer CDUau awdurdodau lleol, er mwyn osgoi atgyfeiriadau hwyr a all arwain at achosion cymhleth yn gwaethygu a'r perygl o fwy o waith Tribiwnlys;

- parhau i fynd i'r afael â phroblemau cyfathrebu - er gwaethaf llawer iawn o wybodaeth yn mynd allan i ysgolion a rhieni am y diwygiadau ADY a phrosesau newydd, ceir llawer o gamddealltwriaeth a disgwyliadau weithiau'n groes i'r ddeddfwriaeth;
- angen i atgyfnerthu dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus fel y mae'n berthnasol i ysgolion, er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu pennu ag ADY cyn ystyried a fyddai addasiadau rhesymol wedi bod yn briodol i liniaru unrhyw rwystrau a nodwyd i fynediad neu gyfranogiad.

12. Ers hynny mae rhai awdurdodau lleol a gyhoeddodd egwyddorion yn 2022 wedi'u hadolygu a'u diwygio yn dilyn profiad, fel arfer gyda'r nod o ddarparu eglurder pellach ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ariannu a gweithredu Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

13. Y farn gyffredinol yw mai ysgolion sydd yn y sefyllfa orau i adolygu a diwygio CDUau ar gyfer eu dysgwyr ag ADY. Y dull mwyaf cyffredin, felly, yw bod ysgolion yn cynnal CDUau oni bai y nodir fel arall yn y Cod ADY (neu os oes amgylchiadau eithriadol fel dysgwr mewn ysgol brif ffrwd ag anghenion cymhleth sy'n gofyn am Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol arbenigol y tu hwnt i'r hyn y mae'r ysgol yn gallu ei darparu). Os felly bydd y CDU yn cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol. Mae o leiaf un awdurdod lleol wedi creu nifer o swyddi 'swyddog dynodedig' i arwain ar CDUau ar gyfer grwpiau penodol (Plant sy'n Derbyn Gofal, EOTAS, EHE ac ÔI-16), i sicrhau bod y broses PCP yn cael ei harwain gan rywun ag arbenigedd a throsolwg strategol, a all ymateb i anghenion ac amgylchiadau penodol pob grŵp. Mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau hefyd CDUau ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau arbenigol (ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau), er bod amrywiadau: mae o leiaf un awdurdod wedi dirprwyo cyfrifoldeb ar ôl ymgynghori â'i arweinwyr lleoliadau arbenigol; mae eraill yn sôn am drafodaeth barhaus am y posibilrwydd o ddirprwyo yn y dyfodol

14. Mae pob awdurdod lleol wedi cytuno ar drefniadau ariannu ar gyfer cefnogi dysgwyr ag ADY mewn ysgolion, a pha Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol y mae'n briodol disgwyl i ysgol ei darparu gyda'r cyllid sydd ar gael. Yn amlach na pheidio, caiff cyllidebau eu dirprwyo'n llawn i ysgolion, naill ai gyda chyllideb cymorth ADY ddangosol neu ryw fath o gyllid ychwanegol ar ben cyllideb graidd yr ysgol. Mae'n bosibl y bydd mecanweithiau ariannu gwahanol yn bodoli ar gyfer lleoliadau arbenigol lle mae'r ALI yn cynnal y CDU. Mae llawer o awdurdodau hefyd wedi rhoi trefniadau ar waith i ysgolion prif ffrwd gael mynediad at adnoddau ychwanegol yn uniongyrchol, i helpu i lywio neu

ategu eu darpariaeth ddysgu ychwanegol neu i helpu i ddatblygu eu cynnig cyffredinol neu ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn cynnwys cyngor arbenigol (e.e. seicoleg addysg) neu addysgu, hyfforddiant neu gyfarpar arbenigol.

15. O ran datrys gwahaniaethau barn pan fyddant yn codi, mae ystod o drefniadau yn bodoli ar draws awdurdodau lleol. Yn fwyaf cyffredin, mae Paneli ADY wedi'u sefydlu i benderfynu ar geisiadau gan ysgolion i'r ALI gynnal CDU, gydag ymatebion yn cynnig cyngor adeiladol ac adborth i ysgolion lle bo'n berthnasol. Mae'n bosibl y bydd gan baneli o'r fath y rôl o ddarparu cefnogaeth a chyngor pellach hefyd, neu'n gallu trosglwyddo cyllid ychwanegol i'r ysgol fel y gall barhau i gynnal CDU. Mae trefniadau eraill yn cynnwys paneli datrys anghytundebau annibynnol i helpu i gyfleu ac egluro penderfyniadau CDU i ysgolion a rhieni, neu baneli adnoddau lle gall ysgolion ofyn am fwy o gefnogaeth neu adnoddau. Mae un awdurdod lleol wedi sefydlu Llinell Gymorth ADY i roi mynediad uniongyrchol i bobl ifanc, rhieni a gofawyr at yr awdurdod i gael cyngor neu gefnogaeth, neu i ofyn am ailystyried penderfyniad CDU ysgol. Mae hyn wedi helpu i atal achosion rhag gwaethygu ac wedi galluogi i'r awdurdod ymyrryd yn gynnar os yw'n ymddangos y gallai fod angen cefnogaeth ar ysgol.
16. Yn ogystal, mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol brosesau ar waith i sicrhau ansawdd a chysondeb CDUau ar lefel awdurdod lleol ac ysgol neu leoliad arbenigol.
17. O ran materion neu heriau a nodwyd yn ymwneud â chyfrifoldebau am CDUau, mae nifer o awdurdodau lleol wedi crybwyll lleoliadau trawsffiniol. Nid yw ond yn ofynnol i awdurdodau ymgynghori â'r ysgolion y maent yn eu cynnal ynghylch eu hegwyddorion a'u disgwyliadau o ran CDU, sy'n golygu y gallai'r trothwyon a'r meini prawf ar gyfer CDUau awdurdodau lleol ac ysgolion amrywio rhwng awdurdodau cyfagos. Gall hyn achosi problemau pan fo dysgwr o un awdurdod yn mynychu ysgol mewn awdurdod arall, gyda CDU sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae un awdurdod wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y ffaith nad yw'n ymddangos bod y Cod ADY (Paragraff 12.86) yn ddigon cryf nac yn ddigon clir ynghylch sut y dylai awdurdodau lleol gydweithio i ariannu darpariaeth ddysgu ychwanegol os nad yw ar gael yn yr ysgol. Mae perygl na fydd gan awdurdodau lleol unrhyw ddewis arall yn hytrach na mynnu CDUau a gynhelir gan awdurdodau lleol ar gyfer plant trawsffiniol, er mwyn sicrhau cyllid drwy Ddigolledu Rhwng Awdurdodau. Fodd bynnag, dim ond i Ddatganiadau y mae'r rheoliadau Digolledu Rhwng Awdurdodau cyfredol yn berthnasol ac nid oes canllawiau i sicrhau cysondeb ledled Cymru.

Delyth Jewell, AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

10 Gorffennaf 2023

Annwyl Gadeirydd

## **Lleoli Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol Amenedigol Gogledd Cymru**

Ysgrifennaf atoch ar ran Grŵp Iechyd a Lles Cymdeithas yr Iaith sy'n ymgyrchu yn unol â'r dull di-drais dros hawliau trigolion Cymru i gael derbyn gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg. Fel grŵp, rydym yn bryderus iawn am gynlluniau Llywodraeth Cymru i leoli gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol amenedigol gogledd Cymru y tu allan i Gymru, gan amddifadu merched a'u teuluoedd o'u hawl i dderbyn gofal trwy'r Gymraeg. Galwn ar Y Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg i gynnal ymchwiliad i'r mater am y rhesymau a amlinellir isod.

Ceir tystiolaeth gynyddol bod cleifion yn teimlo'n fwy cyfforddus, hyderus a medrus i drafod eu hiechyd yn eu mamiaith (Misell, 2000; Madoc-Jones, 2004; Prys, 2010; Iaith, 2012; CYG, 2014; Hughes, 2018; Martin et al, 2019); a byddai'n hollol annerbyniol pe na bai'r mamau hyn yn cael defnyddio eu Cymraeg, a hwythau eisoes mewn sefyllfa mor fregus. Heblaw hynny, os am gyrraedd rhywun mewn gwewyr meddwl, mae'n rhaid ar gyfathrebu effeithiol sy'n briodol i'w anghenion iaith (Pavlenko, 2012; Santiago-Rivera ac Altarriba, 2002). Gall hyn fod yn allweddol ar gyfer cynnal asesiadau cywir a dibynadwy, a chyflwyno triniaethau ystyrlon ac effeithiol (Karliner et al, 2010; de Moissac a Bowen, 2019; Seale et al, 2022). Am hynny, does dim amheuaeth y byddai cael y cyfle i siarad eu hiaith eu hun yn gallu gwneud cymaint o wahaniaeth i brofiadau a chanlyniadau'r cleifion dan sylw.

Rydym yn ymwybodol o wasanaethau ehangach a ddarperir dros y ffin lle mae arbenigedd wedi'i gwreiddio ers blynnyddoedd. Ond credwn fod y sefyllfa dan sylw yn bur wahanol gan fod yr arbenigedd iechyd meddwl eisoes gennym yng ngogledd Cymru – a hynny'n aml trwy'r Gymraeg. Rhaid nodi mai merched ar eu mwyafrag sydd dan sylw fan hyn. Gallwn ond dychmygu eu sefyllfa hunllefus a fyddai'n gwaethygu'n arw o fod mewn awyrgylch lle mae popeth yn teimlo'n anghyfarwydd, yn enwedig yr iaith o'u cwmpas. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n rhaid i'r driniaeth fod yn ieithyddol briodol neu mae yna beryg na fydd yn effeithiol - na hyd yn oed yn addas ar gyfer yr unigolyn.

Rydym wedi ein siomi'n arw gydag ymateb y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant i'r drafodaeth (gweler cofnod Y Senedd 15/2/23 ac ymateb ysgrifenedig y gweinidog i

Gymdeithas yr Iaith 1/6/23). Wrth ddiystyried pwysigrwydd y Gymraeg yn y gwaith cynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn cefnu ar egwyddorion craidd ei strategaeth *Mwy na Geiriau* ac yn tanseilio hawliau dynol merched bregus. Galwn ar Y Pwyllgor Diwylliant a'r Gymraeg i gynnal ymchwiliad i'r mater hwn ar frys gan ystyried y dystiolaeth yn llawn ac ail-agor y drafodaeth. Rydym yn ffyddiog y byddai hyn yn arwain at gynllunio o'r newydd er mwyn gwarchod hawliau iaith mamau a theuluoedd ar eu mwyaf bregus.

Yn gywir

Gwerfyl Roberts  
Cadeirydd  
Grŵp Iechyd a Lles  
Cymdeithas yr Iaith

**Jeremy Miles AS/MS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**  
**Minister for Education and Welsh Language**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Jayne Bryant AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
[SeneddPlant@senedd.cymru](mailto:SeneddPlant@senedd.cymru)

29 Medi 2023

Annwyl Jayne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Awst a'r llythyr gan y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig ynghylch pryderon am fwlio hiliol mewn ysgolion, yr heriau sydd ynghlwm wrth adrodd a chasglu data, a pherthynas hyn â gwaharddiadau o ysgolion.

*Adrodd a chofnodi achosion o fwlio a/neu aflonyddu hiliol mewn lleoliadau addysg*

Mae'n hanfodol bod pawb yn herio'r agweddau ac ymddygiadau negyddol sydd wrth wraidd bwlio ar sail rhagfarn, ac mae hynny'n cynnwys bwlio hiliol. Mae'n hynod bwysig bod plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu, gartref ac yn yr ysgol, am barch, goddefgarwch a charedigrwydd ac mae Llywodraeth Cymru yn condemnio unrhyw fath o fwlio ac aflonyddu. Fel y nodir yn ein canllawiau gwrth-fwlio statudol, 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb', rydym yn disgwyl i ysgolion a lleoliadau addysg gynnal ymchwiliad llawn i bob honiad o fwlio a hiliaeth, a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r mater ac atal achosion pellach rhag digwydd.

Mae ein canllawiau hefyd yn cynghori y dylai lleoliadau addysg yng Nghymru gofnodi bob digwyddiad hiliol ac ymateb iddo. Dylid cofnodi unrhyw achos o fwlio hiliol mewn ysgol neu leoliad a'i adrodd i'r awdurdod lleol. Pan fydd pethau fel hyn yn digwydd, dylai'r lleoliad fod yn glir ynghylch ei drefniadau i herio hiliaeth a chefnogi pob plentyn sydd ynghlwm â'r achos, gan gynnwys y rhai a allai fod wedi clywed neu weld y digwyddiad. Mae hefyd yn bwysig iawn eu bod yn ymgysylltu ac yn cydweithio â gyda theuluoedd y rhai sydd ynghlwm â'r achos.

Er ein bod yn cydnabod yr angen i greu cysondeb yn ein systemau ar gyfer adrodd a monitro data ynghylch bwlio ac aflonyddu, fel y nodir y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae angen sail gyfreithlon ar gyfer casglu'r data hwn ar lefel genedlaethol. Byddai angen gwneud hyn drwy ddiwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Unigol) (Cymru) 2007.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 147**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n bwysig bod diben i gasglu unrhyw ddata. Ni ddylai unrhyw ddata am fwlio ac aflonyddu fodoli ar ben ei hun ond rhaid gallu gweithredu arno i wella profiadau plant a phobl ifanc.

Ar hyn o bryd mae fy swyddogion yn archwilio'r modd o gasglu data ar lefel genedlaethol, gan gynnwys asesu pa fath o newidiadau rheoleiddio y gallai fod eu hangen er mwyn gallu gwneud hyn

### *Diweddaru canllawiau gwrth-fwlio Llywodraeth Cymru*

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn diweddaru ac yn gwella ein canllawiau gwrth-fwlio statudol, yn benodol mewn perthynas â bwlio ar sail rhagfarn. Er bod y gwaith ar ein system adrodd data yn parhau i fynd rhagddo, byddwn yn defnyddio'r diweddariad hwn i roi cyngor i leoliadau addysg ac awdurdodau lleol ynghylch sut y gellir defnyddio data yn effeithiol ar lefel leol i atal bwlio ac asesu effeithiolrwydd pob ymateb i achosion o fwlio. Bydd hyn yn rhannu arfer effeithiol fel y gellir gweithredu ar ddata sydd eisoes ar gael yn y ffordd sy'n mynd i gael yr effaith fwyaf.

Wrth ddiweddaru'r canllawiau hyn, mae fy swyddogion yn defnyddio tystiolaeth bresennol a thystiolaeth sydd ar ddod ynghylch profiadau plant a phobl ifanc o fwlio (ac yn benodol hiliaeth) mewn ysgolion, yn ogystal â'n hymgysylltiad diweddar â phlant a phobl ifanc.

Un o'r darnau allweddol o dystiolaeth fydd y canlyniadau yn yr adroddiad sydd yn yr arfaeth gan Gomisiynydd Plant Cymru ar brofiadau o hiliaeth mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Yn ystod cyfarfod diweddar gyda'r Comisiynydd, cafwyd trafodaeth am ei phryderon ynghylch y cynnydd o ran cefnogi dysgwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol, gan gynnwys Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae disgwyl i ganlyniadau adroddiad y Comisiynydd gael eu cyhoeddi yn fuan.

Gan mai diweddariad i ganllawiau statudol yw hwn, efallai y bydd angen ymgynghori â'r cyhoedd yn gyntaf ar y newidiadau arfaethedig. Os oes angen gwneud hyn, rwy'n disgwyl i'r ymgynghoriad gael ei gynnal yn gynnar yn 2024.

Mae fy swyddogion eisoes yn ystyried y cymorth y gallai fod ei angen ar ysgolion, lleoliadau addysg ac awdurdodau lleol i weithredu'r canllawiau wedi'u diweddaru a sut y dylai hyn gysylltu â'r cynnig datblygiad proffesiynol ehangach i ymarferwyr. Bydd fy swyddogion hefyd yn datblygu cyfleoedd ymgysylltu pellach ag ymarferwyr ac awdurdodau lleol yn ystod y gwaith o ddatblygu'r canllawiau a fydd hefyd yn llywio'r broses o ddarparu a gweithredu'r canllawiau diweddaraf.

### *Gwahardd o'r ysgol*

Rwy'n gweld bod y llythyr gan y Tîm Cymorth Ieuentid Ethnig yn codi'r mater o waharddiadau ysgolion. Nodaf fod y llythyr gan y Tîm Cymorth Ieuentid Ethnig yn codi mater gwaharddiadau ysgolion. Fel y nodir yn adran 1.7 o ganllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru, mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn dysgwyr rhag gwahaniaethu ar sail nodweddion gwarchoddedig.

Er nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn atal ysgolion rhag gwahardd dysgwyr sydd â nodwedd warchoddedig, mae'n atal ysgolion rhag gwahardd dysgwyr *oherwydd* eu nodwedd warchoddedig (e.e. gwahardd dysgwr anabl oherwydd ei anabledd) neu wahaniaethu'n anghyfreithlon yn eu herbyn ystod y broses wahardd. Mae hyn yn berthnasol i waharddiadau parhaol a cyfnod penodol.


Mae gwahardd dysgwr y tybir bod ganddo nodwedd warchodedig neu oherwydd cysylltiad y dysgwr hwnnw â rhywun sydd â nodwedd warchodedig yn wahaniaethu uniongyrchol.

Rydym yn adolygu'r canllawiau 'Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion mewn dau gam. Yn y cam cyntaf byddwn yn ceisio gwella'r naws a'r iaith a ddefnyddir yn y canllawiau, fel eu bod yn adlewyrchu dull seiliedig ar hawliau ac sy'n ystyriol drawma, gan gynnwys arfer da. Bydd y diweddariad hefyd yn cynnwys gwelliannau i adlewyrchu newidiadau diweddar i ddeddfwriaeth. Fy mwriad yw cyhoeddi'r diweddariad hwn yn ystod tymor yr hydref.

Yn yr ail gam byddwn yn ystyried pa ddiweddariadau pellach sydd eu hangen i'r canllawiau. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, diwygio'r canllawiau mewn perthynas â'n bwriadau polisi datganedig a darparu canllawiau ynghylch gwahardd grwpiau penodol o blant, fel y rhai sy'n cael eu gwahardd yn anghymesur.

Er mwyn cefnogi'r cam hwn, rydym wedi comisiynu ymchwil i'r arferion a ddefnyddir gan ysgolion a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion i atal gwaharddiadau parhaol a gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion; ac i archwilio sut y gellir cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion, dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr i atal gwaharddiadau o ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion Mae'n bwysig bod canfyddiadau'r ymchwil, y mae disgwyl iddynt fod ar gael yn yr hydref, yn llywio'r canllawiau diwygiedig. Bydd y cam hwn o'r canllawiau yn destun ymgynghoriad llawn.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**  
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg  
Minister for Education and Welsh Language





## Y Pwyllgor Deisebau

### Petitions Committee

Jayne Bryant AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN  
2 Hydref 2023

Annwyl Jayne

Deiseb P-06-1347 Adolygu polisiâu anghenion dysgu ychwanegol a'i gwneud yn orfodol i hyfforddi pob athro a chynorthwydd addysgu mewn technegau rheoleiddio YN LLAWN

Trafododd y Pwyllgor Deisebau'r ddeiseb uchod yn ein cyfarfod ar 11 Medi, ynghyd â gohebiaeth gan Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, a'r Deisebydd.

Yn y cyfarfod, cytunodd Aelodau i ysgrifennu at eich Pwyllgor er mwyn tynnu eich sylw at y ddeiseb ac i gofyn a ellir ystyried y ddeiseb a'r ohebiaeth a dderbynnir fel rhan o'ch ymchwiliad ar fynediad cyfartal i addysg a gofal plant.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan at: <https://busnes.senedd.cymru/ielssueDetails.aspx?Ild=41438&Opt=3>.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â tîm clericio'r Pwyllgor drwy'r cyfeiriad e-bost isod, neu drwy ffonio 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb drwy e-bostio'r tîm clericio: [deisebau@senedd.cymru](mailto:deisebau@senedd.cymru).

Yn gywir



Jack Sargeant AS  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

### Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Deisebau@senedd.cymru  
senedd.cymru/SeneddDeisebau  
0300 200 6565

### Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
Petitions@senedd.wales  
senedd.wales/SeneddPetitions  
0300 200 6565





Eich cyf/Your ref P-06-1347  
Ein cyf/Our ref JMEWL/00920/23

Jack Sargeant AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai ynghylch materion a godwyd mewn deiseb a ddaeth i law'r Pwyllgor Deisebau gan Clare Anna Mitchell.

Mae tegwch a chynhwysiant yn ganolog i'r diwygiadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i'r system addysg yng Nghymru. Rydym yn benderfynol o greu system lle caiff anghenion unigol eu nodi'n gynnar, lle yr eir i'r afael â nhw yn gyflym, a lle y bydd pob dysgwr yn cael cefnogaeth i gyflawni ei botensial.

Mae ein diwygiadau addysg yn cynnwys newid y Cwricwlwm yng Nghymru a chyflwyno system newydd i gefnogi dysgwyr ag ADY. Mae'r [Cwricwlwm i Gymru](#) wedi'i gynllunio i godi lefel dyheadau pob dysgwr. Mae'n gweld pob dysgwr fel unigolyn sydd â gwahanol gryfderau a meysydd i'w datblygu, a all symud ymlaen mewn gwahanol ffyrdd ac ar gyflymder gwahanol.

Ochr yn ochr â diwygio'r Cwricwlwm, rydym yn cyflwyno'n raddol system ADY newydd sy'n disodli'r system anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae'r system ADY yn newid y fframwaith cyfreithiol yn ogystal ag arferion i gefnogi plant a phobl ifanc, fel bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd fwy amserol. Mae'r system newydd yn sicrhau y cynllunnir yn briodol ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol i ddiwallu ADY dysgwyr 0-25 oed sydd ei hangen, gan ei diogelu mewn un Cynllun Datblygu Unigol (CDU) statudol. Mae hefyd yn cryfhau hawliau plant ac yn sicrhau bod barn, dymuniadau a theimladau'r plentyn a'i rieni yn cael eu clywed. Mae'r system ADY wedi'i seilio ar Ddeddf ADY a'r Tribiwnlys Addysg a [Chod ADY Cymru](#).

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithlu medrus i lwyddiant ein diwygiadau addysg. Mewn Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ac mewn sesiynau dysgu proffesiynol parhaus i athrawon mewn swyddi, mae diwallu anghenion pob dysgwr yn flaenoriaeth. Mae cefnogi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales](mailto:Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

dysgwyr ag ADY yn rhan o astudiaethau craidd athro dan hyfforddiant, ac mae safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth yn nodi'n glir y cyfrifoldeb sydd ar bob athro ac arweinydd i sicrhau bod anghenion pob dysgwr yn cael eu diwallu, gan gynnwys dysgwyr â chyflyrau niwrowahanol. Mae pob aelod staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ag ADY yn gyfrifol am ofalu bod anghenion eu dysgwyr yn cael eu hadnabod a'u diwallu.

Mae'r Rhaglen Dysgu Proffesiynol ac Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) wedi'i chynllunio i baratoi athrawon dan hyfforddiant i feithrin ystafelloedd dosbarth cynhwysol, fel bod athrawon yn parhau i allu diwallu anghenion pob dysgwr. Fel rhan o'r broses o adnewyddu'r meini prawf achredu ar gyfer rhaglenni AGA, rydym wedi cryfhau'r disgwyliadau o ran cefnogi dysgwyr ag ADY fel rhan o astudiaethau craidd athrawon dan hyfforddiant.

Un rhan allweddol o'n gwaith wrth weithredu'r system ADY newydd yw ceisio sicrhau y gall athrawon ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY, fel y gallant ddefnyddio addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau eraill wedi'u targedu, er mwyn i blant allu dysgu'n fwy effeithiol, ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o gyngor a chymorth arbenigol.

Mae athrawon yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol eu hunain. Er mwyn eu helpu nhw ac ymarferwyr eraill, rydym wedi datblygu dull cenedlaethol o ddysgu proffesiynol a hawl dysgu proffesiynol sy'n hyrwyddo'r cymorth y mae gan ymarferwyr, arweinwyr systemau ac ymgynghorwyr hawl i'w cael.

Fel rhan o'r cyfleoedd dysgu proffesiynol sydd ar gael i bob athro, rydym wedi datblygu llwybr dysgu proffesiynol ADY cenedlaethol ar-lein, sydd ar gael ar [Hwb](#) yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r hyfforddiant yno i helpu pob athro i gefnogi dysgwyr ag ADY, ac yn enwedig Cydlynwyr ADY, sy'n chwarae rôl strategol mewn ysgolion ac sy'n gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i staff sy'n ceisio cyngor ac arweiniad ar ADY. Mae elfennau allweddol y dysgu hwn yn cynnwys ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gynhwysol, dull ysgol gyfan, a chydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol yn effeithiol ar draws lleoliadau addysgol. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda Chynghrair Anghenion Ychwanegol y Trydydd Sector i greu gwybodaeth i ysgolion ar fathau penodol o anawsterau a/neu anabledau dysgu.

Gall athrawon sydd am ymchwilio ymhellach ymgymryd â'r MA Cenedlaethol (Meistr) mewn Addysg (Cymru) – ADY. Mae'r llwybr hwn ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'n rhoi cyfle i athrawon wella eu gwybodaeth broffesiynol am ADY, ymgysylltu ag ymchwil a gwella eu hymarfer mewn perthynas ag ADY.

Rydym wedi datblygu [hyfforddiant](#) ac adnoddau i godi ymwybyddiaeth o'r system ADY newydd yn gyffredinol, ac wedi cyhoeddi canllawiau i helpu ymarferwyr. Mae'r rhain yn rhoi manylion ymyriadau effeithiol ar gyfer dysgwyr sydd â [nam ar y synhwyrâu](#), [awtistiaeth](#) ac [anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd](#) mewn lleoliadau addysg. Rydym hefyd yn gweithio gyda [Thîm Awtistiaeth Cenedlaethol Cymru](#), sy'n helpu i godi ymwybyddiaeth o gyflyrau niwrowahanol ar draws pob proffesiwn, i gynnig [adnoddau pwrpasol](#) i ymarferwyr.

Mae cynorthwywyr addysgu yn rhan werthfawr ac annatod o weithlu ysgolion, ac mae ganddynt rôl bwysig i'w chwarae mewn proffesiwn addysg o ansawdd uchel. Mae ein Llwybr Dysgu presennol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol i gefnogi cynorthwywyr addysgu drwy gydol eu gyrfa. Rydym wedi sefydlu Grŵp Llywio Dysgu Proffesiynol i edrych ar yr holl gyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer cynorthwywyr addysgu yng Nghymru. Nod y grŵp hwn yw sicrhau mynediad cyfartal at hyfforddiant cyson o ansawdd da sydd wedi'i dargedu ar gyfer ein cynorthwywyr addysgu. Gwneir buddsoddiad o £1 miliwn y flwyddyn i helpu gyda datblygiad a llwybr dysgu proffesiynol pob cynorthwydd addysgu yn y system.

Mae sicrhau cyflenwad o athrawon a chynorthwywyr addysgu medrus sy'n siarad Cymraeg yn rhan allweddol o ddatblygu ein gweithlu sy'n siarad Cymraeg. Mae [Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg](#) yn nodi nifer o gamau gweithredu gan gynnwys datblygu a hyrwyddo mwy o lwybrau i fynd yn gynorthwywyr addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, a datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol penodol wedi'u targedu er mwyn i bob cynorthwy-ydd addysgu fod yn hyderus i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu Cymraeg.

